Llywodraeth Cymru

Memorandwm Esboniadol

# Bil Deddfwriaeth (Cymru)

Dyddiad Cyflwyno : 3 Rhagfyr 2018

Diwygiwyd a gosodwyd : 18 Mehefin 2019

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron

*Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol*

## Memorandwm Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru)

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi cael ei baratoi gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafodd ei baratoi a'i osod yn wreiddiol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6 yn Rhagfyr 2018, ac mae Memorandwm diwygiedig bellach yn cael ei osod yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## Cynnwys


Datganiad yr aelod pan gyflwynwyd y Bil ........ 5

Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A ........ 7

Rhan 1 – Amcanion polisi'r Bil ........ 9

Disgrifiad ........ 9

Problemau presennol ........ 9

Problemau cyfraith anhygyrch ........ 9

Adroddiad Comisiwn y Gyfraith – Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru ........ 11

Y problemau sydd ynghlwm wrth ddehongli statudol ........ 12

Amcanion polisi ........ 14

Hygyrchedd Cyfraith Cymru ........ 14

Yr angen i ddeddfu ar hygyrchedd y gyfraith ........ 17

Dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru ........ 18

Geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-offerynnau Cymreig penodol ... 21

Cymhwysedd deddfwriaethol ........ 22

Dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi ........ 23

Materion eraill nad yw'r Bil yn ymdrin â hwy ........ 26

Ailddatgan darpariaethau ar ddehongli yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ..... 26

Y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cyfraith Cymru a'r broses o wneud a threfnu offerynnau statudol ........ 27

Defnyddio cyfieithiadau Cymraeg o ddeddfiadau a chyrff nad oes ganddynt enwau Cymraeg ........ 27

Rhan 2 – Ymgynghori ........ 29

Ymgyngoriadau a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil ........ 29

Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriadau ........ 30

Diwygiadau yn sgil yr ymgynghoriad ..... 30
Materion yn y Bil nad ymgynghorwyd arnynt eisoes ..... 35
Rhan 3 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 37
Pwerau sy'n gynwysedig yn y Bil ..... 37
Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth ..... 37
Adran 6(2) – diwygio'r Atodlen o eiriau ac ymadroddion diffiniedig ..... 37
Adran 37(1) – nodi'n fanwl ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru 38
Adran 41(1) – rhoi effaith lawn i'r Ddeddf ..... 38
Adran 43(2) – Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn dod i rym ..... 38
Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth ..... 39
Rhan 4 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..... 43
Rhan 1: Hygyrchedd Cyfraith Cymru ..... 45
Opsiwn 1: Dyhead i wella hygyrchedd ond ddim rhaglen ffurfiol ..... 45
Opsiwn 2 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol heb ddyletswydd statudol ..... 46
Opsiwn 3 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol gyda dyletswydd statudol yn sail iddi . 51
Rhannau 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru ..... 56
Opsiwn 1 – Parhau i gymhwyso Deddf Dehongli 1978 ..... 57
Opsiwn 2 – Atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg ..... 59
Opsiwn 3 – Datblygu darpariaethau dehongli pwrpasol i Gymru ..... 60
Casgliad (a'r opsiwn a ffefrir) ..... 65
Adolygiad ôl-weithredu ..... 66
Rhan – asesiadau o effaith penodol ..... 67
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ..... 67
Hawliau'r Plentyn ..... 67
Yr effaith ar y Gymraeg ..... 67
Asesiad o'r effaith ar gyfiawnder ..... 68
Asesu'r gystadleuaeth ..... 68
Atodiad A – Cymharu â Deddf Dehongli 1978 ..... 71
Atodiad B – Nodiadau Esboniadol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) ..... 75

## Datganiad yr aelod pan gyflwynwyd y Bil

Yn fy marn i byddai darpariaethau'r Bil Deddfwriaeth (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 3 Rhagfyr 2018, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Jeremy Miles AC

Cwnsler Cyffredinol Cymru
Yr Aelod Cynulliad sy'n Gyfrifol am y Bil

3 Rhagfyr 2018

*Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol*

## Mynegai sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6A

| **Gofynion Rheol Sefydlog 26.6** | | **Lleoliad yn y Memorandwm Esboniadol** |
|---|---|---|
| 26.6 (i) | Datganiad yr aelod ar gymhwysedd deddfwriaethol | Datganiad yr aelod Tudalen 5 |
| 26.6 (ii) | Amcanion polisi'r Bil | Rhan 1, paragraffau 1 a 24 i 60 |
| 26.6 (iii) | Ystyried dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi | Rhan 1, paragraffau 64 i 70 a Rhan 4, paragraffau 130 i 151 a 174 i 192 |
| 26.6 (iv) | Ymgynghori ar yr amcanion polisi, manylion y Bil a'r Bil Drafft | Rhan 2, paragraffau 86 i 91 |
| 26.6 (v) | Crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad | Rhan 2, paragraffau 92 i 95 |
| 26.6 (vi) | Rhesymau dros beidio â chyhoeddi Bil (neu Ran o Bil) ar ffurf ddrafft | Rhan 2, paragraffau 99 i 105 |
| 26.6 (vii) | Crynodeb o fwriadau pob un o'r darpariaethau | Atodiad B – Nodiadau Esboniadol i Fil Deddfwriaeth (Cymru) |
| 26.6 (viii) | Amcangyfrifon gorau o gostau ac arbedion | Rhan 4, Tabl 3 a pharagraffau 158 i 166 a 201 i 207 |
| 26.6 (ix) | Manteision ac anfanteision (na ellir eu cyfrif yn ariannol) | Rhan 4, Tabl 3 a pharagraffau 167 a 208 i 211 |
| 26.6 (x) | Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth | Rhan 3, gan gynnwys Tabl 2 |
| 26.6 (xi) | Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar ddarpariaethau sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru | Ddim yn gymwys (a gweler paragraff 125) |
| 26.6 (xii) | Effaith bosibl ar y system gyfiawnder | Rhan 5, paragraff 227 |

| Gofynion Rheol Sefydlog 26.6 | | Lleoliad yn y Memorandwm Esboniadol |
|---|---|---|
| 26.6B | Tabl tarddiadau | Ddim yn gymwys (ond noder Atodiad A) |
| 26.6C | Diwygiwyd atodlen o'r ddeddfwriaeth bresennol yn sylweddol gan y Bil | Ddim yn gymwys |

# Rhan 1 – Amcanion polisi'r Bil

## Disgrifiad

1. Diben Bil Deddfwriaeth (Cymru) yw gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a syml i'w defnyddio. Mae'n gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

## Problemau presennol

### *Problemau cyfraith anhygyrch*

2. Mynegwyd pryderon ers blynyddoedd lawer ynghylch cymhlethdod y gyfraith yn y Deyrnas Unedig (DU) a chyflwr anhrefnus ein llyfr statud enfawr, sy'n llawn i'r ymylon. Y doreth o ddeddfwriaeth a ddatblygwyd dros y degawdau diweddar yn y DU sy'n bennaf cyfrifol am y cymhlethdod hwn. Erbyn hyn, mae llyfr statud y DU yn enfawr ac yn anhylaw.

3. Gwraidd y broblem hon yw maint y ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a lled-ddeddfwriaeth sy'n bodoli, ond hefyd y ffaith bod deddfwriaeth yn cael ei diwygio, ei hailddiwygio a'i hail-wneud mewn modd anghyson dros amser. Mae'r arfer hwn yn creu haenau o ddeddfwriaeth a allai fod yn gysylltiedig â'i gilydd mewn amryw o wahanol ffyrdd gan wneud y dirwedd ddeddfwriaethol yn anodd iawn i gyfreithwyr lywio eu ffordd drwyddi, heb sôn am y dinesydd y mae hyn yn effeithio arno. Wrth gyflwyno'r mater hwn o dan fenter ddiweddar i ddatblygu "Cyfraith dda", dywedodd Swyddfa'r Deyrnas Unedig, y Swyddfa Seneddol fel a ganlyn:

> *People find legislation difficult. The volume of statutes and regulations, their piecemeal structure, and their level of detail and frequent amendments, make legislation hard to understand and difficult to comply with. That can hinder economic activity. It can create burdens for businesses and communities. It can obstruct good government, and it can undermine the rule of law.*

4. Mae dinasyddion yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i'r gyfraith. Er mwyn gallu manteisio ar y gyfraith, a pharchu hefyd y rhwymedigaethau a roddir arnynt ganddi, rhaid i ddinasyddion allu dod o hyd i'r gyfraith a'i deall yn weddol hawdd. O gofio bod cymaint o fygythiad i fynediad at gyfiawnder yn fwy cyffredinol, yn arbennig drwy gyngor cyfreithiol a ariennir gan y wladwriaeth, mae'n hanfodol

sicrhau bod cyfle da gan bobl i ddeall y gyfraith. Mae hyn wrth galon cenedl sy'n cael ei llywodraethu gan reol y gyfraith.

5. Mae llyfr statud sy'n glir, yn sicr ac yn hygyrch yn gaffaeliad economaidd. Mae'n rhoi fframwaith cyfreithiol mwy sefydlog a phendant i ddinasyddion a'r rhai sydd am wneud busnes. O ganlyniad, dylai helpu i ysgogi buddsoddiad a thwf, gan gadw'r rheolaeth briodol ar yr un pryd.

6. Mae'r problemau hyn yn arbennig o ddwys yng Nghymru. Er bod y sefyllfa'n newid yn gyflym ac er bod corff o gyfraith sy'n tyfu'n sydyn yn cael ei wneud gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru, mae'n dal yn wir bod y rhan fwyaf o'r cyfreithiau sy'n gymwys i Gymru hefyd yn gymwys i Loegr neu Brydain Fawr neu'r DU yn gyfan. Ar y cyfan, rydym wedi etifeddu ein cyfreithiau oddi wrth Senedd y DU ac nid ydynt yn gyffredinol, felly, yn adlewyrchu sefyllfa wleidyddol a chyfansoddiadol y genedl fel mae heddiw.

7. Mae rhywfaint o'r cymhlethdod hwn yn deillio o'r ffaith nad oes corff ffurfiol o gyfraith Cymru. I fod yn fanwl gywir, ni ddylem siarad am “gyfraith Cymru”, ond am gyfreithiau Cymru a Lloegr – sy'n cael eu hadnabod gan y rhan fwyaf fel “cyfreithiau Lloegr”. Mae diffyg awdurdodaeth gyfreithiol yng Nghymru (a'r corff cysylltiedig o gyfraith) yn rhan o'r rheswm pam mae'r dirwedd gyfreithiol mor gymhleth felly.

8. Mae cyfansoddiad y DU, ynghyd â'r broses o ddatganoli pwerau, yn golygu bod y llyfr statud yn fwy cymhleth eto felly. Ymagwedd gam wrth gam a graddol a fabwysiadwyd tuag at ddatganoli pŵer, ac o ganlyniad mae dryswch ynghylch lle yn union y saif y cyfrifoldeb. Fel enghraifft amlwg, mae llawer o'r pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Ddeddfau Senedd y DU wedi'u trosglwyddo i Weinidogion Cymru erbyn hyn. Nid yw hyn yn eglur yn gyffredinol yng ngeiriad y Deddfau eu hunain, er hynny, sy'n gwneud iddi ymddangos, felly, mai yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol y mae'r pŵer o hyd. Yn fwy cyffredinol, mae penderfynu ymhle i dynnu'r llinell rhwng mater sydd wedi'i ddatganoli a mater sydd heb ei ddatganoli yn dipyn anos yng Nghymru nag ydyw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon oherwydd bod ein trefniadau ni’n fwy cul a chymhleth.

9. Mae’n debygol y bydd ymadawiad y DU â’r Undeb Ewropeaidd yn cymhlethu’r broblem hon. Bydd mynd ati i gynnwys cyfraith a gynlluniwyd fel cyfraith ryngwladol, ac a seiliwyd yn bennaf ar greu'r farchnad sengl, yn y gyfraith ddomestig, yn dwysáu’r broblem o gyfraith anhygyrch ymhellach. Bydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn trosi corff sylweddol o gyfraith yr UE yn gyfraith ddomestig adeg ymadawiad y DU â'r UE, ac mae'n galluogi is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r gyfraith honno er mwyn iddi allu gweithredu'n gywir y tu allan i'r UE. Bydd yn ofynnol cael deddfwriaeth arall hefyd mewn perthynas

ag ymadael â'r UE, ac nid yw'n glir hyd yma beth fydd y sefyllfa derfynol, yn arbennig oherwydd bod llawer yn dibynnu ar natur perthynas y DU â'r UE yn y dyfodol. Bydd y newidiadau hyn yn arwain at lyfr statud llai hygyrch eto hyd yn oed oni bai bod camau pellach yn cael eu cymryd i symleiddio'r gyfraith.

### *Adroddiad Comisiwn y Gyfraith* – Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru

10. Ar gais Llywodraeth Cymru, cafodd prosiect ei gynnwys yn Neuddegfed Raglen Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr i ystyried *"Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru"*. Yn ei adroddiad terfynol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016, gwnaeth Comisiwn y Gyfraith 32 o argymhellion. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion hynny wedi cael eu derbyn neu wedi'u derbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru.

11. Yr angen i gydgrynhoi cyfraith Cymru, ac yna ei chodeiddio, sydd wrth wraidd adroddiad y Comisiwn, ac mae hyn yn ganolog i'r gwaith o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.

12. Cafodd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban eu creu yn y 1960au yn rhannol oherwydd pryderon cynyddol ynghylch natur gymhleth y llyfr statud. Wrth egluro'r rhesymeg dros greu'r Comisiwn (a thros hyrwyddo'r hyn a ddatblygodd yn Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965), dywedodd Syr Eric Fletcher, Gweinidog heb Bortffolio, wrth Senedd y DU:[1]

> *One of the hallmarks of a civilised society is that its laws should not only be just, but should be up to date, accessible and intelligible. The state of our law today does not satisfy those requirements.*

13. Er bod Leslie Scarman, a ddaeth yn Arglwydd Scarman wedi hynny, ac eraill, yn llawn bwriadau da, ni chafodd y llyfr statud ei godeiddio. [2] Ni chafodd deddfwriaeth ei chydgrynhoi ychwaith i'r fath raddfa ag oedd yn adlewyrchu'r cynnydd cyflym yn y llyfr statud. Mewn gwirionedd, mae'r gwaith o ddiwygio'r gyfraith yn mynd rhagddo'n arafach erbyn hyn wrth i'r llyfr statud ei hun barhau i dyfu. Mae'n ddyddiau cymharol gynnar o hyd yn hanes Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel deddfwrfa a Gweinidogion Cymru fel llywodraeth ond mae 59 o Fesurau neu Ddeddfau wedi cael eu pasio ers 2007 ac mae bron i 6,000 o offerynnau statudol wedi cael eu gwneud ers 1999. Cyfran fach iawn yn unig o lyfr statud y DU sy'n cael ei chynrychioli yn y ffigurau hyn, fodd bynnag.

14. Mae Cymdeithas y Gyfraith a Llywodraeth Cymru yn hynod ymwybodol o hyn. Wrth wneud ei argymhellion, roedd y Comisiwn yn sylweddoli nad oedd y

[1] Hansard HC 8 Chwefror 1965 cyfrol 706 cc47–158.
[2] Cadeirydd cyntaf Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr.

systemau a fodolai eisoes yn gweithio fel y dylent i ddiogelu'r system o gyfraith statud yn ei chyfanrwydd. Gwyddai hefyd fod y problemau hyn yn arbennig o berthnasol yng Nghymru oherwydd ein hanes a natur ein system ddatganoli. Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith yn glir mai dim ond drwy ymdrech gynaliadwy dros y tymor hir y gellir datrys y problemau hyn. yr hyn sy'n ofynnol yw newid ein prosesau deddfu yn barhaol. Dyma paham yr argymhellodd Comisiwn y Gyfraith fel a ganlyn:

> *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen dreigl o godeiddio* (Argymhelliad 14);
>
> *Dylai fod dyletswydd ar y Cwnsler Cyffredinol i gyflwyno rhaglen godeiddio, ac adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynnydd y rhaglen yn rheolaidd* (Argymhelliad 15).

15. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn y ddau argymhelliad, ac mae'n cynnig eu gweithredu drwy Ran 1 o'r Bil, sy'n ei gwneud yn ofynnol i lywodraethau'r dyfodol ddatblygu rhaglenni i wella mynediad at gyfraith Cymru. Mae'r bwriadau polisi ar gyfer Rhan 1 o'r Bil wedi'u nodi isod.

***Y problemau sydd ynghlwm wrth ddehongli statudol***

16. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd fod:

> *...Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried, ac yn adolygu'n gyson, y manteision ymarferol o gyflwyno Deddf Dehongli i'r Cynulliad* (Argymhelliad 25)

17. Dehongli statudol yw'r broses o bennu ystyr ac effaith deddfwriaeth, a sut y mae'n gweithredu. Gall hon fod yn broses gymhleth. Mae deddfau sy'n rhagnodi rheolau ynglŷn â'r ffordd y dylid dehongli cyfreithiau yn nodwedd gyffredin ar awdurdodaethau cyfreithiol ar draws gwledydd y gyfraith gyffredin. Diben deddfau o'r fath yw byrhau a symleiddio deddfwriaeth ac annog cysondeb o ran iaith, ffurf a'r ffordd y'i gweithredir.

18. Ers 1850 pan gafodd y Ddeddf Ddehongli gyntaf ei phasio gan Senedd y DU[3], mae bron y cyfan, os nad pob un o'r deddfwrfeydd wedi gwneud darpariaeth statudol ar sut y bwriedir i'w deddfwriaeth gael ei dehongli. Ceir, felly, Ddeddf o'r natur hon sy'n gymwys i ddeddfwriaeth yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er enghraifft, ac ar lefel ffederal a gwladwriaeth neu lefel daleithiol yn Awstralia a Chanada. I'r gwrthwyneb, nid oes gan Gymru ei Deddf ei hun. Ar hyn o bryd,

[3] *"10 "An Act for shortening the language used in Acts of Parliament",* a elwir hefyd yn Ddeddf yr Arglwydd Brougham.

mae'r holl ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru'n cael ei dehongli drwy gyfeirio at Ddeddf gan Senedd y DU: sef Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978).

19. Mae Deddf 1978 yn 40 oed erbyn hyn ac nid yw mor glir a hygyrch ag y gallai fod. Mae rhai o'r darpariaethau yn amwys neu wedi achosi problemau yn ymarferol, gellir dadlau bod rhai ohonynt yn ddiangen, ac mae rhai ohonynt, yn syml, wedi dyddio. Byddai o fudd felly ei moderneiddio.

20. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun Cymru gan fod y Ddeddf yn rhagddyddio’r setliad datganoli i Gymru. Nid yw rhai o'r rheolau a'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn berthnasol mewn perthynas â chyfraith sy’n gymwys i Gymru yn unig (er enghraifft, nifer o'r geiriau a'r termau a ddiffinnir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf, megis ‘London borough’). Nid yw sawl darpariaeth yn y Ddeddf yn gymwys o gwbl mewn perthynas â deddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

21. Mae'n destun pryder hefyd fod Deddf 1978, fel Deddf gan Senedd y DU, wedi cael ei deddfu yn Saesneg yn unig. Er iddi gael ei diwygio yn 2007 er mwyn bod yn gymwys i Ddeddfau a Mesurau gan y Cynulliad Cenedlaethol ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau a'r Mesurau hynny, nid oes unrhyw destun Cymraeg o Ddeddf 1978. Mae diffyg Deddf ddehongli ddwyieithog yn rhwystr i'r rhai sy'n ceisio defnyddio'r Gymraeg fel iaith y gyfraith, oherwydd:

   a. nid yw'r rheolau craidd ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ar gael yn Gymraeg;

   b. yn niffyg diffiniadau Cymraeg cyfatebol o'r geiriau a’r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, er mwyn deall effaith gyfreithiol y testun Cymraeg mewn deddfwriaeth, gallai fod yn ofynnol croesgyfeirio at destun Saesneg yr un ddeddfwriaeth, ynghyd â’r diffiniad neu’r ddarpariaeth berthnasol yn Neddf 1978.

22. Tynnwyd sylw at y diffyg hwn gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2016, gan Bwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad[4], yn ogystal â chan randdeiliaid a ymatebodd i ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru[5].

23. Ymhellach, yn unol ag adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal mewn perthynas â Deddfau a Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei deddfu neu'i gwneud yn Gymraeg a Saesneg. Wrth ymateb i ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru, dywedodd rhai rhanddeiliaid fod diffyg darpariaethau dwyieithog ar gyfer

[4] Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad) (2015), *Deddfu yng Nghymru.*
[5] Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru.*

dehongli deddfwriaeth yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Roedd rhanddeiliaid yn credu'n gryf y dylai camau gael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

## Amcanion polisi

### *Hygyrchedd Cyfraith Cymru*

24. Yr amcan polisi yw gwella hygyrchedd cyfraith Cymru. Bwriedir cyflawni hyn drwy ei hadolygu'n barhaus, a gweithredu rhaglen gynaliadwy o weithgareddau gyda'r nod o wella hygyrchedd y gyfraith.

25. Os ydyw am fod yn hygyrch, rhaid i gyfraith Cymru fod yn glir ac yn sicr ei heffaith, a rhaid iddi hefyd fod yn hawdd ei defnyddio. Dylai hyn fod yn wir yn achos darpariaethau Deddfau ac Offerynnau Statudol unigol, ond hefyd yn achos Deddfau ac Offerynnau Statudol yn gyfan – yr holl gyfraith mewn maes penodol a'r llyfr statud yn ei gyfanrwydd.

26. Mae llawer iawn o adnodd ac arbenigedd wedi cael eu neilltuo i brosiectau deddfwriaethol penodol yn y DU, ac yn arbennig yng nghyd-destun drafftio a datblygu deddfwriaeth sylfaenol. Ceir dealltwriaeth o bwysigrwydd rheol y gyfraith, a'r angen i sicrhau bod pob cyfraith newydd yn gyfreithiol gywir ac yn ddealladwy. Er hynny, mae llai o bwys yn cael ei roi ar gyfraith statud a'r effaith hirdymor y mae pob newid yn y gyfraith yn ei chael ar y llyfr statud yn fwy cyffredinol. Fel y nodwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Seneddol y DU mewn adroddiad a gomisiynwyd fel rhan o'i fenter "cyfraith dda"[6]:

> *…pieces of legislation need to be regarded not just as documents in their own right, but as parts of a larger mosaic of legislation. It is the aggregate to which the user will have access to.*

27. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn rheolaidd. Bydd angen ymdrech ar y cyd i ddatrys y mater hwn, yn y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru a'r tu hwnt, felly rydym yn cynnig y dylai'r Cwnsler Cyffredinol gael y cyfrifoldeb dros oruchwylio hygyrchedd cyfraith Cymru yn ei chyfanrwydd. Byddai hyn yn golygu bod modd rhoi ffocws hirdymor ar yr hyn a fydd yn ymdrech barhaus i roi trefn ar gyfraith Cymru a'i gwneud yn fwy hygyrch.

28. Bydd rhwymedigaeth y Cwnsler Cyffredinol i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru hefyd yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried a ddylid

[6] 3 Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol (2013) 'When laws become too complex – review by the Office of the Parliamentary Counsel into the causes of complex legislation'

cynnig deddfwriaeth newydd. Mewn sefyllfaoedd o’r fath, dylid ystyried sut y gallai’r dull o fynd ati i ddeddfu effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. Nid yw hyn, er hynny, yn golygu y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn ffordd arbennig mewn unrhyw un achos penodol.

29. Mae'r Bil hefyd yn cynnig, ar gyfer pob tymor y Cynulliad (gan ddechrau gyda'r tymor cyntaf sy'n dechrau ar ôl i adran 2 o'r Bil ddod i rym), y dylai Gweinidogion Cymru a’r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu a gweithredu rhaglen o weithgarwch wedi'i chynllunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

30. Mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fydd union gynnwys y rhaglenni. Fodd bynnag, mae'n ofynnol o dan y Bil i bob rhaglen wneud darpariaeth i gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cadw cyfraith sydd wedi'i chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Gyfraith Cymru a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. [7]

31. I sicrhau bod cydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yn llwyddiant, mae'n bwysig bod gwaith yn parhau ar y ddwy agwedd hyn dros y tymor hir a'u bod yn cael eu derbyn fel rhan o'r diwylliant deddfu yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod rhaid derbyn bod y gyfraith yn esblygu'n barhaus. Rhaid ailystyried y gyfraith o bryd i'w gilydd, hyd yn oed wedi iddi gael ei chydgrynhoi, er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n drefnus ac yn hygyrch. Mae hefyd yn golygu bod rhaid cynnal strwythur cyffredinol - nid cynnwys, a fydd yn newid o hyd yn unol â pholisi a dymuniadau gwleidyddol - y llyfr statud. Ar ôl cydgrynhoi a chodeiddio’r gyfraith, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid gwyro oddi wrth y strwythur newydd.

32. Ym 1999, cafodd cyfreithiau eu gwneud yn y Gymraeg am y tro cyntaf ers canrifoedd. Ers hynny, mae mwy a mwy o gyfreithiau wedi cael eu gwneud yn ddwyieithog. Megis dechrau yr ydym, fodd bynnag, ac mae cyfran fawr o'r cyfreithiau sy'n dod o dan gymhwysedd wedi'i ddatganoli yn dal i fod yn Saesneg yn unig. Mae cryn ymdrech yn cael ei gwneud i gynhyrchu cyfraith yn ddwyieithog ac er bod tystiolaeth yn awgrymu bod cyfran sylweddol o'r rhai sy'n cael mynediad at y gyfraith yn gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg, mae angen gwneud mwy i helpu'r rheini sydd am ddefnyddio'r iaith. Un o ofynion eraill y rhaglen, felly, fydd sicrhau bod camau’n cael eu cymryd, wrth wella hygyrchedd y gyfraith, i hwyluso’r defnydd o’r Gymraeg yn y gyfraith, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn gyson â'r egwyddor bod i destunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth statws cyfartal.

---

[7] Mae paragraffau 15 i 18 o'r nodiadau esboniadol yn darparu esboniad pellach o'r hyn a olygir wrth gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith.

33. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen gynnwys cynigion i hyrwyddo cyfraith Cymru drwy, er enghraifft, godi ymwybyddiaeth o newidiadau sylweddol yn y gyfraith neu o fodolaeth cyfraith Cymru sy'n ymwahanu oddi wrth ei gilydd yn fwy cyffredinol.

34. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwefan o'r enw Cyfraith Cymru/Law Wales, sy'n rhoi gwybodaeth am drefniadau cyfansoddiadol Cymru a'r gyfraith a wneir yng Nghymru. [8] Mae'r wefan hefyd yn darparu dolenni at beth o'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cyhoeddi ar wefan legislation.gov.uk yr Archifau Gwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu Cyfraith Cymru ymhellach, a'r bwriad yn y tymor hir yw defnyddio'r wefan yn gyfrwng i ddangos Codau cyfraith Cymru. Gallai rhaglenni yn y dyfodol i wella hygyrchedd cyfraith Cymru gynnwys prosiectau i sicrhau bod mwy o ddeunydd esboniadol ar gael drwy wefan Cyfraith Cymru, ac i gydweithio â'r Archifau Gwladol i wneud yn siŵr bod cyfraith Cymru a gyhoeddir ar wefan legislation.gov.uk ar gael yn ddwyieithog a'i bod yn gyfredol[9].

35. Caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol gynnwys gweithgareddau eraill hefyd mewn rhaglen os ydynt o'r farn y bydd cyfraith Cymru yn fwy hygyrch o ganlyniad. Caiff hyn gynnwys gwneud trefniadau gyda Chomisiwn y Gyfraith, fel ag y gwneir ar hyn o bryd, i fynd ar drywydd prosiectau diwygio a fydd yn gwella hygyrchedd.

36. Wrth baratoi rhaglen bydd yn bwysig ceisio barn y cyhoedd. Prif ddiben ymarfer o'r fath fyddai sicrhau y canolbwyntir ar y meysydd hynny o'r gyfraith lle mae'r mwyaf o angen cydgrynhoi ac sy'n cael y mwyaf o effaith ar ddefnyddwyr (boed yn gyrff cyhoeddus, busnesau neu ddinasyddion). Rhagwelir y bydd rhaglen ddrafft yn cael ei pharatoi ac y cynhelir ymgynghoriad arni. Yna bydd Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol yn ei chymeradwyo a bydd yn cael ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

37. Er mai mater i'r Llywodraeth ar y pryd fydd y dull o fynd ati i ymgynghori, mae'n ddiddorol ystyried yr ymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Seland Newydd, ar ran y Twrnai Cyffredinol, ynghylch rhaglen arfaethedig o gydgrynhoi'r gyfraith ar gyfer y Senedd newydd[10]. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn nodi'r prosiectau a fyddai'n cael eu cynnal yn ystod cyfnod y rhaglen, ynghyd â'r sail ar gyfer cynnig y prosiectau.

38. Mae rhagor o fanylion ynghylch adrannau 1 a 2 o'r Bil i'w gweld ym mharagraffau 10 i 25 o'r Nodiadau Esboniadol – gweler Atodiad B.

---

[8] Ar gael yn http://law.gov.wales/?lang=en
[9] Yr Archifau Gwladol fydd yn dal yn bennaf cyfrifol am gyhoeddi'r ddeddfwriaeth o ddydd i ddydd.
[10] Ar gael yn http://www.pco.govt.nz/revision-consultation-2018/

***Yr angen i ddeddfu ar hygyrchedd y gyfraith***

39. Rydym yn ymwybodol bod elfen o baradocs ynghlwm wrth ddeddfu ar gyfer gorfodi dyletswydd i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Mae hyn oherwydd bod cael llai o gyfraith yn un ffordd o'i gwneud yn fwy hygyrch. Mewn egwyddor, ni ddylem gynhyrchu cyfraith newydd lle nad oes ei hangen.

40. Ysbrydolwyd y cysyniad o orfodi dyletswydd ar y math hwn o lywodraeth gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 yn rhannol. Roedd y casgliadau y daethpwyd iddynt yn fwy diweddar gan Gomisiwn y Gyfraith Seland Newydd, a fu'n ystyried materion tebyg o dan stiwardiaeth Syr Geoffrey Palmer CF, cyfreithiwr cyfansoddiadol a chyn-Brif Weinidog a Chwnsler Cyffredinol, hefyd yn berthnasol. Yn yr adroddiad *Presentation of New Zealand Statute Law*, a gyhoeddwyd yn 2009, gan weithio ar y cyd â Swyddfa'r Cwnsleriaid Seneddol, daeth Comisiwn y Gyfraith Seland Newydd i'r casgliad:

> *...that to make a real difference to the accessibility of the New Zealand statute book it is essential that a systemic programme of revision of the statute book be undertaken.*

41. Aeth y Comisiwn hwn yn ei flaen i argymell y dylai fod rhwymedigaeth ar y Cwnsler Cyffredinol i roi ar waith raglen hirdymor ar gyfer cydgrynhoi y gyfraith. Cafodd hyn ei weithredu yn y pen draw gan adran 30 o Ddeddf Deddfwriaeth 2012. Cymerwyd y cam hwn yn Seland Newydd am fod eu llyfr statud wedi mynd yn fawr, yn gymhleth ac yn anhylaw, o'i gymharu â llyfrau statud awdurdodaethau eraill y Gymanwlad (neu yn wir yr awdurdodaethau hynny sydd â thraddodiad hir o godeiddio eu cyfraith). Yng Nghanada ac Awstralia, er enghraifft, ers iddynt etifeddu deddfwriaeth Senedd y DU fel gwladwriaethau dominiwn, mae pob awdurdodaeth, i wahanol raddau, wedi rhesymoli ei ddeddfwriaeth ac wedi cynnal proses gydgrynhoi helaeth a systematig o bryd i'w gilydd.

42. Roedd Comisiwn y Gyfraith ar gyfer Cymru a Lloegr yn ymwybodol nad oedd y systemau a fodolai eisoes yn y DU ar gyfer hwyluso neu gymell gwaith i symleiddio'r llyfr statud wedi bod yn llwyddiannus. Gwyddai hefyd, heb os, gyda'r adnodd cyfyngedig a oedd ar gael i'r Comisiwn ei hun, na fyddai'n gallu cydgrynhoi'r gyfraith ar raddfa helaeth ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd angen agwedd wahanol, felly. O ganlyniad, penderfynwyd y byddai rhwymedigaeth yn cael ei gosod ar bob Llywodraeth Cymru i godeiddio'r gyfraith.

43. Bydd y broses o gynnwys cyfraith Ewropeaidd yn y gyfraith ddomestig gyda'r newidiadau angenrheidiol yn galw am lawer o adnoddau ac, am resymau amlwg, bydd y gwaith hwn yn cael blaenoriaeth dros y tymor byr. Bydd rhaglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio deddfwriaethol hefyd, yn amlwg, yn cael ei rhoi

ar waith cyn bwrw ati i gydgrynhoi cyfraith Cymru. Bydd y dasg o gynnal ffocws hirdymor ar raglenni i wella hygyrchedd yn un anodd, felly. Er hynny, mae hefyd yn glir y bydd buddsoddi yn llyfr statud Cymru nawr yn arwain at fanteision cymdeithasol ac arbedion effeithlonrwydd mawr ymhen amser. Gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch yw'r peth iawn i'w wneud, ond mae rhesymeg economaidd ac ariannol clir dros wneud hynny hefyd. Mae'n rhywbeth sy'n rhaid ei wneud er mwyn paratoi ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau.

***Dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru***

44. Darparu Deddf ddehongli fodern a ddwyieithog i Gymru yw'r amcan polisi. Byddai Deddf ddehongli o'r fath yn byrhau a symleiddio deddfwriaeth y dyfodol, ac yn annog cysondeb o ran iaith, ffurf a'r ffordd y'i gweithredir.

45. Nod y darpariaethau ar ddehongli yn y Bil yw:

    a. bod mor syml â phosibl i'w llywio, eu deall a'u cymhwyso;

    b. bodoli i bob pwrpas yn 'y cefndir' (yn yr un modd â Deddfau dehongli eraill), fel rhan o beirianwaith y gyfraith na fydd angen i'r darllenydd cyffredin droi ato yn rheolaidd;

    c. darparu rheolau dehongli dwyieithog sy'n gymwys i'r ystod eang o ddeddfwriaeth ddwyieithog a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol, Gweinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig, ac sy'n addas ar gyfer y twf parhaus yn y corff hwn o ddeddfwriaeth;

    d. lleihau ac, os yn bosibl, osgoi unrhyw densiynau gweithredol rhwng y Bil a Deddf 1978;

    e. galluogi'r darllenydd i allu penderfynu'n hawdd pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth y mae'n ei darllen (am ei bod yn anochel y bydd Deddf 1978 yn parhau i fod ar waith mewn perthynas â pheth o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru; yn fwyaf arbennig, yr holl gyfraith a geir mewn Deddfau gan Senedd y DU).

46. Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth felly ynghylch dehongli a gweithredu'r mathau o ddeddfwriaeth a ganlyn –

    a. Deddfau'r Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw;

b. is-ddeddfwriaeth[11] –

   i. a wneir ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw,
   ii. a wneir o dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf neu'r Mesur y Cydsyniad Brenhinol neu gymeradwyaeth),
   iii. a wneir gan Weinidogion Cymru neu unrhyw berson arall;

c. is-ddeddfwriaeth –

   i. a wneir ar y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl y diwrnod hwnnw,
   ii. a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU (pryd bynnag y cafodd y Ddeddf honno'r Cydsyniad Brenhinol), neu o dan ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, [12]
   iii. nas gwneir ond gan Weinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall (nad ydynt yn gweithredu ar y cyd â math arall o awdurdod),
   iv. nad yw ond yn gymwys o ran Cymru.

Yn Rhan 2 o'r Bil, cyfeirir at y ddau fath o is-ddeddfwriaeth fel 'is-offerynnau Cymreig'[13].

47. Mae hyn yn golygu *na fydd* y Bil yn gymwys, ac y bydd Deddf 1978 yn parhau'n gymwys, i –

   a. Deddfau'r Cynulliad a gafodd y Cydsyniad Brenhinol cyn y diwrnod y daw Rhan 2 o'r Bil i rym;

   b. pob un o Fesurau'r Cynulliad;

   c. yr holl is-ddeddfwriaeth (ni waeth pwy a'i gwnaeth na pha fath o Ddeddf neu Fesur y cafodd ei gwneud o dani neu o dano) a wneir cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym;

   d. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, ac a wneir gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig

[11] Diffinnir 'is-ddeddfwriaeth' yn Atodlen 1 i'r Bil.
[12] Diffinnir hyn yn Atodlen 1 i'r Bil trwy gyfeirio at y diffiniad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'n cynnwys deddfwriaeth yr UE a drosir yn gyfraith ddomestig gan Ddeddf 2018 adeg ymadawiad y DU, ac yn cynnwys rheoliadau'r UE a phenderfyniadau sy'n berthnasol i'r DU.
[13] Gweler adran 3.

datganoledig sy'n gweithredu gydag awdurdod arall (er enghraifft, Gweinidog y Goron)[14];

e. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, ac a wneir gan Weinidogion Cymru, os oes unrhyw ran o'r is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

48. Bydd y dull hwn yn golygu ei bod yn ofynnol i'r sawl sy'n darllen unrhyw un o Ddeddfau neu is-ddeddfwriaeth y Cynulliad fod yn ymwybodol o arwyddocâd *pryd* y cafodd y ddeddfwriaeth y maent yn ei darllen y Cydsyniad Brenhinol neu pryd y cafodd ei gwneud. Er hynny, bwriedir i Ran 2 o'r Bil gael ei dwyn i rym ar 1 Ionawr 2020. Bydd hyn yn golygu y bydd enwau deddfwriaeth (sydd bob amser yn dynodi'r flwyddyn y cafodd y ddeddfwriaeth ei gwneud ynddi) yn ddigon i nodi ai Deddf 1978 ynteu'r Bil sy'n gymwys i'r ddeddfwriaeth honno.

49. Er bod y dull gweithredu hwn yn golygu y bydd dwy Ddeddf ddehongli ar waith mewn perthynas â deddfwriaeth yng Nghymru, roedd hynny bob amser yn anochel i ryw raddau (fel sy'n wir yn yr Alban, bydd Deddf 1978 yn parhau i gael rhyw effaith o leiaf mewn perthynas â'r gyfraith yng Nghymru).

50. Ni fydd y Bil yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir, oni wneir y cyfryw ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru neu awdurdod Cymreig datganoledig. Fodd bynnag, bydd yn gymwys i'r holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad, ni waeth pwy a'i gwnaeth. Golyga hyn bod yr holl is-ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi yn 'ddatganoledig', gan ei bod naill ai'n cael ei gwneud gan awdurdod datganoledig neu o dan bwerau a roddir gan y Cynulliad.

51. Mae'r dull hwn hefyd yn golygu y bydd y Bil yn gymwys i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig, ni waeth a gafodd ei gwneud o dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad neu o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir. Bydd yr un mor gymwys felly i orchymyn a wneir gan gyngor sir yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ag y bydd i orchymyn a wneir gan gyngor sir yng Nghymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

[14] Gallai hynny gynnwys offerynnau “ar y cyd” a “cyfansawdd”. Gwneir is-ddeddfwriaeth “ar y cyd” os caiff ei gwneud o dan bŵer neu ddyletswydd sy'n darparu'n benodol y gall y pŵer neu'r ddyletswydd gael ei harfer gan Weinidogion Cymru ar y cyd ag eraill neu fod rhaid i hynny ddigwydd. Lle bo offeryn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidog y Goron, ond ddim wrth arfer pŵer a ddelir ar y cyd, cyfeirir at hyn yn aml fel deddfwriaeth “gyfansawdd”.

52. At y diben hwn, mae gan “awdurdod Cymreig datganoledig” yr un ystyr ag yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n cynnwys yr awdurdodau a restrir yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno. Mae'r rhestr o awdurdodau yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol sydd â phwerau i wneud gorchmynion, cynlluniau ac is-ddeddfau o dan ystod eang o Ddeddfau. Mae'n cynnwys hefyd gyrff cenedlaethol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymwysterau Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd ag amrywiol bwerau i wneud rheolau, cynlluniau ac is-ddeddfau.

53. Nid yw'r diffiniad o "awdurdod Cymreig datganoledig" yn cynnwys cyrff sy'n arfer swyddogaethau trawsffiniol. Ymhellach, ni fydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys i unrhyw offeryn a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir os yw'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan gorff nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig, neu is-ddeddfwriaeth arall sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

54. Y maen tramgwydd mwyaf i'n dull gweithredu arfaethedig, o bosibl, yw parhau â'r arfer o gymhwyso'r Ddeddf 1978 uniaith Saesneg i ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n bodoli eisoes. Gallai bodolaeth y Bil, sy'n cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n cyfateb i'r darpariaethau yn Neddf 1978 (er nad ydynt bob amser yn cyfateb iddynt o ran eu sylwedd), helpu i leihau effaith y mater hwn yn ymarferol – ond fel mater o gyfraith ni fydd y Bil yn gymwys yn ôl-weithredol i'r ddeddfwriaeth hon.

55. Mae Atodiad A yn darparu tabl o gymariaethau rhwng y darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil ac yn y rheolau dehongli yn Neddf 1978. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil (yn Atodiad B) hefyd yn rhoi gwybodaeth am y darpariaethau manwl yn Rhan 2 o'r Bil.

***Geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-offerynnau Cymreig penodol***

56. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf 1978. Mae'r adran hon yn darparu bod gan eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr un ystyr ag yn y Ddeddf y gwnaed yr is-ddeddfwriaeth o dani. Nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaeth gyfatebol am ddau reswm –

   a. bwriedir iddo helpu i wella hygyrchedd is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt (ac nad yw adran 11 o Ddeddf 1978 yn gymwys iddynt);

   b. mae'n helpu i hwyluso cymhwysiad y Bil i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddfau gan Senedd y DU.

57. O ran y rheswm cyntaf: prif effaith y cysylltiad y darperir ar ei gyfer yn adran 11 o Ddeddf 1978 yw y bydd is-ddeddfwriaeth mewn llawer o achosion yn cynnwys termau na ddiffinnir mohonynt ynddi, ond y rhoddir ystyr benodol iddynt gan y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth o dani. Rydym yn cytuno â'r sylw yn Craies *on Legislation* fod adran 11 yn 'significant trap for the unwary reader' o ganlyniad i hyn'[15].

58. O ran yr ail reswm: bydd is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt yn ddarostyngedig i Atodlen 1 i'r Bil (nad yw'n atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf 1978 yn gyfan, ac sy'n wahanol iddi mewn ffyrdd eraill). Er mwyn lliniaru unrhyw broblemau posibl rhag codi yn sgil cymhwyso Atodlen 1 i'r Bil i is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddfau gan Senedd y DU, ochr yn ochr â pharhau i gymhwyso Atodlen 1 i Ddeddf 1978 i'r Deddfau hynny gan Senedd y DU, mae'r Bil yn cynnig torri'r cysylltiad rhwng yr is-ddeddfwriaeth a'r Deddfau y mae'n cael ei gwneud o danynt.

59. Ystyriwyd beth fydd effaith dileu'r 'fagl' a grëwyd gan adran 11 ac er ei bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth wneud darpariaeth fesul achos, cafwyd y bydd unrhyw ddarpariaeth ddehongli a wneir yn arwain at is-ddeddfwriaeth sy'n fwy dealladwy a hygyrch heb orfod troi at y Ddeddf neu'r Mesur y cafodd ei gwneud o dani/o dano.

60. Bydd angen i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth y bydd Rhan 2 yn gymwys iddi ystyried y ffordd orau o dynnu sylw'r darllenydd at ystyr geiriau allweddol yn y ddeddfwriaeth. Os bydd nifer mawr o eiriau ac ymadroddion diffiniedig yn ymddangos yn yr offeryn a'r Ddeddf neu'r Mesur, neu os oes angen, beth bynnag, i ddarllenydd yr offeryn droi'n rheolaidd at y Ddeddf neu'r Mesur, gallai fod yn briodol ychwanegu geiriau at yr offeryn sy'n atgynhyrchu effaith adran 11 o Ddeddf 1978. Gallai hyn fod yn briodol hefyd os bydd rhywbeth y tu allan i'r Ddeddf neu'r Mesur yn effeithio ar ystyr y geiriau neu'r ymadroddion a ddefnyddir ynddi/ynddo; y gyfraith gyffredin neu Ddeddf arall, er enghraifft. Ar y llaw arall, dylai fod modd yn aml i'r diffiniad o eiriau neu ymadroddion gael ei nodi'n llawn mewn is-offeryn Cymreig, sy'n golygu nad oes rhaid i'r darllenydd gyfeirio at y Ddeddf neu'r Mesur y cafodd ei gwneud o dani/o dano er mwyn deall yr offeryn. Bydd hyn hefyd yn golygu, yn achos is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau gan Senedd y DU, y bydd y diffiniad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Cymhwysedd deddfwriaethol

61. Mae Rhan 1 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i hyrwyddo hygyrchedd y gyfraith a wneir (neu y gellid ei gwneud) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a

[15] 11$^{eg}$ Argraffiad 2017, paragraff 22.1.16.

Gweinidogion Cymru. Mae Rhan 2 o’r Bil yn ymwneud â dehongli a gweithredu deddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Gweinidogion Cymru ac awdurdodau eraill sy'n arfer pwerau datganoledig yng Nghymru. Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaethau amrywiol yn ymwneud â ffurf y ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad neu Weinidogion Cymru. Felly, nid oes unrhyw ddarpariaethau yn Rhannau 1 i 3 sy'n ymwneud â'r materion a gedwir sydd wedi'u rhestru yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

62. Ni fydd darpariaethau'r Bil yn gymwys ac eithrio o ran Cymru, nid ydynt yn torri unrhyw gyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf 2006, ac nid oes unrhyw gwestiynau yn codi o ran eu cydnawsedd â hawliau'r Confensiwn na chyfraith yr UE.

63. Mae'r Cwnsler Cyffredinol, fel yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil hwn, wedi gwneud datganiad yn unol â Rheol Sefydlog 26.6(i) – gweler tudalen 3 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

## Dulliau eraill o gyflawni'r amcanion polisi

64. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn Rhan 4 o'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi rhagor o fanylion ynghylch y dulliau eraill y'u hystyriwyd ar gyfer cyflawni amcanion polisi'r Bil hwn.

65. Mewn perthynas â Rhan 1 o'r Bil, ystyriwyd:

    a. Dylai Llywodraeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i wella hygyrchedd drwy ddilyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylid cynnal rhaglenni gwaith i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ond heb dderbyn yr argymhelliad y dylid cael sail statudol ar gyfer gweithgareddau o'r fath (fel y darperir o dan opsiwn 3 isod). Fel y dengys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, byddai hyn yn arwain at fanteision sylweddol yn y tymor hir i ddefnyddwyr deddfwriaeth yng Nghymru ond dim ond os cedwir ffocws ar y mater o hygyrchedd, ac os neilltuir adnoddau i wneud hynny, y cyflawnir hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith bod angen dyletswydd statudol i rwymo llywodraethau'r dyfodol ac i sicrhau y cedwir ffocws hirdymor ar y mater.

    b. Fel arall, dylid parhau â'r gwaith fel arfer. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i wella hygyrchedd ac wedi cynnal gwaith cam wrth gam i wneud hyn lle y bo adnoddau yn caniatáu. O dan y dull hwn, byddai gwaith cam wrth gam i wella hygyrchedd yn parhau heb adnoddau penodol wedi'u neilltuo ar gyfer ei wneud na rhaglen ffurfiol o

weithgarwch ddiffiniedig. Er hynny, nid yw hwn yn ddull priodol oherwydd byddai'r gyfraith yn parhau i ddod yn fwy cymhleth yn ddi-os, byddai mynediad i gyfiawnder yn parhau i gael ei lesteirio a byddai rheolaeth y gyfraith yn cael ei thanseilio’n gynyddol. Ni fyddai'r manteision cymdeithasol ac economaidd hirdymor sydd ynghlwm wrth wella hygyrchedd yn cael eu gwireddu pe byddai'r dull hwn yn cael ei ddilyn.

66. Mewn perthynas â Rhan 2 o'r Bil, ystyriwyd:

   a. Parhau i gymhwyso Deddf Dehongli 1978 ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru. Fel mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ei ddangos, pe dilynid y dull hwn, byddai diffygion a nodweddion annigonol y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig, yn parhau. Ni fyddai unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru.

   b. Fel arall, ystyriwyd hefyd parhau i gymhwyso Deddf 1978 ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru ond atgynhyrchu hefyd Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (sy'n cynnwys diffiniadau o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin) yn y Gymraeg. Mae hyn yn datrys rhai o'r problemau ond mae'n golygu hefyd mai dim ond camau gweithredu rhannol a fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru. Rydym yn parhau i ystyried y dull mwyaf priodol ar gyfer atgynhyrchu Atodlen 1 yn y Gymraeg, at ddibenion deddfwriaeth ddwyieithog sy'n bodoli eisoes.

67. Ar y sail mai Deddf ddehongli ddwyieithog, bwrpasol a newydd i Gymru yw'r dull cywir, ystyriwyd dull arall hefyd ar gyfer cymhwyso Rhan 2 o'r Bil. Yn benodol, y dylid ei chymhwyso i –

   a. bob Deddf gan y Cynulliad a Mesur gan y Cynulliad (pryd bynnag y'u gwneir)

   b. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau a'r Mesurau hynny (pryd bynnag y'u gwneir, ac ni waeth pwy a wnaiff y ddeddfwriaeth), a

   c. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru (heb iddynt weithredu ar y cyd ag eraill) o dan Ddeddfau gan Senedd y DU (pryd bynnag y'u gwneir).

68. Ymddangosai bod dwy brif fantais i'r model cymhwyso hwn –

a. byddai bron pob darn o ddeddfwriaeth sydd, yn ôl ei natur, yn bodoli yn Gymraeg a Saesneg, yn ddarostyngedig i'r Bil, [16]

b. byddai modd mynegi natur a graddfa cymhwyso'r Bil yn syml ac mae'n ddealladwy – yn fras, os yw'n cael ei wneud neu os cafodd ei wneud yng Nghymru, mae'r Bil yn gymwys.

69. Er hynny, roedd nifer o broblemau hefyd gyda'r dull gweithredu hwn –

a. bydd deddfwriaeth a wnaed cyn i'r Bil ddod i rym wedi'i gwneud gyda'r bwriad bod y rheolau a'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn gymwys iddi – lle mae'r Bil yn gwneud mwy nag atgynhyrchu effeithiau Deddf 1978, mae hyn yn golygu na fyddai modd cymhwyso unrhyw newidiadau yn y gyfraith i ddeddfwriaeth bresennol;

b. byddai'r Bil yn hwy ac yn fwy cymhleth, a hynny am y rheswm y byddai angen gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r achosion hynny lle na allai'r Bil wneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol[17];

c. byddai nifer o broblemau technegol penodol yn codi (na fyddai'n amhosibl eu goresgyn, ond a fyddai wedi cael effaith ar eglurder a hygyrchedd), er enghraifft –

    i. mae'n debygol y byddai ar y Bil angen darpariaeth benodol yn ymdrin â gweithrediad parhaus Deddf 1978 mewn perthynas â phethau a wnaed mewn deddfwriaeth neu o dan ddeddfwriaeth bresennol yn ystod y cyfnod cyn i Ddeddf 1978 beidio â gweithredu mewn perthynas â Deddfau a Mesurau gan y Cynulliad etc;

    ii. mae'n debygol y byddai angen i'r Bil egluro effaith peidio â chymhwyso rheolau newydd i ddeddfwriaeth bresennol, ac a yw hynny'n effeithio ar ddehongli'r ddeddfwriaeth honno;

    iii. nid yw'r mwyafrif o'r rheolau yn Neddf 1978 yn gymwys, os yw'r “bwriad i'r gwrthwyneb” yn ymddangos; byddai angen bod wedi addasu'r rheol hon wedyn at ddibenion y Bil, ac fe allai fod wedi bod yn anghydnaws â'r dull gweithredu newydd a ddefnyddir yn y Bil[18]23.

---

[16]Ceir ffurfiau o is-ddeddfwriaeth ddwyieithog na fyddai'n ddarostyngedig i'r Bil; er enghraifft Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor sy'n bodoli yn Gymraeg a Saesneg a wneir gan y Sofren o dan Ddeddf gan Senedd y DU.
[17]Rydym yn rhag-weld y byddai Bil sy'n gymwys yn y ffordd hon gymaint â 50% yn fwy na'r Bil Drafft.
[18]Gweler adran 4 o'r Bil, a drafodir isod.

70. Am y rhesymau hyn, daethom i'r casgliad na ddylid defnyddio'r dull gweithredu hwn o ran cymhwyso'r Bil.

## Materion eraill nad yw'r Bil yn ymdrin â hwy

### *Ailddatgan darpariaethau ar ddehongli yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006*

71. Nodwyd yn yr ymgynghoriad cynharach ar y Bil Deddfwriaeth (Cymru) fod dymunoldeb ystyried ailddatgan darpariaethau penodol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 yn yr arfaeth.

72. Mae adran 107(4) ac adran 154 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys rhai cynigion y gellid diffinio eu bônt yn gysylltiedig â dehongli deddfwriaeth a wneir yng Nghymru. Mae adran 107(4) yn darparu i Ddeddf gan y Cynulliad gael ei chydnabod heb dystiolaeth[19]. Mae adran 154 yn darparu y dylai cyfraith Cymru gael ei dehongli fel pe bai o fewn cymhwysedd a'i bod intra vires.

73. Yn dilyn yr ymgynghoriad, penderfynwyd yn y ddau achos nad yw gwneud darpariaeth yn y Bil hwn yn ddefnyddiol, nac yn angenrheidiol, yn y pen draw.

74. Er mai yn awdurdodaeth Cymru a Lloegr y mae adran 107(4) o bwys pennaf, mae peth defnydd iddi hefyd yn yr awdurdodaethau eraill sy'n corffori'r DU. Fan lleiaf, ymddengys nad yw'n fuddiol creu awgrym nad oes angen i Ddeddfau gan y Cynulliad gael eu cydnabod heb dystiolaeth o dan gyfraith yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ychydig iawn sydd i'w ennill hefyd drwy ailddatgan adran 107(4). Er bod darpariaeth gyfath ynghylch Deddfau gan Senedd y DU i'w chael yn adran 3 o Ddeddf 1978, gellir dadlau mai'r rheswm pam ei bod wedi'i chynnwys fan hyn yw'r ffaith nad oes man priodol arall i'w chynnwys. Yn achos Deddfau gan y Cynulliad, o ystyried mai Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yw'r Ddeddf gyfansoddiadol i Gymru, mae adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn fan priodol i gynnwys darpariaeth ynghylch cydnabod heb dystiolaeth (sy'n hynod dechnegol, ac nad yw o ddiddordeb fwy na thebyg i neb ond, mewn amgylchiadau cyfyngedig, y darllenydd sydd wirioneddol yn arbenigo).

75. Nid darpariaeth ynghylch dehongli deddfwriaeth yn unig yw adran 154 (o leiaf, yn yr un modd ag y mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â dehongli deddfwriaeth). Mae'n dibynnu ar "gymhwysedd deddfwriaethol", sy'n cael ei lywodraethu gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (mewn geiriau eraill, mae'n dibynnu ar adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlenni 7A a

[19]Os oes angen i berson ddibynnu ar ddarpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad, neu enwi'r ddarpariaeth honno fel arall, mae hyn yn golygu nad oes angen iddo brofi i'r llys fod y ddarpariaeth yn gyfraith.

7B iddi; ac wrth gwrs, yr holl gyfraith achos gysylltiedig). Felly, cyfarwyddyd cyfansoddiadol (neu led-gyfansoddiadol) i'r darllenydd ydyw, wedi'i dargedu'n bennaf at y llysoedd, ac mae’n dibynnu ar faterion sy'n gorwedd y tu allan i'r Bil.

***Y trefniadau ar gyfer cyhoeddi cyfraith Cymru a'r broses o wneud a threfnu offerynnau statudol***

76. Yn ogystal â phryderon ynglŷn â maint a chymhlethdod y llyfr statud, mae'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r gyfraith yn y DU wedi cael eu beirniadu hefyd. O gofio ei bod eisoes yn anodd cael mynediad at y llyfr statud, rhaid i ddefnyddwyr deddfwriaeth fod yn siŵr pan fyddant yn edrych ar Ddeddf neu Offeryn Statudol penodol fod ganddynt y fersiwn ddiweddaraf o'u blaenau. Mewn geiriau eraill, rhaid i’r defnyddwyr sicrhau bod ganddynt fersiwn sy'n cynnwys unrhyw ddiwygiadau a wnaed i’r ddeddfwriaeth ers iddi ddod i rym. Er bod gwelliannau'n cael eu gwneud i wefan legislation.gov.uk, a weinyddir gan yr Archifau Gwladol, yr unig ffynonellau cynhwysfawr o ddeddfwriaeth gyfredol ar hyn o bryd yw'r rheini a ddarperir gan gyhoeddwyr masnachol am bris.

77. Ystyriwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, *Ffurf a hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru*, y mater o gyhoeddi deddfwriaeth yn swyddogol (ym Mhennod 13) ynghyd â materion ehangach yn gysylltiedig â chyhoeddi (gweler, er enghraifft, Bennod 14 sy'n ystyried gwefan gyfreithiol i Gymru).

78. Roedd yr adroddiad hefyd yn ystyried y goblygiadau a'r posibiliadau ar gyfer cydgrynhoi, codeiddio a diwygio is-ddeddfwriaeth (ym Mhennod 5) sydd, yn ei dro, yn codi materion mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud offerynnau statudol.

79. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried y trefniadau presennol ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth a'r weithdrefn offerynnau statudol ar gyfer y dyfodol, gyda'r bwriad o sefydlu darpariaeth benodol i Gymru sy'n debyg i'r trefniadau hynny sy'n bodoli eisoes yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban.

***Defnyddio cyfieithiadau Cymraeg o ddeddfiadau a chyrff nad oes ganddynt enwau Cymraeg***

80. Fel rhan o'r cynllun ehangach i wella hygyrchedd deddfwriaeth, rydym wedi ystyried hefyd y ffordd y mae testun Cymraeg deddfwriaeth yn cyfeirio ar hyn o bryd at ddeddfiadau a dogfennau swyddogol eraill nad ydynt wedi eu gwneud yn Gymraeg ac at gyrff nad oes ganddynt enwau Cymraeg.

81. Hyd yma, mae enwau deddfiadau a wneir mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg mewn Deddfau gan y Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Gymreig. Bydd y testun Cymraeg, felly'n darparu enw cwrteisi

ar gyfer Deddf gan Senedd y DU er gwaetha'r ffaith, yn dechnegol, nad oes yn y gyfraith Ddeddf o'r enw hwnnw. Mae defnyddio enwau cwrteisi fel hyn wedi hen ennill ei blwyf, ond fel y trafodwyd yn y ddogfen ymgynghori ar y Bil Drafft, gallai roi'r argraff i ddarllenwyr fod y ddeddfwriaeth wedi'i gwneud yn Gymraeg neu ei bod ar gael yn Gymraeg, neu ei bod wedi'i gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol neu Weinidogion Cymru. Nododd y ddogfen ymgynghori i'r Bil Drafft y gallai darllenwyr gael eu cynorthwyo gan yr arfer o enwi rhifau penawdau ar gyfer Deddfau gan Senedd y DU, a rhifau “anaw” neu “dccc” ar gyfer Deddfau gan y Cynulliad, ond gofynnodd a oedd dealltwriaeth eang o'r system.

82. Mae’r arfer o ddefnyddio enwau cwrteisi Cymraeg wedi’i ddilyn hefyd pan fo testun Cymraeg deddfwriaeth yn cyfeirio at ddogfennau eraill sydd ar gael yn Saesneg ond nid yn Gymraeg, er enghraifft cyfarwyddebau a rheoliadau’r Undeb Ewropeaidd, confensiynau’r Cenhedloedd Unedig a chytundebau rhyngwladol eraill. Yn yr achosion hynny, bydd teitl y ddogfen neu’r disgrifiad ohoni yn dynodi natur y ddogfen a’r sefydliad a’i gwnaeth (ac yn achos offerynnau’r UE, bydd cyfeirnod swyddogol).

83. Crybwyllodd y ddogfen ymgynghori ddull gweithredu amgen a oedd wedi cael ei arbrofi mewn Biliau diweddar, sef yr arfer o ddilyn enwau cwrteisi Deddfau Senedd y DU gan y teitlau a rhifau penawdau Saesneg mewn cromfachau. Roedd y dull gweithredu hwn yn rhoi mwy o wybodaeth i ddarllenwyr, ond roedd yn cynyddu hyd y testun Cymraeg a faint o Saesneg oedd ynddo, ac fe allai felly wneud y testun Cymraeg yn llai darllenadwy. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn rhestru nifer o ddewisiadau posibl eraill.

84. Mae anfanteision i'r rhan fwyaf o'r dewisiadau yr ydym wedi'u nodi ar gyfer delio â'r mater hwn gan eu bod yn gallu naill ai camarwain y darllenydd neu amharu ar lif y testun Cymraeg. Mae dewisiadau a allai osgoi'r anfanteision hyn yn cynnwys defnyddio troednodiadau i roi'r teitlau Saesneg o Ddeddfau gan Senedd y DU, a defnyddio hyperddolenni i fynd â'r darllenydd o'r enw cwrteisi yn syth i destun y Ddeddf. Byddai'r ddau ddull gweithredu hyn yn golygu cynnwys y teitl cwrteisi Cymraeg yn unig yn nhestun gweithredol Bil gan y Cynulliad, a defnyddio ffyrdd anneddfwriaethol i helpu'r darllenydd i ddod o hyd i'r Ddeddf o dan sylw.

85. Rydym yn bwriadu ymchwilio i'r dulliau gweithredu hyn ymhellach. Wrth inni wneud hynny, rydym yn bwriadu parhau â'r arfer sefydledig o roi enwau cwrteisi i destunau Cymraeg Biliau ac is-ddeddfwriaeth (heb y teitlau Saesneg gwreiddiol). Caiff enwau cwrteisi eu dilyn gan rifau penawdau ar gyfer Deddfau gan Senedd y DU a rhifau Offerynnau Statudol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Dyma'r dull gweithredu sydd wedi'i fabwysiadu ym Mil Deddfwriaeth (Cymru).

# Rhan 2 – Ymgynghori

## Ymgyngoriadau a gynhaliwyd cyn cyflwyno'r Bil

86. Ar 19 Mehefin 2017 cafodd y ddogfen Dehongli deddfwriaeth Cymru – ystyried Deddf ddehongli i Gymru ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[20]. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o 12 wythnos a daeth i ben ar 11 Medi 2017.

87. Ystyriwyd wrth ymgynghori a ddylai Llywodraeth Cymru ddatblygu Deddf ddehongli newydd i Gymru neu ddiwygio Deddf 1978 drwy atgynhyrchu Atodlen 1 i'r Ddeddf honno yn y Gymraeg. Pe byddai Deddf newydd yn cael ei datblygu, roedd yr ymgynghoriad polisi hefyd yn gofyn beth y dylid ei gynnwys yn y Ddeddf honno.

88. Ar 20 Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Fil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft. Cafodd y Bil hwnnw a'r dogfennau ymgynghori cysylltiedig (gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill) eu cyhoeddi ar wefan y Llywodraeth[21]. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn hefyd am gyfnod o 12 wythnos, ac fe ddaeth i ben ar 12 Mehefin 2018.

89. Roedd yr ail ymgynghoriad yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella hygyrchedd a dehongliad statudol cyfraith Cymru, ac roedd yn gofyn barn am y Bil Drafft.

90. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd y Cwnsler Cyffredinol ddau ddigwyddiad ymgynghori – y naill ym Mangor a'r llall yn Abertawe – a bu'n bresennol hefyd mewn digwyddiad a drefnwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghaerdydd. Nod y tri chyfarfod hyn oedd egluro ymgynghoriad i randdeiliaid a chael eu barn am y cynigion. Codwyd y materion gan y Cwnsler Cyffredinol hefyd yn ei gyfarfodydd rheolaidd â gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, academyddion, myfyrwyr y gyfraith a chwmnïau cyfreithiol.

91. Darparodd y Cwnsler Cyffredinol wybodaeth dechnegol am y Bil Drafft i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol[22] ar 14 Mai 2018.

[20] Gweler: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/dehongli-cyfreithiau-cymru-deddf-dehongli-i-gymru
[21] Gweler: https://beta.llyw.cymru/y-bil-deddfwriaeth-cymru-drafft
[22] Gweler: http://cofnod.cynulliad.cymru/Committee/4765

92. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r 17 o ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad *Dehongli deddfwriaeth Cymru - ystyried Deddf ddehongli i Gymru* ym mis Rhagfyr 2017, ynghyd ag adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad. Mae copi o'r ymatebion hynny a'r adroddiad ar gael yn: https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgynghoriadau/dehongli-cyfreithiau-cymru-deddf-dehongli-i-gymru <https://beta.gov.wales/interpreting-welsh-law-interpretation-act-wales>

93. Yn gyffredinol, cefnogai'r ymatebwyr y cynnig yn yr ymgynghoriad i wneud darpariaeth ddwyieithog, wedi'i theilwra'n benodol, ynghylch dehongli deddfwriaeth Cymru.

94. Ym mis Medi 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr 20 o ymatebion a ddaeth i law oddi wrth randdeiliaid, ynghyd ag adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad. [23] Mae'r rhain i'w gweld yn: https://beta.llyw.cymru/y-bil-deddfwriaeth-cymru-drafft

95. Roedd 19 o'r 20 o ymatebwyr yn cynnwys sylwadau ar y cynigion i wella hygyrchedd, ac roedd y mwyafrif helaeth yn meddwl y byddai'n fuddiol creu rhwymedigaethau newydd i fynd i'r afael â'r materion hyn. Roedd yr ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar y Rhan o'r Bil sy'n ymwneud â dehongli statudol yn gefnogol, yn gyffredinol, i'r cynigion. Dewisodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r Rhan hon o'r Bil Drafft ganolbwyntio ar gwestiynau penodol a darparodd rai ohonynt sylwadau ychwanegol hefyd.

### *Diwygiadau yn sgil yr ymgynghoriad*

96. Yn sgil ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r polisi sy'n parhau i ddatblygu, gwnaed nifer o newidiadau i'r Bil. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Nhabl 1 isod.

97. At hynny, roedd adran 3 o'r Bil Drafft yn gwneud darpariaeth ynghylch y ddeddfwriaeth y mae'r rheolau ar ddehongli statudol yn gymwys iddi. Adolygwyd y modd y drafftiwyd yr adran honno erbyn hyn yn llwyr yng ngoleuni'r ymgynghoriad, ac yn dilyn ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol. Effaith adran 3 yn awr yw bod Rhan 2 o'r Bil yn gymwys i:

    a. Ddeddfau gan y Cynulliad sy'n cael y Cydsyniad Brenhinol ar ôl i'r Rhan honno ddod i rym, ac i'r Bil ei hun (fel yn y Bil Drafft);

[23] Roedd hyn yn cynnwys dau oddi wrth yr un ymatebydd sydd, gyda chytundeb yr ymatebydd, yn cael eu cyhoeddi fel un (er iddynt gael eu cyhoeddi ar wahân).

b. pob darn o is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf neu Fesur gan y Cynulliad ar ôl i'r Rhan honno ddod i rym (fel yn y Bil Drafft);

c. is-ddeddfwriaeth arall a wneir ar ôl i'r Rhan honno ddod i rym yn achos is-ddeddfwriaeth:

   i. sy'n cael ei gwneud o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu <u>ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir</u>,
   ii. sy'n cael ei gwneud gan Weinidogion Cymru <u>neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall</u>,
   iii. nad yw'n cael ei gwneud mewn cyd-offeryn neu offeryn <u>cyfansawdd</u> ag unrhyw berson arall,
   iv. <u>nad yw ond yn gymwys o ran Cymru</u>.

Mae'r geiriau a danlinellir yn wahanol i'r hyn sydd yn y Bil Drafft.

98. At hynny, mae'r ddarpariaeth “bwriad i'r gwrthwyneb” yn yr hyn a oedd yn adran 3(3) o'r Bil Drafft (adran 4(1) o'r Bil yn awr) wedi cael ei ddiwygio yn dilyn ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol er mwyn sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n gywir y ffyrdd y gellir cymhwyso neu ddatgymhwyso'r rheolau dehongli.

*Tabl 1 –Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yn dilyn ymgynghori*

| **Newid a wnaed**<br>(mae'r cyfeiriad at adran yn cyfeirio at yr adran yn y Bil Drafft) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Diweddaru'r enw hir | Er mwyn sicrhau bod Rhannau 1 a 2 o'r Bil yn cael eu disgrifio'n llawn |
| Mân ddiwygiadau i adrannau 1 a 2 i egluro eu heffaith | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Adrannau 3 a 4 – gweler paragraff 98 uchod. At hynny, mae elfennau o adran 4 wedi cael eu cymryd i Atodlen 1 erbyn hyn. | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 5 (Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion) i gynnwys pŵer ar gyfer rheoliadau i ddiwygio Atodlen 1 i gynnwys diwygiadau | Sicrhau y gall pŵer weithredu'n llawn |

| **Newid a wnaed**<br>(mae'r cyfeiriad at adran yn cyfeirio at yr adran yn y Bil Drafft) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| canlyniadol | |
| Diwygio adran 7 (Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw) i'w gwneud yn glir fod y ddarpariaeth hon yn cyfeirio at rywedd person, yn hytrach na chenedl enwau mewn gramadeg. | Yn ymateb i'r ymgynghoriad |
| Dileu adran 9 (Cyfeiriadau at gyfnodau o amser) o'r Bil | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau i adrannau 10 (Cyfeiriadau at amser o'r dydd) a 12 (pellteroedd) er cysondeb â gweddill y Bil | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 13 (Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig) i symleiddio'r ddarpariaeth ar gyflwyno electronig a sicrhau cysondeb â'r dull yn yr adran | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau i adrannau 15 i 20 i wella eglurder | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Ehangu adran 21 (Cyfeiriadau at ddeddfiadau) i gynnwys cyfeiriadau mewn deddfwriaeth at unrhyw offeryn neu ddogfen, nid at ddeddfwriaeth yn unig | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mân ddiwygiadau i adrannau 22 a 23 i wella eglurder | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adrannau 24 a 25 er mwyn symleiddio darpariaethau a gwella cysondeb | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 26 (Troseddau dyblyg) i egluro'r berthynas rhwng y ddarpariaeth hon ac adran 18 o Ddeddf 1978. Gwneir hyn i sicrhau bod yr effaith yn fwy eglur, yn arbennig yn y sefyllfa annhebygol pe | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid |

| **Newid a wnaed**<br>(mae'r cyfeiriad at adran yn cyfeirio at yr adran yn y Bil Drafft) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| byddai rhywbeth yn drosedd o dan ddwy wahanol Ddeddf gan y Cynulliad a hefyd yn drosedd o dan Ddeddf gan Senedd y DU, y byddai adran 18 o Ddeddf 1978 yn parhau'n gymwys. | deddfwriaethol |
| Diwygio adran 27 (Cymhwyso i'r Goron) fel ei bod yn gymwys i Ddeddfau gan y Cynulliad yn unig, ac i is-offerynnau a wneir o dan ddeddfiad sy'n clymu'r Goron neu sy'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth sy'n clymu'r Goron. Darpariaeth newydd ynghylch rhwymedigaeth droseddol a chymhwyso i'r Goron | Yn sicrhau bod yr effaith yn gliriach, ac yn golygu nad oes angen egluro'r safbwynt ynghylch rhwymedigaeth droseddol ym mhob darn o ddeddfwriaeth ddilynol |
| Mân newidiadau drafftio i adrannau 28 i 30 (dwyn deddfwriaeth i rym) i wella eglurder | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 31 (Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddi-rymwyd neu a ddilëwyd eisoes) i eithrio achosion lle y mae deddfwriaeth dros dro yn dod i ben ac i gynnwys achosion lle y mae deddfwriaeth a ddiddymwyd wedi diddymu'n flaenorol reol y gyfraith gyffredin (yr oedd adran 32 yn ymdrin ag ef cyn hynny) | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 32 (Arbedion cyffredinol) er mwyn adlewyrchu'r newidiadau yn adran 31 | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adrannau 33 (Ailddeddfiad) er mwyn gwella eglurder | Yn ymateb i sylwadau drafftio gan ymgyngoreion |
| Mae rhai o'r diffiniadau yn adran 35 (Dehongli Rhan) wedi cael eu symud i Atodlen 1; mae diwygiadau eraill yn ymwneud â newidiadau a wnaed yn adran 31 | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Mae adran 36 (Deddf Dehongli 1978) yn awr yn adlewyrchu enw newydd Atodlen 2 | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

| **Newid a wnaed**<br>(mae'r cyfeiriad at adran yn cyfeirio at yr adran yn y Bil Drafft) | **Rheswm dros y newid** |
|---|---|
| Mân newidiadau i adran 37 (Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i roi effaith lawn i'r Ddeddf hon) er mwyn sicrhau cysondeb â gweddill y Bil | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Adran 38 (Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon) i egluro y gall rheoliadau o dan y Bil hwn wneud gwahanol ddarpariaeth at wahanol ddibenion | Nodwyd gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |
| Diwygio adran 39 (Y Ddeddf hon yn dod i rym) er mwyn darparu i'r Ddeddf gyfan, ar wahân i gymhwyso'r darpariaethau dehongli i ddeddfwriaeth arall, ddod i rym ar y diwrnod ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol); daw'r elfen wedi'i heithrio hon i rym ar y diwrnod a bennwyd mewn gorchymyn a wnaed o dan adran 43(2) (bellach). Mae'r adran hon yn awr yn cynnwys darpariaeth ynghylch Rhan 3 (newydd) – gweler paragraffau101 i 104 isod | Er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cychwyn yn adlewyrchu bwriad y polisi ar gyfer dwyn y Ddeddf i rym |
| Diwygio Atodlen 1 i:<br>• sicrhau cysondeb o ran dulliau drafftio ar draws yr Atodlen (a chyda phrif ddarpariaethau'r Bil)<br>• cynnwys termau newydd ar gyfer cyrff yng Nghymru (ee Cyfoeth Naturiol Cymru)<br>• gwella cyfeiriadau at y Llysoedd, gan gynnwys ychwanegu cyfeiriad at y "llys teulu" a'r "Llys Gwarchod" a sicrhau cysondeb o ran dulliau drafftio<br>• cynnwys termau newydd o ganlyniad i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018<br>• symud termau sy'n ymwneud â deddfwriaeth a Gweinidogion y Goron o adran 4, i'r Atodlen, fel bod y termau yn gymwys i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth (ac nid i'r Bil yn unig)<br>• sicrhau bod y diffiniad o "Gymru" yn adlewyrchu'n llawn y safbwynt cyfunol a gyflawnwyd gyda Deddf 1978 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | Yn ymateb i'r ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan y cwnsleriaid deddfwriaethol |

## Materion yn y Bil nad ymgynghorwyd arnynt eisoes

99. Roedd dogfen ymgynghori ar bolisi 2017 yn gofyn barn am ddarpariaethau newydd posibl i'w cynnwys mewn Deddf ddehongli i Gymru, gan gynnwys pwerau i ddiwygio Deddfau, er mwyn rhoi dyddiad gwirioneddol digwyddiadau yn lle cyfeiriadau disgrifiadol at ddyddiad digwyddiadau. Gofynnwyd am farn hefyd am bwerau i gyfuno deddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau yn yr un offeryn.

100. Ystyriai'r ymgyngoreion fod gwerth i'r ddau syniad, ond fel rhan o Ddeddf ehangach efallai a fyddai'n ymwneud â deddfwriaeth yn hytrach na dehongli statudol yn unig.

101. Mae Deddf Dadreoleiddio 2015 yn cynnwys, yn adran 104, bŵer i nodi'n fanwl ddyddiadau ac amseroedd a ddisgrifir mewn deddfwriaeth. Ceir darpariaeth hefyd, yn adran 105, sy'n caniatáu pwerau i wneud gorchmynion, rheolau a rheoliadau i'w harfer i wneud is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau hynny.

102. Mae tair adran newydd wedi cael eu cynnwys yn y Bil, sy'n llunio Rhan 3 newydd, ar y materion a ganlyn:

    a. pŵer i amnewid disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru (gweler adran 37);
    b. pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar wahanol ffurfiau (gweler adran 38);
    c. cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i wahanol weithdrefnau yn y Cynulliad (gweler adran 39).

103. Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd cwestiynau am sut y byddai'r darpariaethau dehongli yn gymwys pe byddai darn o ddeddfwriaeth y mae'r darpariaethau hynny yn gymwys iddo yn diwygio darn o ddeddfwriaeth nad ydynt yn gymwys iddo, neu i'r gwrthwyneb. Er enghraifft, pe byddai Deddf gan y Cynulliad yn y dyfodol (y byddai'r Bil yn gymwys iddi) yn mewnosod adran mewn Deddf gan Senedd y DU (y byddai Deddf 1978 yn gymwys iddi), a fyddai'r adran honno a fewnosodwyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau dehongli'r Bil neu ddarpariaethau Deddf 1978?

104. Ceir cyfraith achosion gyson i'r perwyl y dylid dehongli diwygiad yn gyffredinol fel pe bai'n rhan o'r ddeddfwriaeth y'i mewnosodir iddi, yn hytrach na rhan o'r ddeddfwriaeth ddiwygio. Fodd bynnag, gan fod y mater hwn wedi cael ei godi, ac er mwyn ceisio helpu darllenwyr y Bil i ddeall sut y dylid dehongli diwygiadau, mae darpariaeth newydd wedi cael ei chynnwys (yn adran 31) sy'n nodi'n fanwl bod diwygiadau a wneir i Ddeddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig, neu ganddynt, yn cael effaith fel rhan o'r ddeddfwriaeth y'i mewnosodir iddi.

105. Nodwyd yn yr ymgynghoriad ar y Bil Drafft yn 2018 fod Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) Llywodraeth y DU yn cynnig, ymhlith materion eraill, amryw o ddiwygiadau i Fil 1978. Roedd y Bil hwnnw yn parhau ar ei hynt drwy Senedd y DU ar yr un pryd ag y cafodd Bil Drafft Llywodraeth Cymru ei gyhoeddi, felly ni chafodd yr un diwygiadau eu cynnwys yn y Bil Drafft ac nid ymgynghorwyd arnynt. Gan fod Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 wedi cael ei phasio erbyn hyn mae'n briodol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru) drafod y cyfryw faterion.

# Rhan 3 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

## Pwerau sy'n gynwysedig yn y Bil

106. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau cyfyngedig i wneud is-ddeddfwriaeth; maent wedi cael eu crynhoi yn Nhabl 2 sydd hefyd yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6(x).

107. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch pwerau a dyletswyddau mewn deddfwriaeth (gan gynnwys pwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth) yn adrannau 15 i 20, ac mae diffiniad cyffredinol o "is-ddeddfwriaeth" i'w gael yn Atodlen 1 i'r Bil, a fydd yn gymwys at ddibenion Deddfau gan y Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig yn y dyfodol oni fwriedir ystyr arall.

108. Tynnir sylw hefyd at:

   a. adran 38 o'r Bil, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau i wneud rheoliadau, rheolau neu orchmynion drwy wneud unrhyw un arall o'r ffurfiau hynny ar is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gallai pŵer i wneud gorchmynion gael ei arfer i wneud rheoliadau yn lle hynny.

   b. adran 39 o'r Bil sy'n ymwneud â chyfuno, mewn un offeryn statudol, is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru a fyddai'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad, ac sy'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn fwyaf llym ohonynt.

## Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth

109. Pwerau yn unol â disgresiwn yw'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil, ac nid oes unrhyw gynlluniau i'w defnyddio ar unwaith. Nid yw rheoliadau drafft wedi'u paratoi; yn hytrach, bwriad yr wybodaeth isod yw egluro'r pwerau sydd i'w defnyddio (ar yr amser priodol).

### *Adran 6(2) – diwygio'r Atodlen o eiriau ac ymadroddion diffiniedig*

110. Mae'r pŵer hwn yn darparu fel y gall Gweinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu ddiwygio diffiniadau yn Atodlen 1 i'r Bil, yn ôl yr angen. Bwriedir i'r pŵer hwn hael ei ddefnyddio i sicrhau bod yr Atodlen yn adlewyrchu'r gofynion presennol; er enghraifft, os oes angen diffiniadau pellach yn ymwneud ag ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, gellir gwneud diwygiadau i Atodlen 1.

111. Mae pŵer tebyg i'w cael yn adran 25(2) o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010. Nid yw'r pŵer hwnnw wedi cael ei ddefnyddio hyd yma, er bod Deddfau eraill gan Senedd yr Alban wedi gwneud diwygiadau canlyniadol i'r Atodlen o ddiffiniadau yn y Ddeddf honno. Nid oes pŵer tebyg i'w gael yn Neddf 1978. Yn hytrach, mae Llywodraeth y DU wedi dibynnu ar bwerau eraill i wneud diwygiadau canlyniadol i'r Atodlen gyfatebol.

112. Er nad oes bwriad uniongyrchol i ddefnyddio'r pŵer yn adran 6(2), mae angen mecanwaith priodol er mwyn gallu diweddaru'r Atodlen pan ystyrir ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny.

### *Adran 37(1) – nodi'n fanwl ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru*

113. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth sy'n disgrifio dyddiad neu amser fel ei bod yn nodi'r dyddiad neu'r amser gwirioneddol. Er enghraifft, os yw Deddf yn cyfeirio at "y diwrnod pan ddaw adran 10 i rym", ac mae adran 10 yn dod i rym ar 1 Ionawr 2018, gallai'r rheoliadau amnewid y disgrifiad gyda'r dyddiad hwnnw.

114. Gellid defnyddio'r pŵer hwn yn annibynnol er mwyn egluro ystyr deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ond nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer rhaglen i "roi trefn" ar y llyfr statud. Yn hytrach, mae'n fwy tebygol y defnyddir y pŵer hwn ar y cyd â phwerau eraill. Er enghraifft, gallai gorchymyn cychwyn sy'n pennu'r diwrnod y daw adran i rym ar yr un pryd ddiwygio unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n cyfeirio at y diwrnod y daw'r adran honno i rym[24].

### *Adran 41(1) – rhoi effaith lawn i'r Ddeddf*

115. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach o ganlyniad i'r Bil, neu er mwyn rhoi effaith lawn iddo. Gellid defnyddio'r pŵer hwn, er enghraifft, i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall pe byddai'n ofynnol gwneud hynny ar ryw adeg yn y dyfodol.

116. Nid oes unrhyw gynlluniau ar gyfer ei ddefnyddio ar unwaith, ac mae Atodlen 2 i'r Bil yn cynnwys diwygiadau i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r Bil.

### *Adran 43(2) – Rhan 3 o'r Ddeddf hon yn dod i rym*

117. Mae adran 43 o'r Bil yn darparu ac eithrio'r darpariaethau ynghylch dehongli statudol (i'r graddau eu bod yn gymwys i is-offerynnau Cymreig a Deddfau gan

[24] Er bod adran 37 yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau, gallai darpariaeth o dan yr adran hon gael ei chynnwys mewn gorchymyn yn rhinwedd y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn ffurfiau gwahanol a ddarperir gan adran 38.

y Cynulliad ar wahân i'r Bil ei hun), y bydd gweddill y Bil yn dod i rym ar y diwrnod ar ôl y Cydsyniad Brenhinol.

118. Mae'r pŵer yn adran 43(2), felly, yn darparu ar gyfer gwneud gorchymyn cychwyn gan Weinidogion Cymru i ddod â'r darpariaethau ynghylch dehongli statudol, i'r graddau eu bod yn gymwys i is-offerynnau Cymreig ac i Ddeddfau gan y Cynulliad ar wahân i'r Bil ei hun, i rym ar ddyddiad penodol.

119. Ar hyn o bryd, bwriedir i'r darpariaethau hyn ddod i rym ar 1 Ionawr 2020.

120. Ystyriwyd hefyd nodi'r dyddiad 1 Ionawr 2020 ar wyneb y Bil, ond wedi ystyried ymhellach mae cychwyn y ddarpariaeth hon drwy orchymyn yn rhoi hyblygrwydd rhag ofn y bydd unrhyw oedi o ran cael y Cydsyniad Brenhinol neu unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n gwneud y dyddiad 1 Ionawr 2020 yn anghyfleus.

121. Er mwyn rhoi eglurder, bwriedir i'r pwerau a ddarperir yn adran 37(1) gael eu defnyddio fel y byddai'r gorchymyn cychwyn yn diwygio Rhan 2 o'r Bil i fewnosod "1 Ionawr 2020" (neu unrhyw ddyddiad cychwyn ar ôl y dyddiad hwnnw a bennir gan y gorchymyn) yn lle'r cyfeiriad at y diwrnod y daw Rhan 2 i rym.

122. Bwriedir hefyd i'r gorchymyn cychwyn ddiwygio adran 23B o Ddeddf 1978 [25]i ddisodli cyfeiriadau at y diwrnod y daw Rhan 3 i rym yn llawn gyda chyfeiriadau at y dyddiad a bennir gan y gorchymyn.

### *Ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth*

123. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys is-ddeddfwriaeth pan fydd o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny. Pennir union natur unrhyw ymgynghoriad mewn perthynas ag arfer y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil hwn ar yr adeg briodol.

[25]A ddisodlir gan Atodlen 2 o'r Bil

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ym mha ffurf yr arferir y pŵer | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn y Cynulliad | Priodoldeb y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 6(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn aml, pan fydd yn ofynnol diwygio Atodlen 1 (i'r Bil) yn sgil deddfwriaeth a wneir yn y dyfodol, byddai'r ddeddfwriaeth honno yn gwneud y newidiadau angenrheidiol.<br>Gallai achosion godi lle bydd angen diwygio Atodlen 1, naill ai o ganlyniad i ddeddfwriaeth na fyddai'n gwneud darpariaeth ganlyniadol neu ddigwyddiadau eraill (anneddfwriaethol), ac ystyrir ei bod yn fwy priodol gwneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth yn hytrach na thrwy geisio cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol bob tro yr ystyrir bod y cyfryw newid yn ddymunol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Bydd unrhyw ddarpariaeth a wneir yn effeithio'n sylweddol ar ddeddfwriaeth sylfaenol (sef y Ddeddf ei hun) y bydd ei heffaith yn gymwys i Ddeddfau gan y Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol. Yn eu hanfod, diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i ddeddfwriaeth arall fydd rhai newidiadau yn syml, ond ni fydd hyn yn wir bob tro. |
| 37(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Bwriad y pŵer hwn yw egluro beth mae deddfwriaeth yn ei olygu heb newid ei heffaith gyfreithiol, ac ystyrir ei fod yn fwy priodol gwneud hyn drwy is-ddeddfwriaeth na thrwy geisio cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol bob tro yr ystyrir ei bod yn ddymunol gwneud y cyfryw newid. | Dim gweithdrefn | Ni fydd y rheoliadau yn gwneud unrhyw newid i effaith y ddeddfwriaeth y maent yn eu diwygio.<br>Bydd adran 38 yn golygu y gellir defnyddio'r pŵer hwn hefyd fel rhan o orchymyn cychwyn. Mae'n arferol i'r cyfryw orchmynion gael eu gwneud heb iddynt fod yn ddarostyngedig i unrhyw |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ym mha ffurf yr arferir y pŵer | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn y Cynulliad | Priodoldeb y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | weithdrefn. (Ond pe byddai gweithdrefn y Cynulliad yn gymwys i'r gorchymyn cychwyn, byddai adran 39(1) yn golygu bod yr un weithdrefn hefyd yn gymwys i'r defnydd o'r pŵer yn adran 37(1) o'r un offeryn). |
| 41(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Yn briodol ar gyfer rheoliadau er mwyn sicrhau, lle y mae'n angenrheidiol gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall i roi effaith lawn i'r Bil hwn, nad yw'n ofynnol cael rhagor o ddeddfwriaeth sylfaenol. | Gweithdrefn gadarnhaol | Lle y mae rheoliadau yn diwygio neu'n diddymu deddfwriaeth sylfaenol, neu'n ei haddasu fel arall, ac y gall y newidiadau effeithio'n sylweddol ar y ddeddfwriaeth honno, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol. |
| | | | | Gweithdrefn negyddol | Lle nad yw rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, mae'r weithdrefn negyddol yn briodol. |
| 43(2) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Bwriedir dwyn Rhan 2 i rym mewn perthynas â deddfwriaeth arall ar 1 Ionawr 2020, ond ystyrir ei bod yn briodol i Weinidogion Cymru gael y pŵer i bennu'r diwrnod y daw Rhan 2 i rym drwy orchymyn, rhag ofn bod unrhyw oedi o ran cael y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil neu os ceir unrhyw newid arall mewn amgylchiadau. | Dim gweithdrefn | Gorchymyn cychwyn yw hwn na all ond bennu dyddiad dod i rym ar gyfer Rhan 2 (i'r graddau y mae'n gymwys i ddeddfwriaeth heblaw am y Bil ei hun). |

*Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol*

## Rhan 4 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

124. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil. Dim ond Rhan 1 o'r Bil fyddai'n achosi costau sylweddol ac ni fydd y rhain yn codi tan ddechrau'r Cynulliad nesaf yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol. Yn ychwanegol, mae cost drosiannol fach yn gysylltiedig â Rhannau 2 a 3 o'r Bil. Mae'r costau a gysylltir â'r Bil wedi'u hamcangyfrif ar gyfer y cyfnod gwerthuso 2019-2020 i 2025-2026. Yn yr RIA hwn mae'r holl gostau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf.

125. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

126. Mae tabl 3 isod yn crynhoi costau a manteision yr opsiynau a ffefrir ar gyfer hygyrchedd y gyfraith a'i dehongli'n statudol.

*Tabl 3 – Crynodeb o Gostau a Manteision y dewis a ffefrir*

| **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr opsiwn a ffefrir:**<br>Deddfu i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru a dehongli a gweithredu'r gyfraith yng Nghymru. O dan Ran 1 mae dyletswyddau statudol i oruchwylio hygyrchedd y gyfraith ac i baratoi a darparu rhaglen o weithgareddau a anelir at wella hygyrchedd dros bob tymor y Cynulliad yn cael eu gosod ar y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru. | | | | | |
| **Cam:** | Cam 3 | **Cyfnod gwerthuso:** | 2019/20-2025/26 | **Blwyddyn sail brisiau:** | 2017/18 |
| **Cyfanswm y gost** | | **Cyfanswm y manteision** | | **Gwerth cyfredol net (NPV)** | |
| Cyfanswm: | £2,971,000 - £2,987,000 | Cyfanswm: | £0 | £-2,505,600 - £-2,519,100 | |
| Gwerth presennol: | £2,505,600 - £2,519,100 | Gwerth presennol: | £0 | | |

| **Cost weinyddol** |
|---|
| **Costau:**<br>Bydd costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru. O dan Ran 1 rhaid paratoi a gweithredu rhaglen ym mhob tymor  Cynulliad (a amlinellir yn nhabl 6) ac mae cost drosiannol fach yn gysylltiedig â Rhannau 2 a 3 o'r Bil (a amlinellir ym mharagraff |

| 205(a)). | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol:**<br><br>**£29,000 - £45,000** | **Cylchol:**<br><br>**£2,942,000** | **Cyfanswm:**<br><br>**£2,971,000 - £2,987,000** | **Gwerth presennol:**<br><br>**£2,505,600 - £2,519,100** |
| **Arbedion cost:**<br>Bydd deddfwriaeth fwy hygyrch yn lleihau'r amser a'r adnodd y mae eu hangen ar gyfer ymchwil gan gyfreithwyr y Llywodraeth sy'n cynghori ar faterion gweithredol; er hynny nid oes modd meintioli'r budd hwn mewn termau ariannol gydag unrhyw fesur o sicrwydd. | | | |
| **Trosiannol:**<br><br>**£0** | **Cylchol:**<br><br>**£0** | **Cyfanswm:**<br><br>**£0** | **Gwerth presennol:**<br><br>**£0** |
| **Cost weithredol net:** | **£2,971,000 - £2,987,000** | | |

| **Cost cydymffurfio** | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau:**<br>Ni nodwyd bod unrhyw gostau cydymffurfio'n codi mewn perthynas â'r opsiynau a gynigir yn yr RIA hwn. | | | |
| **Trosiannol:**<br><br>**£0** | **Cylchol:**<br><br>**£0** | **Cyfanswm:**<br><br>**£0** | **Gwerth presennol:**<br><br>**£0** |

| **Costau eraill** | | | |
|---|---|---|---|
| **Costau:**<br>Ni nodwyd bod unrhyw gostau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol y gellir eu meintioli yn codi mewn perthynas â'r opsiynau a gynigir yn yr RIA hwn. | | | |
| **Trosiannol:**<br><br>**£0** | **Cylchol:**<br><br>**£0** | **Cyfanswm:**<br><br>**£0** | **Gwerth presennol:**<br><br>**£0** |

| **Costau ac anfanteision na ellir eu meintioli** |
|---|
| Ni nodwyd bod unrhyw gostau neu anfanteision na ellir eu meintioli'n codi mewn perthynas â'r opsiynau a gynigir yn yr RIA hwn. |

| Manteision | |
|---|---|
| Trwy sicrhau hygyrchedd cyfraith Cymru yn y tymor hir byddai'r Bil yn dod â manteision sylweddol i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru ac i ddinasyddion preifat trwy ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol. Bydd yn hyrwyddo gwell hyder yn y gyfraith i fusnes, y Llywodraeth a dinasyddion, gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus ac effeithlon ar draws pob rhan o gymdeithas ddinesig a'r sector preifat. Ni fu modd cynhyrchu amcangyfrif cadarn, â gwerth ariannol, o'r manteision hyn. | |
| **Cyfanswm**<br>**£0** | **Gwerth presennol:**<br>**£0** |

| Tystiolaeth allweddol, rhagdybiaethau a sicrwydd |
|---|
| Ffefrir deddfwriaeth am ei bod yn rhoi effaith i argymhellion Comisiwn y Gyfraith fel y'u nodir yn *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* =. Dibynnir ar ganfyddiadau Comisiwn y Gyfraith sy'n sail i'r argymhelliad i greu dyletswydd statudol fel tystiolaeth o blaid yr opsiwn hwn. Hwn yw'r opsiwn sydd fwyaf tebygol o wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch. |

## Rhan 1: Hygyrchedd Cyfraith Cymru

127. Nodir y cefndir i'r trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer gwneud Cyfraith Cymru'n fwy hygyrch yn llawnach yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol – gweler yn arbennig baragraffau 2 i 15 a 24 i 43.

128. Mae tri opsiwn wedi cael eu hasesu wrth ystyried sut i fynd i'r afael â'r angen i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru:

Opsiwn 1: Dyhead i wella hygyrchedd ond ddim rhaglen ffurfiol

Opsiwn 2: Rhaglen hygyrchedd ffurfiol heb ddyletswydd statudol

Opsiwn 3: Rhaglen hygyrchedd ffurfiol gyda dyletswydd statudol yn sail iddi

129. Nodir disgrifiad manylach o bob opsiwn a ystyrir isod ynghyd â dadansoddiad o'r costau a manteision cysylltiedig.

***Opsiwn 1: Dyhead i wella hygyrchedd ond ddim rhaglen ffurfiol***

130. Opsiwn 1 fyddai parhau â'n trefniadau presennol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i wella hygyrchedd ac mae wedi gweithio o dipyn i beth i wneud hyn lle bo adnoddau'n caniatáu; o dan yr opsiwn hwn byddai gwaith ysbeidiol i wella hygyrchedd yn parhau heb adnodd penodedig neu raglen weithgarwch ffurfiol ddiffiniedig.

131. Byddai mynd ar drywydd yr opsiwn hwn yn golygu bron yn sicr y byddai Llywodraeth Cymru, er gwaethaf ei dyheadau, yn methu â chyfuno a chodeiddio cyfraith Cymru. Er y gallai gwelliannau gael eu gwneud dros amser, heb i adnodd digonol gael ei neilltuo i'r dasg, byddai unrhyw enillion yn cael eu tanseilio'n gyson gan y swmp o ddeddfwriaeth ddiwygiedig sy'n cael ei chreu yn ystod busnes arferol y Llywodraeth a'r Cynulliad Cenedlaethol.

*Costau opsiwn 1*

132. O dan yr opsiwn hwn ni fyddai unrhyw adnodd penodedig yn cael ei neilltuo i'r dasg o wella hygyrchedd ac felly ni châi costau ychwanegol eu cynhyrchu o dan yr opsiwn hwn.

*Manteision opsiwn 1*

133. Byddai unrhyw welliannau i hygyrchedd deddfwriaeth a welir o dan yr opsiwn hwn yn dod â budd economaidd a chymdeithasol bach. Ond peth dros dro fyddai hyn ac fe fyddai'n cael ei wrthbwyso gan anfanteision llyfr statud anhrefnus gan y bydd y swmp o gyfraith heb ei chyfuno a'i chodeiddio sy'n cael ei chreu o dan y rhaglen ddeddfwriaethol yn tanseilio unrhyw gynnydd a wneir yn barhaus.

*Casgliad*

134. O dan opsiwn 1 byddai'r gyfraith yn parhau i ddod yn fwy cymhleth bron yn ddi-os, byddai mynediad i gyfiawnder yn parhau i gael ei lesteirio a byddai rheolaeth y gyfraith yn cael ei thanseilio. Byddai hyn yn achosi niwed sylweddol i enw da Llywodraeth Cymru a byddai'n methu â gwireddu manteision cymdeithasol ac economaidd hirdymor gwella hygyrchedd. O'r herwydd nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

***Opsiwn 2 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol heb ddyletswydd statudol***

135. O dan opsiwn 2 byddai Llywodraeth Cymru'n dangos ei hymrwymiad i wella hygyrchedd trwy ddilyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith fod rhaglenni gwaith i wella hygyrchedd cyfraith Cymru'n cael eu gwneud. Er hynny, ni fyddai'r argymhelliad y dylai fod sail statudol ar gyfer gweithgareddau o'r fath (fel y darperir ar ei gyfer o dan opsiwn 3 isod) yn cael ei ddilyn.

136. Fel y nodwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, oherwydd maint a chymhlethdod y dasg o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith, bydd angen cynnal rhaglenni strwythuredig o waith i gyflawni'r nod hwn yn llwyr; nid yw dull gweithredu tameidiog megis yr hyn a nodir yn opsiwn 1 yn debygol o arwain at fanteision; boed economaidd neu gymdeithasol. O dan opsiwn 2, byddai'r Llywodraeth yn datblygu rhaglenni gweithgareddau a anelir at wella hygyrchedd ond heb unrhyw sail statudol yn pennu cwmpas y rhaglenni hynny neu pa mor aml y maent yn cael eu creu a'u darparu.

*Costau opsiwn 2*

137. Mae costau opsiwn 2 yn perthyn i ddau gategori: yn gyntaf y costau hynny a gysylltir â datblygu rhaglen ac yn ail; y costau a gysylltir â rhoi rhaglen o'r fath ar waith. Nodir manylion pob un isod, ac mae pob un yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru.

138. Heb unrhyw sail statudol ni ellir dweud ar hyn o bryd pa mor aml y byddai'r rhaglenni hyn yn cael eu cynnal, am faint o flynyddoedd y byddent yn para neu ba weithgareddau a allai gael eu gwneud. Er mwyn hwyluso cymhariaeth ag opsiwn 3, er hynny, tybiwyd at ddibenion yr asesiad hwn y byddai'r rhaglenni sy'n cael eu llunio o dan yr opsiwn hwn yn cynnwys yr un gweithgareddau ac y byddent yn cael eu cytuno a'u darparu yn yr un ffordd â rhaglenni ffurfiol a ddatblygir o dan opsiwn 3.

139. Byddai angen i bob rhaglen sy'n cael ei chreu o dan yr opsiwn hwn gael ei pharatoi, bod yn destun ymgynghori, cael ei llunio'n derfynol a'i chyhoeddi. Rhagwelir y câi hyn ei wneud yn bennaf gan staff gweinyddol ar Fand Gweithredol 2 ac y byddai'n cymryd rhyw 8 wythnos o waith amser llawn. Ar y sail hon cost amcangyfrifedig paratoi un rhaglen fyddai £12,000. Nodir y sail ar gyfer cyfrifo'r gost hon yn Nhabl 4 isod.

*Tabl 4 – Costau datblygu rhaglen hygyrchedd*

| **Cost datblygu rhaglen hygyrchedd** | |
|---|---|
| Nodi a dewis gweithgareddau i'w cynnwys yn y rhaglen ddrafft | £4,500 |
| Drafftio'r rhaglen ddrafft (gan gynnwys ei chlirio gan y Gweinidogion) | £3,000 |
| Cyhoeddi'r rhaglen at ddibenion ymgynghori a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. | £1,500 |

| | |
|---|---|
| Paratoi a chyhoeddi'r rhaglen derfynol (gan gynnwys ei chlirio) | £3,000 |
| **CYFANSWM Y COSTAU A AMCANGYFRIFIR** | **£12,000** |

140. Pan fydd y rhaglen wedi'i gosod gerbron y Cynulliad a phan fydd ar waith gallai'r Cwnsler Cyffredinol ddymuno adrodd i'r Cynulliad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o dan y rhaglen. Gallai gwaith adrodd gael ei wneud trwy system Cwestiynau Llafar y Cynulliad ac/neu mewn datganiadau gan y Cwnsler Cyffredinol. Costau cyfle fyddai costau adrodd o'r fath. Er hynny, pe bai'r Cwnsler Cyffredinol am baratoi adroddiad llawn am raglen o'r fath amcangyfrifir y byddai hyn yn costio rhyw £3,000.

141. Yn dibynnu ar ganfyddiadau adroddiad i raglen hygyrchedd, efallai y byddai angen diwygio'r rhaglen hefyd. Byddai'r costau diwygio'n dibynnu ar raddfa'r diwygio a gâi ei wneud ond at ddibenion yr asesiad hwn amcangyfrifir mai dwy ran o dair o gost paratoi'r rhaglen gychwynnol, sef rhyw £8,000, fyddai'r costau hynny.

142. Costau eraill opsiwn 2 yw'r rhai sy'n deillio o gyflenwi pob rhaglen hygyrchedd. Byddai cost wirioneddol pob rhaglen unigol yn dibynnu ar raddfa'r gweithgarwch a gynhwysir ynddi a'r adnodd a neilltuir i'r gweithgarwch hwnnw. Mae'n anodd ei darogan felly, er bod amcangyfrifon gorau wedi'u gwneud isod.

143. Mae opsiwn 3 (isod) yn ei gwneud yn ofynnol creu rhaglen unwaith ym mhob tymor Cynulliad. Er mwyn sicrhau newid gwirioneddol i ddefnyddwyr deddfwriaeth yng Nghymru y farn yw y bydd angen i bob rhaglen ddarparu i 4 i 5 o filiau cydgrynhoi gael eu cwblhau ym mhob tymor Cynulliad. Ochr yn ochr â hyn byddai rhaglen dreigl o brosiectau sy'n anelu at wella'r gyfraith trwy godeiddio a thrwy well dulliau o gyhoeddi a lledaenu cyfraith Cymru'n fwy cyffredinol.

144. Byddai gweithgareddau mewn rhaglen sy'n ymwneud â chydgrynhoi a chodeiddio Cyfraith Cymru yn cynnwys yn bennaf ddrafftio a chyfieithu deddfwriaeth ac fe fyddai hyn yn cael ei wneud gan Gwnsler Deddfwriaethol a chyfieithwyr deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Ni ellid ymgorffori gwaith ar y raddfa hon yn y busnes arferol ac fe fyddai'n gofyn am adnoddau penodedig. Er mwyn cyflenwi bil cydgrynhoi unwaith y flwyddyn am bum mlynedd amcangyfrifir y byddai angen tîm o Gwnsleriaid Deddfwriaethol a fyddai'n gwneud gwaith pedwar drafftiwr amser llawn yn gweithio ar radd Cwnsler Deddfwriaethol Cynorthwyol. Amcangyfrifir mai cost darparu tîm o'r fath yw £376,900 y flwyddyn. Byddai ar y tîm angen adnodd cyfieithu sylweddol hefyd yn gyfwerth â dau gyfieithydd. Amcangyfrifir mai cost hyn yw £93,000 pellach y flwyddyn.

145. Byddai'r tîm wrth gwrs yn cael rhywfaint o fewnbwn a chymorth gan gydweithwyr polisi a cyfreithwyr cynghorol; bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar faint, cymhlethdod a hyd prosiectau drafftio unigol, ac ystod o wahanol gyfraniadau yn dibynnu ar anghenion pob prosiect. Fel enghraifft, gallai bil cydgrynhoi bach sy'n cymryd 12 mis i'w baratoi, ac sy'n gofyn am gyfraniad cyfyngedig yn unig gan gydweithwyr polisi a chyfreithwyr cynghorol arwain at gostau cyfle o £27,000 (am y cyfnod o ddeuddeg mis)[26] Gallai Bil mwy cymhleth ofyn am gyfraniad uwch gan dimau polisi a cyfreithwyr cynghorol, gan arwain er enghraifft at gostau cyfle o £70,200 y flwyddyn[27]. Ni fyddai biliau mwy yn arwain o reidrwydd at lefelau uwch o gyfraniad na biliau llai, ond byddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyfraniadau hynny gael eu gwneud am gyfnod hwy.

146. Er hynny, ym mhob achos amcangyfrifon dangosol yw'r ffigurau uchod i bob pwrpas, ac ni ddylid ystyried eu bod yn haearnaidd nac yn gynrychioliadol o unrhyw brosiectau cydgrynhoi nac o bob prosiect cydgrynhoi. Y rheswm dros hyn yw nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion cydgrynhoi o'r math a ragwelir; yn ail, bydd gan bob prosiect wahanol alwadau a gofynion yn seiliedig ar y gyfraith bresennol sy'n cael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio. Fel y cyfryw amcangyfrifir mai cyfanswm costau blynyddol paratoi bil cydgrynhoi mewn rhaglen lle y cynhyrchir bil bob blwyddyn yn fras am gyfnod o bum mlynedd yw £469,900 y flwyddyn yn seiliedig ar yr adnoddau drafftio a chyfieithu a neilltuir i'r gwaith hwn.

147. Mae'n debygol y bydd gweithgareddau mewn rhaglen nad ydynt yn cynnwys cydgrynhoi neu godeiddio yn cynnwys y rhai a wneir i wella cyhoeddi ac esbonio Cyfraith Cymru. Er enghraifft, datblygu ymhellach gwefan Cyfraith Cymru/Law Wales, ymwneud ymhellach â chyhoeddi'r gyfraith ac ymchwilio i'r technolegau perthnasol sy'n dod i'r amlwg a'u defnyddio ar gyfer y tasgau hyn. Rhan o'r ffocws fyddai materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg lle ceir diffygion sylweddol yn y systemau presennol, fel y nodir gan Gomisiwn y Gyfraith. Câi'r gweithgareddau hyn eu gwneud yn bennaf gan dîm o staff gweinyddol Llywodraeth Cymru ar fand rheoli 2 a 3 yn gweithio'n amser llawn. Amcangyfrifir mai cost hyn yw £118,500 y flwyddyn. Nodir y costau cyfunol ychwanegol (i Lywodraeth Cymru) o ddarparu rhaglen enghreifftiol yn Nhabl 5 isod.

[26] Yn seiliedig ar 60 diwrnod o arweinydd polisi EB2 (£18,000) a 30 diwrnod o gyfreithiwr cynghorol EB2 (£9,000) y flwyddyn

[27] Yn seiliedig ar 156 diwrnod o arweinydd polisi EB2 (£46,800) a 78 diwrnod o gyfreithiwr cynghorol EB2 (£23,400) y flwyddyn

*Tabl 5 – Cost amcangyfrifedig flynyddol darparu rhaglen hygyrchedd*

| **Amcangyfrif o gost flynyddol ychwanegol darparu rhaglen hygyrchedd gan gynnwys 4 i 5 o filiau cydgrynhoi dros bum mlynedd** | |
|---|---|
| Cost adnodd drafftio sy'n gyfwerth â phedwar Cwnsler Deddfwriaethol | £376,900 |
| Cost adnodd cyfieithu sy'n gyfwerth â dau Gyfieithydd Deddfwriaethol | £93,000 |
| Cost un o staff Band Rheoli 2 a dau o staff Band Rheoli 3 yn cyflenwi rhaglen dreigl o brosiectau hygyrchedd | £118,500 |
| **CYFANSWM Y COSTAU A AMCANGYFRIFIR** | **£588,400** |

*Manteision opsiwn 2*

148. Fel y nodir gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, er nad yw'r union gostau ariannol a gysylltir â chyfraith anhygyrch yn anhysbys, mae'n fwy neu lai'n hunanamlwg o enghreifftiau disgrifiadol o'r materion a achosir gan gyfraith anhygyrch bod costau i'r economi gyfan.

149. Mae cyfraith anhygyrch yn cynyddu costau cael mynediad at y gyfraith trwy gynyddu'r amser a'r adnoddau y mae eu hangen i ymchwilio i'r gyfraith a'i chymhwyso; nid yn unig i gyfreithwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat ond hefyd i fusnesau a allai ei chael yn amhosibl neu o leiaf yn anghymesur o ddrud i gael mynediad at y gyfraith yn uniongyrchol. Ymhellach, oherwydd y cyfyngiadau amser ac adnoddau y mae rhaid i gyfreithwyr a phobl eraill sy'n cael mynediad at y gyfraith weithio o'u mewn, gall cyfraith anhygyrch arwain at ddadansoddiad a chyngor cyfreithiol cyfyngedig neu anghywir. Gall hyn yn ei dro gael effaith andwyol nid yn unig ar y busnesau sy'n dibynnu ar eu dadansoddiad eu hunain  neu gael cyngor cyfreithiol ond hefyd, yn y pen draw, y system llysoedd sy'n gorfod datrys anghydfodau yn y pen draw sy'n deillio o'r camgymeriadau hyn. Byddai gwella hygyrchedd y gyfraith yn lleihau'r costau a gysylltir â'r materion hyn a byddai pobl Cymru ar eu hennill o'r herwydd.

150. Bydd opsiynau 2 a 3 yn arwain at welliannau yn hygyrchedd cyfraith Cymru. Bydd y rhain o fudd i'r sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru yn ogystal â dinasyddion preifat trwy ddileu'r rhwystrau i ddefnyddio'r gyfraith yn effeithlon ac yn effeithiol gan leihau'r costau a gysylltir â chyfraith anhygyrch. Bydd yn hyrwyddo gwell hyder yn y gyfraith i fusnes, y Llywodraeth a dinasyddion, gan arwain at benderfyniadau mwy hyderus ac effeithlon ym maes

diwygio'r gyfraith a buddsoddi ond ar draws pob rhan o gymdeithas ddinesig. Amcangyfrifodd Comisiwn y Gyfraith y gallai'r manteision sy'n deillio o roi eu hargymhellion ar waith ddod i ryw £24 miliwn y flwyddyn. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ceisio cadarnhau'r dadansoddiad hwn, ac nid yw'n cymhwyso'r ffigur hwn fel rhan o'i ddadansoddiad budd ei hun yn yr RIA hwn. Ond mae'r ffigur, o leiaf, yn fesuriad ariannol o'r amser a allai gael ei arbed ac mae'n fynegiant, o leiaf, ynghylch i ba raddau y gellid defnyddio adnoddau i wneud pethau eraill.

*Casgliad*

151. Byddai rhaglen a gâi ei gyflenwi o dan opsiwn 2, a honno'n rhaglen sy'n cyfateb i raglen y mae'n ofynnol ei chyflenwi o dan opsiwn 3, yn arwain at fuddion hirdymor sylweddol i ddefnyddwyr deddfwriaeth yng Nghymru, ond ni fydd y rhain yn dwyn ffrwyth ond os bydd y ffocws ar y mater o hygyrchedd yn parhau ac os caiff adnoddau eu neilltuo i gyflenwi hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n cytuno â barn Comisiwn y Gyfraith bod angen dyletswydd statudol i rwymo llywodraethau'r dyfodol ac i sicrhau y cedwir canolbwynt hirdymor ar y mater. Nid yw'r Llywodraeth yn ffafrio Opsiwn 2, felly.

***Opsiwn 3 – Rhaglen hygyrchedd ffurfiol gyda dyletswydd statudol yn sail iddi***

152. O dan opsiwn 3 byddai Llywodraeth Cymru, yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith, yn ymrwymo i wella hygyrchedd cyfraith Cymru trwy greu rhwymedigaethau statudol sy'n gosod:

   a. y Cwnsler Cyffredinol, fel Swyddog Cyfraith Cymru, o dan ddyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan ystyriaeth; a

   b. Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol o dan ddyletswydd i ddatblygu rhaglen o weithgarwch ar gyfer pob tymor Cynulliad, yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, sy'n gorfod cynnwys gweithgareddau y bwriedir iddynt gyfrannau at broses barhaus o gyfuno a chodeiddio cyfraith Cymru, hybu ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

153. Nod cyffredinol y dyletswyddau hyn yw sicrhau bod ffocws cyson a pharhaus ar hygyrchedd y gyfraith yn dod yn rhan annatod o swyddogaeth gwneud y gyfraith yng Nghymru fel bod hygyrchedd y gyfraith hon yn cael ei wella dros y tymor hwy. O dan y ddyletswydd gyntaf bydd y Cwnsler Cyffredinol o dan rwymedigaeth i ystyried nid yn unig pob cyfraith newydd a gynigir, ond hefyd gyflwr cyfraith Cymru yn ei chrynswth. Bwriedir i'r goruchwylio hwn lywio gweithgareddau'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru o dan yr ail

ddyletswydd. Gyda'i gilydd maent yn hybu dull gweithredu systematig o ran gwneud cyfraith Cymru'n hygyrch.

154. Oherwydd maint a chymhlethdod y dasg, bydd yn cymryd llawer o flynyddoedd o waith dyfal i gyflawni'r nod o wneud cyfraith Cymru'n hygyrch. Caiff yr amser a gymerir i sicrhau system o wneud cyfraith lle y caiff deddfwriaeth hygyrch ei chreu a'i chynnal nid ei benderfynu nid yn unig gan faint yr adnodd sydd ar gael (yn enwedig Cwnsler Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru y bydd ei angen i ddrafftio deddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi) ond hefyd yr angen i arddel dull gweithredu graddol a systematig yng Nghymru ac i gydgysylltu hyn â diwygio'r gyfraith a hynny fel rhan o Raglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

155. Ar y llaw arall, os na neilltuir adnodd penodedig digonol, nid yw'n debygol y caiff y dasg ei chyflawni byth. Y rheswm dros hyn yw y byddai'r gwelliannau i hygyrchedd a gâi eu sicrhau gan y weithred o gydgrynhoi a chodeiddio yn cael eu tanseilio gan raddfa'r newid i'r llyfr statud a fydd yn digwydd beth bynnag yn ystod busnes arferol y Cynulliad Cenedlaethol.

156. Ym marn Llywodraeth Cymru mae rhwymedigaeth statudol yn hanfodol er mwyn cynnal proffil diffyg hygyrchedd fel mater o bwys a sicrhau bod y gwaith y mae ei angen i fynd i'r afael â'r mater hwn yn dal yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth dros y tymor hir. Heb rwymedigaeth statudol yn sail i ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r mater hwn mae yna risg na fydd Llywodraethau olynol o bosibl yn ymrwymo'r adnoddau y mae eu hangen i ymgymryd â'r gwaith hwn. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y cam gweddol anarferol o Lywodraeth yn gosod dyletswydd arni ei hun gan ei bod yn ymwybodol bod ymdrechion blaenorol yn y DU i gydgrynhoi deddfwriaeth mewn ffordd reolaidd a systematig wedi methu.

157. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r dasg o wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch, mae'n glir hefyd, er hynny, fod rhaid rhoi blaenoriaeth i'r gwaith y mae ei angen i gyflawni ei rhaglen diwygio deddfwriaethol ac i wneud y newidiadau y mae eu hangen i gyfraith Cymru o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd. Er mai'r bwriad yw neilltuo adnodd penodedig i'r dasg o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith (yn arbennig) mae risg y gallai fod angen – mewn amgylchiadau eithriadol – defnyddio'r adnodd ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Ar y llaw arall mae llawer o synergeddau sy'n golygu y bydd cyfleoedd i wella hygyrchedd gan ddatblygu'r rhaglen ddeddfwriaethol yr un pryd â delio ag effaith ddeddfwriaethol ymadael.

*Costau opsiwn 3*

158. Fel gydag opsiwn 2, mae costau opsiwn 3 yn perthyn i ddau gategori: y rhai a gysylltir â datblygu pob rhaglen a'r rhai a gysylltir â rhoi pob rhaglen ar waith.

Daw Rhan 1 0'r Bil i rym adeg y Cydsyniad Brenhinol ond ni fydd gofynion y Rhan yn berthnasol ond i'r Cynulliad nesaf.

159. O dan opsiwn 3 byddai'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol i baratoi rhaglen o leiaf unwaith ym mhob tymor Cynulliad. Byddai angen i bob rhaglen o'r fath gael ei pharatoi, ei chyfieithu a'i gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi y byddai rhaglen ddrafft yn destun ymgynghori cyn cael ei gwneud yn derfynol. Amcangyfrifir y byddai'n costio £12,000 i baratoi pob rhaglen. Byddai hon yn gost uniongyrchol sy'n codi ar ddechrau'r cyfnod gwerthuso ac wedyn ar ddechrau pob tymor Cynulliad. Mae Tabl 4 (uchod) yn nodi'r gweithgareddau a gâi eu gwneud wrth baratoi rhaglen ynghyd â chostau amcangyfrifedig gwneud hyn (a byddai rhan o'r gost gyhoeddi'n cynnwys gosod y rhaglen gerbron y Cynulliad Cenedlaethol).

160. Mae'r Bil yn darparu hefyd y gellir diwygio'r rhaglen yn ystod tymor y Cynulliad. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen i unrhyw raglen ddiwygiedig gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Fel y nodwyd uchod byddai cost hyn yn dibynnu ar raddfa'r diwygio y mae ei angen. Ond gan y byddai llawer o'r gweithgareddau yr un peth yn y bôn â'r rhai y mae ei hangen i baratoi'r rhaglen i ddechrau amcangyfrifir bod y costau diwygio'n debygol o fod yn ddwy ran o dair o gost gwneud hynny (£8,000). Credir ei bod yn dra annhebygol y câi rhaglen ei diwygio fwy na dwywaith yn y cyfnod gwerthuso os o gwbl felly cost amcangyfrifedig hyn ar ei huchaf yw £16,000 ac mae'n fwy tebygol o fod yn £0-8,000 am y cyfnod.

161. Pan fydd y rhaglen wedi cael ei gosod gerbron y Cynulliad, mae darpariaethau'r Bil o dan opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cynulliad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o dan y rhaglen. Byddai'r adroddiad cyntaf yn cael ei wneud felly ddim hwyrach na blwyddyn ar ôl i'r rhaglen gael ei gosod, ac yn flynyddol o hynny ymlaen. Mae hyn yn golygu y byddai pedwar adroddiad blynyddol ym mhob tymor Cynulliad. Mater i'r Cwnsler Cyffredinol fydd penderfynu beth sydd yn ofynnol yn rhesymol o dan y ddyletswydd hon ond amcangyfrifir mai cost paratoi pob adroddiad yw £3,000 a fydd yn digwydd bedair gwaith drwy gydol y tymor gan arwain at gyfanswm cost o £12,000.

162. Nodir cyfanswm costau amcangyfrifedig (a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru) o ddatblygu, adolygu a diwygio'r rhaglenni hygyrchedd yn Nhabl 6 isod.

*Tabl 6 – Cost amcangyfrifedig datblygu ac adrodd ar raglen hygyrchedd (i bob Tymor Cynulliad o bum mlynedd)*

| **Cost amcangyfrifedig datblygu ac adrodd ar raglen hygyrchedd (i bob Tymor Cynulliad o bum mlynedd))** | | |
|---|---|---|
| | Isel | Uchel |
| Paratoi a gosod rhaglen ar gyfer tymor y Cynulliad | £12,000 | £12,000 |
| Paratoi adroddiad ar gynnydd o dan y rhaglen | £12,000 | £12,000 |
| Paratoi rhaglen ddiwygiedig (isel: dim diwygio yn ystod tymor y Cynulliad, uchel: ddwywaith yn ystod pob tymor Cynulliad) | DDIM | £16,000 |
| **CYFANSWM Y COSTAU A AMCANGYFRIFIR** | **£24,000** | **£40,000** |

163. Costau eraill opsiwn 3 yw'r rhai sy'n deillio o gyflenwi pob rhaglen hygyrchedd. Fel y nodir o dan opsiwn 2, byddai cost wirioneddol pob rhaglen unigol yn dibynnu ar raddfa'r gweithgarwch a gynhwysir ynddi a'r adnodd a neilltuir i'r gweithgarwch hwnnw. Ni phennir y ffactorau hyn gan y Bil ond materion i'w hystyried gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru ydynt wrth baratoi pob rhaglen hygyrchedd.

164. Nod Llywodraeth Cymru wrth fynd ar drywydd yr opsiwn hwn yw sicrhau nad yw manteision cydgrynhoi a'r gwaith a wneir o dan y rhaglenni arfaethedig yn cael eu tanseilio gan effaith y rhaglenni deddfwriaethol ar y llyfr statud. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd a bod manteision cydgrynhoi yn cael eu gwireddu amcangyfrifir y byddai angen cyflenwi pedwar i bump o brosiectau biliau cydgrynhoi (rhyw un y flwyddyn) yn ogystal â rhywfaint o symleiddio offerynnau statudol, prosiectau i wella'r ffordd y mae Cyfraith Cymru'n cael ei chyhoeddi a'i hesbonio, a phrosiectau eraill sy'n anelu at wella prosesau gwneud y gyfraith.

165. Fel y nodir yn fanylach o dan opsiwn 2, amcangyfrifir y byddai elfennau cydgrynhoi rhaglen o'r fath yn costio £469,900 y flwyddyn: Cyfanswm o £2,349,500 dros dymor Cynulliad. Byddai elfennau eraill y rhaglen yn costio £118,500 y flwyddyn; sef cyfanswm o £592,500 i bob tymor Cynulliad. Mae

Tabl 7 isod yn nodi costau llawn (a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru) darparu rhaglen hygyrchedd dros gyfnod tymor Cynulliad o bum mlynedd.

*Tabl 7 – Cost amcangyfrifedig flynyddol darparu rhaglen hygyrchedd (i bob tymor Cynulliad o bum mlynedd)*

| **Cost amcangyfrifedig datblygu ac adrodd ar raglen hygyrchedd (i bob Tymor Cynulliad o bum mlynedd)** | | |
|---|---|---|
| | y flwyddyn | dros y cyfnod gwerthuso |
| Drafftio 4-5 o filiau cydgrynhoi dros gyfnod o bum mlynedd | £376,900 | £1,884,500 |
| Cyfieithu 4-5 o filiau cydgrynhoi dros gyfnod o bum mlynedd | £93,000 | £465,000 |
| Gweithgareddau heb fod yn weithgareddau cydgrynhoi a anelir at wella hygyrchedd | £118,500 | £592,500 |
| **CYFANSWM Y COSTAU A AMCANGYFRIFIR** | **£588,400** | **£2,942,000** |

166. Cyfanswm costau amcangyfrifedig yr opsiwn hwn dros dymor Cynulliad felly yw £2,966,000 - £2,982,000. Mae hyn yn cynnwys costau cyfunol datblygu, adolygu a diwygio'r rhaglen unwaith yn ystod tymor Cynulliad (£24,000 - 40,000) a chostau cyflawni'r rhaglen drwy gydol y tymor (£2,942,000).

*Manteision opsiwn 3*

167. Mae'r adran hon yn ystyried pa fanteision a fyddai'n codi yn ychwanegol at y rhai a nodir mewn perthynas ag Opsiwn 2. Mae yna ryw baradocs - meddai rhai - mewn defnyddio deddfwriaeth i fynd i'r afael â phroblem a achosir yn rhannol gan swmp y ddeddfwriaeth sy'n bodoli. Ni ddylai Llywodraethau ddeddfu, fel rheol, oni bai fod angen gwneud hynny. Ar y sail honno gellid dweud bod rhwymedigaeth statudol, a goblygiadau gweinyddol ymateb i graffu ar y rhwymedigaeth honno, yn cynnwys defnyddio adnodd nad yw'n hanfodol. Er hynny, ym marn Llywodraeth Cymru byddai manteision codi proffil y mater er mwyn sicrhau canolbwynt hirdymor ar y broblem (yn rhannol trwy rwymo llywodraethau'r dyfodol) yn drech na'r pryderon hynny a'r costau bach iawn. Roedd y farn hon yn cael ei chefnogi gan yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft.

*Casgliad*

168. Ceir cefnogaeth sylweddol ymhlith rhanddeiliaid i raglen o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Cydnabyddir hefyd y byddai manteision cymdeithasol ac economaidd sylweddol yn y tymor canolig i'r tymor hir yn gysylltiedig â hyn. Byddai gweithio gyda llyfr statud wedi'i resymoli yn arbed amser, yn cynyddu effeithlonrwydd ac yn galluogi swyddogion i wneud mwy, gan arwain hefyd, o bosibl, at arbedion ariannol gwirioneddol.

169. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod ganddi gyfrifoldeb dros y gyfraith gyda'r awdurdodaeth gyfreithiol sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal gweithgareddau i fynd i'r afael â'r broblem ac mae'n bwriadu gwneud hynny dros y tymor hir.

170. Mae'r opsiwn hwn yn adlewyrchu'n llawn yr argymhellion y cytunwyd arnynt a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith a dyma'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru.

## Rhannau 2 a 3: Dehongli a gweithredu cyfraith Cymru

171. Nodir y cefndir ar ddiben Deddfau dehongli a'r trefniadau presennol ac arfaethedig ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol – gweler yn arbennig baragraffau 16 i 23 a 44 i 60.

172. Mae tri opsiwn wedi'u hasesu wrth ystyried a ddylid mynd i'r afael â diffyg Deddf bwrpasol, fodern a dwyieithog ar ddehongli cyfreithiau Cymru:

Opsiwn 1: Parhau i gymhwyso Deddf Dehongli 1978 (Deddf 1978) ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru (h.y. “y trefniadau presennol”).

Opsiwn 2: Parhau i gymhwyso Deddf 1978 ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru ond atgynhyrchu Atodlen 1 i'r Ddeddf honno (sy'n cynnwys diffiniadau o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin ) yn Gymraeg.

Opsiwn 3: Datblygu darpariaethau dehongli newydd (ar wahân) ar gyfer Cymru i lywodraethu'r ffordd y caiff cyfreithiau Cymru eu dehongli.

173. Ceir disgrifiad manylach o bob opsiwn isod, ynghyd â dadansoddiad o'r costau a'r manteision cysylltiedig.

***Opsiwn 1 – Parhau i gymhwyso Deddf Dehongli 1978***

174. Ar hyn o bryd mae Deddf Dehongli 1978 yn gymwys i'r holl ddeddfwriaeth a wneir yng Nghymru er gwaethaf y ffaith mai Deddf uniaith Saesneg yw hon. O dan yr opsiwn cyntaf hwn byddai hyn yn dal yn wir.

175. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir ei bod am i gyfreithiau Cymru fod yn glir, yn sicr, ac yn hawdd i'w gwe-lywio. Mae gan Ddeddfau ar ddehongli deddfwriaeth rôl bwysig o ran sicrhau hygyrchedd y gyfraith – er eu bod yn dechnegol eu natur, maent yn cwtogi ar ddeddfwriaeth ac yn hybu cysondeb yn iaith a ffurf deddfwriaeth. Byddai cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer dehongli statudol yn golygu y câi cyfle i wneud darpariaeth bwrpasol, fodern yng Nghymru sy'n unioni rhai o'r problemau a gysylltir â Deddf 1978 ei golli. Byddai defnyddwyr deddfwriaeth sy'n dymuno defnyddio'r testun Cymraeg o'r gyfraith yn gorfod parhau i ddibynnu ar Ddeddf ddehongli uniaith Saesneg er mwyn penderfynu ei hystyr a'i heffaith. Byddai'r anghydraddoldeb o ran y driniaeth o'r Gymraeg a'r Saesneg, felly'n parhau. Mae'n glir bod hyn yn groes i ysbryd Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

176. Cofnodwyd bod y Gymraeg wedi'i defnyddio mewn 790 o achosion llys yn ystod 2017 [28], sef cynnydd o dros 570 o achosion lle y cafodd y Gymraeg ei defnyddio yn ystod y cyfnod 2015-16[29]. Mae hwn yn nifer sylweddol. Nid yw'n glir faint o'r achosion hyn sydd wedi bod yn destun pwynt o ddehongli statudol; er hynny, mae'n amlwg nad yw dibynnu ar Ddeddf ddehongli uniaith Saesneg (ac nad yw'n adlewyrchu dull gweithredu neilltuol Cymru o ran gwneud cyfreithiau) yn briodol.

177. Mae hyn yn bwysig hefyd am fod y defnydd o'r Gymraeg yn y gyfraith yn debygol o gynyddu am gyfuniad o resymau:

a. mae'r corff o gyfraith ddwyieithog yng Nghymru yn tyfu;
b. mae mwy o fyfyrwyr ynn astudio'r gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg;
c. mae'r twf yn y defnydd o'r Gymraeg yn y llysoedd yn debygol o barhau yn unol â'r cynnydd ym maint y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru; a
d. mae camau'n cael eu cymryd yn fwy cyffredinol gan Lywodraeth Cymru i hybu defnydd o'r iaith[30].

[28] Barnwriaeth Cymru a Lloegr (ffigurau 2017 wedi'u darparu gan swyddfa'r Arglwydd Brif Ustus) *The Lord Chief Justice's Report 2017*
[29] Barnwriaeth Cymru a Lloegr (2016) *The Lord Chief Justice's Report 2016*
[30] Er enghraifft: Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: *Strategaeth y Gymraeg*

Yn ogystal mae nifer cynyddol o'r farnwriaeth yn gallu cynnal achosion yn Gymraeg – mae hyn yn cynnwys un rhan o dair o'r holl Farnwyr Cylchdaith, un rhan o dair o Farnwyr Rhanbarth ac ychydig yn llai na hanner Barnwyr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon)[31].

*Costau opsiwn 1*

178. Gan fod opsiwn 1 yn golygu cadw'r fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer y dehongliad statudol o'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru, nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dewis hwn.

*Manteision opsiwn 1*

179. Pe bai deddfwriaeth newydd yn cael ei chyflwyno ar gyfer dehongli cyfreithiau Cymru, byddai Deddf 1978 yn dal yn gymwys i holl Ddeddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o danynt (heblaw gan Weinidogion Cymru) sy'n gymwys yng Nghymru. Un Ddeddf yn unig fyddai o hyd felly.

180. Nododd ein hymgynghoriad polisi na fyddai Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn gymwys i ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru ond sy'n cael ei gwneud gan Lywodraeth y DU. Yn hytrach, byddai'r darpariaethau dehongli newydd yn gymwys i gyfraith Cymru yn unig. Byddai Deddf 1978 yn dal yn gymwys i holl Ddeddfau Senedd y DU ac is-ddeddfwriaeth a wneir o danynt (heblaw gan Weinidogion Cymru) sy'n gymwys yng Nghymru. Mae hyn yn creu'r posibilrwydd y gallai person gymhwyso'r darpariaethau dehongli ar anghywir trwy gamgymeriad wrth ddarllen deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru.

181. O dan opsiwn 1 yr unig fantais yw mai Deddf 1978 fydd y Ddeddf y dehonglir deddfau yng Nghymru trwyddi o hyd, ac fe fyddai unrhyw ddryswch sy'n deillio o feddu ar ddwy Ddeddf yn cael ei osgoi. Yn yr un modd, fel gydag unrhyw gynnig i ddiwygio'r gyfraith, byddai peidio â gwneud hynny'n golygu peidio â mynd i'r costau a gysylltir â gweithredu.

*Casgliad*

182. O dan y dewis hwn byddai'r diffygion a'r nodweddion annigonol a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig yn parhau. Ni fyddai unrhyw gamau gweithredu'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru. O'r herwydd, nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

[31] Barnwriaeth Cymru a Lloegr (2017) *The Lord Chief Justice's Report 2017*

### *Opsiwn 2 – Atgynhyrchu Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978 yn Gymraeg*

183. Opsiwn 2 yw cynhyrchu fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 i Ddeddf 1978. Byddai hyn yn gymwys i ddeddfwriaeth ddwyieithog a byddai'n diffinio geiriau ac ymadroddion Cymraeg sy'n cyfateb i'r geiriau ac ymadroddion Saesneg hynny a restrir yn Atodlen1.

184. Byddai parhau i gymhwyso Deddf 1978 i gyfraith Cymru, tra'n atgynhyrchu hefyd Atodlen 1 bresennol i Ddeddf 1978 yn Gymraeg, yn unioni'r broblem a achosir gan y ffaith bod y diffiniadau yn Neddf 1978 yn gymwys i'r Saesneg yn unig ac ni fyddai'n peri unrhyw ddryswch a achosir gan feddu ar ddwy Ddeddf.

185. Er hynny, nodir rheolau hefyd mewn mannau eraill yn Neddf 1978 sy'n ymwneud ag ystyr geiriau mewn cyfraith ddwyieithog yng Nghymru (er enghraifft adran 7 (cyfeiriadau at gyflwyno trwy'r post)). Ni fyddai'r rheolau hyn, na'r rheolau yn Neddf 1978 sy'n ymwneud ag effaith deddfwriaeth, yn bodoli yn y gyfraith yn Gymraeg pe baem yn mabwysiadu'r dull gweithredu yn opsiwn 2. Felly, ni fyddai opsiwn 2 yn mynd i'r afael yn llawn â'r materion hygyrchedd sy'n deillio o feddu ar Ddeddf Ddehongli uniaith Saesneg.

186. Ymhellach, mae llawer o randdeiliaid wedi awgrymu na ellid mynd i'r afael yn llawn â'r materion hygyrchedd a godir gan gymhwyso Deddf 1978 i gyfraith Cymru ond pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei moderneiddio. Mae hyn yn golygu gwneud darpariaeth bwrpasol newydd i Gymru sy'n cael ei mynegi mewn arddull drafftio modern a hygyrch ac sy'n adlewyrchu'r arferion presennol yn y gyfraith (gan gynnwys datblygiadau mewn technoleg). Ni fyddai mynd ati yn unig i atgynhyrchu Atodlen 1 o Ddeddf 1978 yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

*Costau opsiwn 2*

187. Mae'r costau a gysylltir ag opsiwn 2 yn ymwneud â pharatoi fersiwn Gymraeg o Atodlen 1. Cwnsleriaid Deddfwriaethol ac ieithyddion cyfraith Llywodraeth Cymru fyddai'n drafftio ac yn cyfieithu hon ac fel y cyfryw ni fyddai hyn yn golygu ond costau cyfle a gâi eu hymgorffori yn nhrefn arferol y busnes ac ni fyddai'n arwain at gostau ariannol ychwanegol.

188. Byddai angen dod o hyd i gyfrwng deddfwriaethol addas ar gyfer yr Atodlen wedi'i chyfieithu a phe bai hon yn cael ei mewnosod yn Neddf 1978 byddai angen i Lywodraeth y DU gytuno i hyn a'i hwyluso o dan adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Byddai hyn yn gofyn am arfer rhywfaint o adnodd cyfreithiol a pholisi yn Llywodraeth Cymru (er enghraifft, paratoi dogfennau ategol perthnasol). Unwaith eto byddai'r rhain yn gostau cyfle a gâi eu hymgorffori yn nhrefn arferol y busnes ac ni fyddent yn arwain at gostau ariannol ychwanegol.

189. Pe bai Deddf 1978 yn cael ei diwygio, byddai costau'n gysylltiedig â rhoi gwybod i bartïon â buddiant am y ddeddfwriaeth wedi'i chyfieithu, a ble a phryd y byddai'n gymwys. Mae'n debygol y byddai hyn ar ffurf gosod gwybodaeth ar wefan Cyfraith Cymru, gwefan Llywodraeth Cymru ac e-bost at randdeiliaid allweddol.

*Manteision opsiwn 2*

190. Byddai opsiwn 2 yn mynd i'r afael â diffyg fersiwn Gymraeg gyfatebol o Atodlen 1 i Ddeddf 1978.

191. Nododd rhanddeiliaid a oedd yn rhan o ymgynghoriad polisi Llywodraeth Cymru eu bod o blaid fersiwn Gymraeg o Atodlen 1 i Ddeddf 1978. [32] Byddai creu cyfieithiad o'r fath yn datrys diffyg allweddol mewn perthynas â dehongli unrhyw ddeddfwriaeth Gymraeg y mae Deddf 1978 yn gymwys iddi a byddai – i ryw raddau – yn cyfrannu at wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Er hynny, cydnabyddir bod cyfyngiadau i'r ddadl hon gan fod rhai o'r diffiniadau yn Neddf 1978 yn croesgyfeirio at Ddeddfau eraill sydd ar gael yn Saesneg yn unig, ac ni fyddai'n darparu i'r rheolau yng nghorff Deddf 1978 (sydd hefyd yn bwysig) fod ar gael yn ddwyieithog.

*Casgliad*

192. O dan yr opsiwn hwn byddai rhai o'r diffygion a'r nodweddion annigonol a nodwyd yn y fframwaith deddfwriaethol presennol, yn enwedig mewn cyd-destun Cymreig yn parhau. Camau gweithredu rhannol yn unig a fyddai'n cael eu cymryd i sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol i hygyrchedd y gyfraith ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru. O'r herwydd, nid dyma'r opsiwn a ffefrir.

***Opsiwn 3 – Datblygu darpariaethau dehongli pwrpasol i Gymru***

193. Opsiwn 3 yw datblygu darpariaethau dehongli dwyieithog a modern newydd i fod yn gymwys i gyfraith Cymru. Hwn yw'r opsiwn a gyflwynir gan Rannau 2 a 3 o'r Bil. Yn y cyd-destun hwn, ystyr “Cyfraith Cymru” yw:

   a. holl Ddeddfau'r Cynulliad;
   b. yr holl is-ddeddfwriaeth a wneir yn unig gan Weinidogion Cymru neu awdurdod datganoledig Cymreig arall ac sy'n gymwys yn unig mewn perthynas â Chymru; a

[32] Llywodraeth Cymru (2017) *Dehongli deddfwriaeth Cymru: Ystyried Deddf ddehongli i Gymru*

c. yr holl is-ddeddfwriaeth arall a wneir o dan Ddeddf gan y Cynulliad neu Fesur gan y Cynulliad

lle y mae'r ddeddfwriaeth honno'n cael y Cydsyniad Brenhinol (neu'n cael ei gwneud) ar y diwrnod y deuai Rhan 2 o'r Bil i rym neu ar ôl hynny.

194. Byddai'r Bil, o'i deddfu, nid yn unig yn mynd i'r afael â'r diffyg yn y Gymraeg o ddiffiniadau o eiriau ac ymadroddion cyffredin a nodir yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, ond byddai hefyd yn cynnwys rheolau ehangach ar ddehongli a gweithredu'r gyfraith sy'n debyg i'r rhai yn Neddf 1978. Câi'r rheolau hyn eu teilwra i ddeddfwriaeth Cymru a byddent yn cyfrannu at wella hygyrchedd cyfreithiau Cymru.

195. Mae rhanddeiliaid yn awyddus i Lywodraeth Cymru wneud rhywbeth am ddiffyg darpariaeth Gymraeg yn Neddf 1978 ac i lawer mae hyn yn ymestyn i ddatblygu rheolau pwrpasol a modern ar ddehongli i Gymru.

196. Yn ôl y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol roedd yna *'werth mewn llunio Deddf Dehongli ar wahân i Gymru er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o ddeddfau Cymru'*, tra nododd Comisiwn y Gyfraith ddiffyg darpariaeth ynghylch dehongli deddfwriaeth yn Gymraeg.[33][34] Byddai opsiwn 3 yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan a materion a godwyd gan y Pwyllgor a'r Comisiwn.

197. Mae rhaglen y Cwnsler Cyffredinol o gydgrynhoi, codeiddio a chyhoeddi deddfwriaeth mewn ffordd well yn ceisio gwella hygyrchedd y Gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru. Fel rhan fach o'r rhaglen ehangach honno, byddai'r dewis hwn yn gwneud gwelliannau i'r gwaith o ddehongli cyfraith Cymru ac mae ei angen i ddatrys y diffygion a nodwyd yn Neddf 1978, yn enwedig fel y mae'n gymwys i'r gyfraith ddwyieithog yng Nghymru.

198. Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn y dylai Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru - aros yn debyg i raddau helaeth - i Ddeddf 1978 ac atgynhyrchu effaith llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf honno. Cydnabu Llywodraeth Cymru'r pwynt hwn yn yr ymgynghoriad polisi: mae'n bwysig nid lleiaf am fod Deddf 1978 yn mynd i'r afael yn ddigonol â llawer o'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy mewn unrhyw Ddeddf ddehongli. Hefyd, oherwydd y posibilrwydd o ddryswch sy'n deillio o fodolaeth y deddfau, ddim ond pan fydd angen y dylid mynd ati i wyro oddi wrth effaith Deddf 1978, neu ychwanegu ati.

[33] Pwyllgor Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pedwerydd Cynulliad) (2015), *Deddfu yng Nghymru*
[34] Comisiwn y Gyfraith (2016), *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*

199. Wedi dweud hynny, byddai darpariaeth ddehongli bwrpasol newydd i Gymru yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r dehongliad o ddeddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, gan deilwra'r ddeddfwriaeth i anghenion penodol awdurdodaeth ddwyieithog sy'n dod i'r amlwg.

*Dwy Ddeddf*

200. Er hynny, nid yw meddu ar ddwy Ddeddf yn ein barn ni yn negyddu manteision cael Deddf ar wahân ar gyfer Cymru, yn enwedig mewn cyd-destun lle mae angen cydnabyddedig i Ddeddf ddehongli ddwyieithog fod yn gymwys i'r gyfraith ddwyieithog a wneir yng Nghymru. Gellid dweud bod meddu ar ddwy Ddeddf yn deillio'n anochel, ym mhob un o fodelau datganoli presennol y DU, o gael Deddf ddehongli ‘ddatganoledig’ ar waith ochr yn ochr â Deddf 1978. Mae mater tebyg yn codi yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, y mae gan y ddwy ohonynt eu Deddfau dehongli eu hunain, ac nid oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi achosi unrhyw broblemau penodol yn y naill awdurdodaeth neu'r llall. (Mae'r ffaith nad oes awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru o berthnasedd cyfyngedig i'r mater hwn gan fod y darpariaethau dehongli'n gymwys i'r corff o gyfraith sy'n cael ei greu gan y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth – rhywbeth sy'n bodoli yng Nghymru er gwaethaf yr awdurdodaeth ar y cyd).

*Costau opsiwn 3*

*Dwy Ddeddf*

201. Bydd yn bwysig lleddfu'r posibilrwydd o ddryswch sy'n deillio o feddu ar ddwy Ddeddf yn ymwneud â dehongli'r gyfraith sy'n gymwys i Gymru. Yn arbennig, lle mae amwysedd o'r fath yn codi, mae angen rhoi ystyriaeth i'r effaith ar ddau brif gategori o berson:

a. unigolion sy'n dehongli'r gyfraith (neu'r rhai sy'n eu cynrychioli); a
b. y rhai sy'n drafftio Deddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddfau a Mesurau'r Cynulliad (i sicrhau eu bod yn cymryd y rheolau a'r termau dehongli cywir i ystyriaeth).

202. Y bwriad yw y câi'r rhai sy'n drafftio deddfwriaeth ganllawiau clir yn nodi'r ffordd y mae'r ddwy Ddeddf yn gymwys, a gwybodaeth berthnasol arall at ddibenion paratoi is-ddeddfwriaeth er mwyn lliniaru unrhyw effaith negyddol yn sgil bodolaeth y ddwy Ddeddf. Mae'n anodd meintioli costau ymgynefino'n gyffredinol ag unrhyw Ddeddf newydd, ond yn yr achos arbennig hwn mae'n rhesymol, yn ôl pob tebyg, ei ystyried yn rhan o'r gwaith o ddydd i ddydd.

203. Byddai Nodiadau Esboniadol i'r Ddeddf derfynol hefyd yn cynorthwyo'r dinesydd a'r rhai sy'n eu cynrychioli i ddeall pa Ddeddf ddehongli sy'n gymwys i'r

ddeddfwriaeth y maent yn ei darllen ac yn helpu i hybu hygyrchedd y gyfraith. Byddai gwybodaeth ar gael hefyd ar wefan Cyfraith Cymru/Law Wales, gwefan Llywodraeth Cymru, ac i ymarferwyr, ysgolion cyfraith, canolfannau cyngor cyfreithiol ac unrhyw bartïon eraill sydd â buddiant.

204. Ymhellach, er y gallai rhywfaint o ddryswch godi ar y dechrau ystyrir y byddai hyn yn cael ei ddatrys wrth i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth newydd ddod yn fwy cyfarwydd â'r ffordd y mae'n gweithredu, yn enwedig ei pherthynas â Deddf 1978. Byddai bodolaeth y Ddeddf newydd yn benodol i Gymru hefyd yn codi proffil Deddfau dehongli a'r ddealltwriaeth ohonynt a dealltwriaeth o Ddeddfau dehongli a'u diben yn gyffredinol, a fyddai'n lleddfu ymhellach ar y risg o ddryswch.

*Costau trosiannol*

205. Rydym wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer gweithredu, sy'n arwain at rai costau:

a. *Paratoi a darparu canllawiau* – I gefnogi rhoi'r Bil ar waith, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu datblygu a chyhoeddi canllawiau anstatudol i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth. Llywodraeth Cymru fyddai'n ysgwyddo'r gost.

   Câi'r canllawiau eu paratoi i gyd-fynd â dyfodiad i rym y darpariaethau dehongli (bwriedir mai ar 1 Ionawr 2020 y bydd hyn) gan Lywodraeth Cymru (yn bennaf gyda chyfraniad gan gyfreithwyr eraill sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth). Câi'r gweithgarwch a'r gost a fyddai'n deillio ohono eu hymgorffori yn nhrefn arferol y busnes(cost un-tro sy'n codi yn 2019/2020). Câi'r canllawiau eu cyhoeddi ar-lein yn unig ac felly ni fyddai unrhyw gostau'n deillio o gyhoeddi ar ffurf brint.

b. *Hysbysu'r rhai sy'n gweinyddu'r gyfraith am y newidiadau* – Cydnabyddir y bydd angen i ddrafftwyr Llywodraeth Cymru, awdurdodau Cymreig eraill sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth ac ysgolion cyfraith yng Nghymru gael gwybod am y newidiadau (mewn perthynas â dehongli statudol) a fydd yn deillio o'r Bil os caiff ei ddeddfu.

   Rydym yn bwriadu rhybuddio Cymdeithas y Cyfreithwyr, Cyngor y Bar, a CILEX am y ddeddfwriaeth newydd, a'u gwahodd i hysbysu eu haelodau. Byddem yn rhoi dolenni iddynt at wybodaeth bellach am y Ddeddf newydd a ddelir ar wefan Cyfraith Cymru, gan gynnwys y canllawiau anstatudol i'r rhai sy'n drafftio is-ddeddfwriaeth a grybwyllir uchod.

Byddwn yn rhoi gwybodaeth debyg i Gyd-bwyllgor Hyfforddiant Cymru y Coleg Barnwrol (ar gyfer aelodau'r farnwriaeth a'r tribiwnlys), penaethiaid yr ysgolion cyfraith yng Nghymru, a phartïon eraill sydd â buddiant.

Mae'n bosibl y bydd cyrff megis Cymdeithas y Cyfreithwyr neu Gyngor y Bar yn dewis darparu hyfforddiant neu wybodaeth arall ar y ddeddfwriaeth newydd i'w haelodau. Hyd yn hyn nid ydym wedi cael ein hysbysu gan ymatebwyr i'm hymgyngoriadau blaenorol mai hwn fyddai'r dull gweithredu a ddefnyddid. Am y rheswm hwn mae'n anodd meintioli'r costau hynny, ond byddem yn amcangyfrif y byddai unrhyw gost yn niwtral o ran costau (yn yr ystyr y byddem yn disgwyl i unrhyw hyfforddiant o'r fath gael ei wneud o bryd i'w gilydd beth bynnag.

Câi sesiynau gwybodaeth eu darparu'n fewnol yn Llywodraeth Cymru. Cost cyfle fyddai hon – er enghraifft, cost sesiynau hyfforddi un awr sy'n cael eu trefnu gan a thros swyddogion sy'n gweithio ar ddeddfwriaeth.

*Costau rheolaidd*

206. Nid ydym yn rhag-weld y bydd costau rheolaidd o dan opsiwn 3, gan y byddai'r angen i ymgynefino â'r trefniadau newydd yn codi yn y flwyddyn gyntaf ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol, os câi ei basio gan y Cynulliad.

207. Byddai gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch trwy weithredu opsiwn 3 yn y blynyddoedd i ddod yn niwtral o ran cost ar y gwaethaf, ond dylai arwain at arbediad o ran cost pan fydd ymgynefindra â'r ddeddfwriaeth newydd, gliriach yn cynyddu. Nid oes modd meintioli'r arbedion hynny mewn termau ariannol ac maent felly'n anhysbys.

*Manteision opsiwn 3*

208. Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at ddeddfwriaeth fodern, ddwyieithog ynghylch dehongli, a honno'n bwrpasol i Gymru. Byddai'n gwella ar Ddeddf 1978 - nid yn unig am y byddai'n fodern ac yn ddwyieithog ond hefyd am na fyddai'r Bil, yn wahanol i Ddeddf 1978, ond yn cynnwys darpariaeth sy'n berthnasol i'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (ac nid y gyfraith sy'n gymwys mewn mannau eraill yn y DU).

209. Er y byddai'r Bil yn dechnegol ei natur, byddai'n helpu i gadw deddfwriaeth yn fyrrach ac yn fwy cyson; byddai'n lleihau cymhlethdod wrth ddrafftio a dehongli deddfwriaeth gan nodi rhai egwyddorion, rheolau a diffiniadau unwaith ac yn ddwyieithog fel nad oes angen eu hailadrodd ym mhob cyfraith newydd a wneir. Mae'r Bil, fel sy'n wir yn achos Deddfau Dehongli eraill, yn diffinio ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin mewn deddfwriaeth. Gall hyn helpu i ddatrys

ansicrwydd ynghylch ystyr darpariaethau deddfwriaethol penodol. Mae hefyd yn cynnwys rheolau dehongli statudol, megis darpariaethau ynghylch pryd y bydd cyfreithiau yn dod i rym, cyfrifo cyfnodau amser, ac effeithiau diddymu, y mae pob un yn rhoi sicrwydd cyfreithiol.  Er mai newidiadau mân a thechnegol yw'r rhain ac yn elfen fach yn unig o raglen ehangach Llywodraeth Cymru ar hygyrchedd cyfraith Cymru, maent yn fanteisiol, serch hynny, ac yn cael eu cefnogi gan y mwyafrif o randdeiliaid.

210. Byddai'r rhai sy'n defnyddio'r corff cynyddol o gyfreithiau Cymru yn elwa ar ddeddfwriaeth dehongli statudol sy'n cael ei chreu yn benodol i Gymru sy'n ddwyieithog. Byddai budd cyfansoddiadol Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn sylweddol. Mae'n fwy cyson â'r egwyddor[35]bod i destunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth statws cyfartal na'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

211. Cydnabyddwn y byddai dwy Ddeddf ddehongli ar waith, o reidrwydd, o dan yr opsiwn hwn. Er hynny, rydym o'r farn y byddai manteision creu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli yn benodol ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn drech nag unrhyw anfanteision posibl sy'n deillio o feddu ar  ddwy Ddeddf.

### ***Casgliad (a'r opsiwn a*** **ffefrir)**

212. Mae Cymru wedi datblygu corff o ddeddfwriaeth ddwyieithog a fydd yn parhau i ehangu yn y dyfodol. Mae'n bwysig bod yr arf dehongli statudol a ddefnyddir i ddehongli'r ddeddfwriaeth ddwyieithog sy'n gymwys yng Nghymru yn addas i'w ddiben, yn ddwyieithog ac yn adlewyrchu arferion y Cynulliad Cenedlaethol fel deddfwrfa fodern. Mae rhanddeiliaid wedi'i gwneud yn glir nad yw Deddf 1978 yn addas i'r diben.

213. Rydym bellach o'r farn mai'r ffordd orau o sicrhau unrhyw ddiwygio ar y gyfraith sy'n llywodraethu'r gwaith o ddehongli deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru fyddai trwy Ddeddf newydd ar wahân ar gyfer Cymru.

214. Mae manteision posibl datblygu Deddf ar wahân sy'n gwneud darpariaethau dehongli ar gyfer dehongli cyfraith Cymru yn drech na'r costau ac yn enwedig y pryderon a godwyd gan randdeiliaid mewn perthynas ag anfanteision posibl cael dwy Ddeddf ddehongli ar waith yng Nghymru.

215. Am y rhesymau hyn, opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir.

---

[35] Gweler adran 156 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac adran 5 o'r Bil

## Adolygiad ôl-weithredu

216. O dan Ran I o'r Bil caiff effeithiolrwydd y rhaglenni a gaiff eu datblygu a'u cyflwyno o dan y Rhan honno ei werthuso, a byddai adroddiadau blynyddol ar y cynnydd a wneir o dan  bob rhaglen. Mae'n ofynnol hefyd i'r Cwnsler Cyffredinol adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru yn gyson o dan y Rhan honno a bydd hyn yn cynnwys adolygu effeithiolrwydd Rhannau 2 a 3 o'r Bil hefyd.

217. Bydd y llywodraeth yn adolygu effeithiolrwydd y Bil ei hun fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a ddisgwylir hanner ffordd trwy'r rhaglen gyntaf i'w chyflwyno o dan Ran 1; yr adroddiad i'w wneud yn 2023. Bwriedir i ran o'r adolygiad gynnwys manylion goblygiadau ariannol ac adnoddau darparu'r rhaglen gyntaf a fydd yn anelu at wella hygyrchedd cyfraith Cymru, a chostau eraill sy'n codi wrth roi'r Ddeddf ar waith.

218. Rydym hefyd yn nodi barn Comisiwn y Gyfraith a roddwyd i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn ystod ystyriaeth Cyfnod 1 o'r Bil, sef

> *"…oversight of [evaluation of the Bill] by the Assembly [is] very important … And that's something that an Assembly and a Committee such as this ought to be doing."*

Rydym yn cefnogi'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo adolygu'r ddeddfwriaeth ar unrhyw adeg y mae'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny.

## Rhan – asesiadau o effaith penodol

219. Ochr yn ochr â'r RIA mae nifer o asesiadau effaith eraill wedi'u cynnal, a grynhoir isod. Mae copïau o bob un o'r asesiadau hyn ar gais, cysylltwch â: LegislativeCounsel@llyw.cymru

### *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb*

220. Nid oes unrhyw effeithiau, neu mae effeithiau bach yn unig, ar bobl o dan nodweddion gwarchodedig: oedran, anabledd, rhywedd, trawsrywedd, priodas neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd a chred neu ddiffyg cred, neu gyfeiriadedd rhywiol.

221. O safbwynt hil, ni ddisgwylir unrhyw effeithiau, neu effeithiau bach yn unig mewn perthynas â phobl o leiafrifoedd ethnig, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sipsiwn a theithwyr, mudwyr ac eraill. Gallai fod effaith gadarnhaol ar 'darddiad naturiol' gan y credir bod darpariaethau'r Bil yn debygol o fod o fudd i'r rhai y mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, neu'r rhai sydd fel arall am gael mynediad at destunau Cymraeg o gyfraith Cymru a dibynnu arnynt.

222. Yr asesiad o'r Bil mewn perthynas â hawliau dynol yw bod yr effaith yn niwtral.

### *Hawliau'r Plentyn*

223. Wedi adolygu Erthyglau CCUHP, nid yw buddion ac effeithiau'r Bil yn cefnogi nac yn hyrwyddo hawliau plant yn uniongyrchol. Nid ystyrir ychwaith fod effaith andwyol ar hawliau plant.

224. Disgwylir i weithgareddau a wneir o dan y rhaglen o wella hygyrchedd cyfraith Cymru gael effaith gadarnhaol ar blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Disgwylir i'r buddion mewn perthynas â'r Gymraeg (gweler isod) fod o fudd i'r plant hynny, y bobl ifanc a'r teuluoedd hynny sydd wedi'u haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac a allai fod yn fwy cyffyrddus yn darllen yn Gymraeg.

### *Yr effaith ar y Gymraeg*

225. Mae'r asesiad wedi nodi effaith gadarnhaol ar y rhai sydd am ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith cyfraith, er enghraifft gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, y farnwriaeth, academyddion a defnyddwyr llysoedd sydd am gynnal achosion llys drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y Bil yn helpu i wella hygyrchedd, gan gynnwys cyhoeddi, y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae dull dehongli statudol dwyieithog ar gyfer dehongli deddfwriaeth sy'n gymwys

yng Nghymru ac sydd wedi'i theilwra ar gyfer cyd-destun Cymreig, gan adlewyrchu hefyd arferion drafftio presennol y Cynulliad Cenedlaethol, yn un elfen o hyn.

226. Fel y nodwyd yn gynharach yn y Memorandwm Esboniadol, ni fydd bodolaeth Deddf newydd ar wahân ar gyfer Cymru’n golygu na fydd Deddf 1978 yn gymwys mwyach. Felly bydd dehongli'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan ddwy Ddeddf. Penderfynir pa Ddeddf sy’n berthnasol trwy ystyried a yw’r gyfraith wedi'i datganoli a phryd y caiff y ddeddfwriaeth ei gwneud. Mae hyn yn golygu na fydd y rheolau ar gyfer dehongli cyfreithiau dwyieithog a wnaed cyn i'r darpariaethau newydd ddod i rym ar gael yn ddwyieithog (fel sy'n wir ar hyn o bryd). Cydnabyddir y gallai bodolaeth dwy Ddeddf achosi penbleth ond mae hyn yn un o ganlyniadau anorfod mynd i'r afael â'r mater ar gyfer y dyfodol.

***Asesiad o’r effaith ar gyfiawnder***

227. Mae effeithiau posibl y cynigion ar y system gyfiawnder wedi'u hystyried, gan gynnwys ar:

a. y llysoedd (troseddol a sifil);
b. tribiwnlysoedd heb eu datganoli;
c. tribiwnlysoedd datganoledig;
d. cymorth cyfreithiol;
e. y farnwriaeth;
f. cyrff erlyn; a
g. carchardai, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau prawf.

Mae'r ystyriaeth hon wedi llywio asesiad nad yw'n debygol y caiff y Bil unrhyw effaith ar y system gyfiawnder.

***Asesu'r gystadleuaeth***

228. Ni ragwelir bod effeithiau ar gwblhau yn deillio o'r ddeddfwriaeth hon. Mae'r tabl isod yn nodi casgliadau prawf hidlo'r gystadleuaeth.

*Tabl 8 – Prawf hidlo'r gystadleuaeth*

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Rhowch √ neu X** |
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni dros 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Rhowch √ neu X** |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o dros 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliadau newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran sydd o leiaf 50% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C4:** A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau lawer iawn mwy nag eraill? | Na fyddent |
| **C5:** A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau? | Nac ydy |
| **C6:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | Na fyddai |
| **C7:** A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hwynebu? | Na fyddai |
| **C8:** A oes newidiadau technolegol ar raddfa fawr yn digwydd o fewn y sector? | Nac oes |
| **C9:** A fyddai'r rheoliadau'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynnyrch? | Na fyddent |

*Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol*

# Atodiad A – Cymharu â Deddf Dehongli 1978

Mae'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil ac Atodlen 1 iddo'n adlewyrchu rheolau dehongli statudol sy'n berthnasol ac yn gymwys ar gyfer deddfwriaeth Cymru ym marn y Llywodraeth. Mewn llawer o achosion maent yn ystyried darpariaethau tebyg yn Neddf Dehongli 1978, ond gan nad yw'r Ddeddf honno yn cael ei chydgrynhoi na'i hailddatgan yn y Bil hwn, nid yw'n gywir disgrifio'r darpariaethau fel rhai sydd 'yn deillio o' Ddeddf 1978.

Yn hytrach, mae'r tabl isod yn darparu cymhariaeth fer, er gwybodaeth, rhwng rheolau a darpariaethau yn Neddf 1978 â'r rhai yn Rhan 2 o'r Bil.

| **Rheol neu ddarpariaeth** | **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** | **Deddf Dehongli 1978** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| Deddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi | Adran 3 | Adrannau 22, 23 a 23B | Gweler paragraffau 46 i 54 o Ran 46 o'r Memorandwm Esboniadol i gael rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth y mae'r Bil yn gymwys iddi |
| "Bwriad i'r gwrthwyneb" | Adran 4 | Amrywiol | Mae pob un o'r rheolau dehongli yn Neddf 1978 yn gwneud darpariaeth benodol ynghylch bwriad i'r gwrthwyneb fel sy'n berthnasol i'r rheol.<br>Mae'r Bil yn arddel dull gweithredu tebyg i'r dull yn Neddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 ac yn gyffredinol mae'n ymdrin â'r mater mewn un lle. |
| Statws cyfartal i'r testunau Cymraeg a Saesneg | Adran 5 | - | Yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 |
| Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir mewn deddfwriaeth | Adran 6 ac Atodlen 1 | Adran 5 ac Atodlen 1 | |
| Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog | Adran 7 | Adran 6(c) | |
| Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw | Adran 8 | Adran 6(a) a (b) | |

| **Rheol neu ddarpariaeth** | **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** | **Deddf Dehongli 1978** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc. | Adran 9 | - | Ceir darpariaeth debyg yn Neddf Dehongli Canada (adran 3393), RSC 1985) a Deddf Dehongli ac Ordinhad Cymalau Cyffredinol Hong Kong (adran 5) |
| Cyfeiriadau at amser o’r dydd | Adran 10 | Adran 9 | |
| Cyfeiriadau at y Sofren | Adran 11 | Adran 10 | |
| Mesur pellter | Adran 12 | Adran 8 | |
| Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig, a'r diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno | Adrannau 13 a 14 | Adran 7 | Mae adran 13 ac adran 14 yn cyfateb i adran 7 o Ddeddf 1978 ond yn mynd ymhellach drwy ddarparu hefyd ar gyfer cyflwyno dogfennau gan ddefnyddio cyfathrebu electronig |
| Parhad pwerau a dyletswyddau | Adran 15 | Adran 12 | |
| Arfer pŵer neu gyflawni dyletswydd nad yw mewn grym | Adran 16 | Adran 13 | Nid yw adran 13 o Ddeddf 1978 yn ymdrin â'r holl faterion y mae adran 16 o'r Bil yn eu cwmpasu. |
| Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth | Adran 17 | Adran 14A | |
| Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth | Adran 18 | Adran 14 | Mae adran 18 o'r Bil yn wahanol i adran 14 mewn rhai ffyrdd |
| Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf gan y Cynulliad | Adran 19 | - | Mae cymal 41 o'r Bil Deddfwriaeth sydd gerbron Senedd Seland Newydd yn gwneud darpariaeth debyg |
| Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl | Adran 20 | - | |
| Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau | Adran 21 | Adran 20(1) | Mae Adran 21 o'r Bil yn ymdrin â chyfeiriadau at ystod ehangach o ddogfennau na Deddf 1978. |
| Argraffiadau o Ddeddfau'r Cynulliad neu Ddeddfau | Adrannau 22 a 23 | Adran 19(1) | |

| **Rheol neu ddarpariaeth** | **Bil Deddfwriaeth (Cymru)** | **Deddf Dehongli 1978** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt | | | |
| Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau'n gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd | Adran 24 | Adran 20(2) | Mae Adran 24 o'r Bil yn ei gwneud yn glir bod cyfeiriadau at ddeddfwriaeth arall yn “newidiadwy”<br>Noder hefyd adran 14 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (yr Alban) 2010 |
| Cyfeiriadau at offerynnau’r UE | Adran 25 | Adran 20A | |
| Troseddau dyblyg | Adran 26 | Adran 18 | Noder, fodd bynnag, fod adran 18 o Ddeddf 1978 yn parhau'n berthnasol pan fo gweithred hefyd yn drosedd o dan ddeddfwriaeth ar wahân i Ddeddf gan y Cynulliad, neu'n ychwanegol iddi. |
| Cymhwyso deddfwriaeth Cymru i’r Goron | Adran 27 | - | Gwneir darpariaeth ar gymhwyso i'r Goron hefyd yn adran 20 o Ddeddf Dehongli a Diwygio Deddfwriaethol (Yr Alban) 2010 |
| Yr amser pan ddaw deddfwriaeth Cymru i rym | Adran 28 | Adran 4(a) | |
| Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym | Adran 29 | Adran 4(b) | |
| Gorchmynion a rheoliadau sy’n dwyn Deddfau’r Cynulliad i rym | Adran 30 | - | |
| Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Cymru neu gan ddeddfwriaeth Cymru | Adran 31 | - | Mae cymal 29 o'r Bil Deddfwriaeth sydd gerbron Senedd Seland Newydd yn gwneud darpariaeth debyg |
| Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a ddiddymwyd, a ddi-rymwyd neu a ddilëwyd eisoes | Adran 32 | Adran 15 | Ymhlith materion eraill mae adran 32 o'r Bil yn gymwys i ddiddymu darpariaeth a ddileodd rheol y gyfraith gyffredin |
| Arbedion cyffredinol mewn cysylltiad â diddymiadau a dirymiadau | Adran 33 | Adran 16 | |

| Rheol neu ddarpariaeth | Bil Deddfwriaeth (Cymru) | Deddf Dehongli 1978 | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Effaith ailddeddfu | Adran 34 | Adran 17(2) | |
| Cyfeirio at Ddeddf gan y Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu | Adran 35 | Adran 19(2) | |
| Ystyr diddymu a dirymu yn y Rhan hon | Adran 36 | - | Mae adran 36(2)(b) o'r Bil yn cyfateb i adran 16(2) o Ddeddf 1978 |

Nid yw rhai o'r rheolau yn Neddf 1978 yn ymddangos yn y Bil, yn benodol:

- adrannau 1 a 2 gan nad ystyrir bod y rhain yn angenrheidiol;
- adran 3 gan y darperir ar gyfer hon yn adran 107(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- adran 11 – gweler paragraffau 56 i 60 yn Rhan 1 o'r Memorandwm Esboniadol;
- adran 17(1) gan nad ystyrir bod hon yn angenrheidiol.

## Atodiad B – Nodiadau Esboniadol i'r Bil Deddfwriaeth (Cymru)

# BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU)

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Deddfwriaeth (Cymru) a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Rhagfyr 2018, ac a ddiwygiwyd yn nhrafodion Cyfnod 2 ar 25 Mai 2019. Fe'u lluniwyd gan Swyddfa Cwnsleriaid Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono.

2. Ni fwriedir i'r Nodiadau Esboniadol fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o gynnwys y Bil. Os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar ddarpariaeth unigol yn y Bil, nis rhoddir.

### CRYNODEB A CHEFNDIR

3. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru:

   a. Mae Rhan 1 yn gosod dyletswyddau ar Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â hygyrchedd cyfraith Cymru.

   b. Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch dehongli a gweithredu'r Bil ei hun a deddfwriaeth Cymru a ddeddfir ar ôl i Ran 2 ddod i rym.

   c. Mae Rhan 3 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau yn neddfwriaeth Cymru ac i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol, ac mae'n darparu ar gyfer cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

   d. Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall a darpariaeth ynghylch pryd a sut y daw'r Bil i rym.

4. Mae'r Bil yn rhan o raglen ehangach Llywodraeth Cymru o wella hygyrchedd cyfraith Cymru ac egluro a symleiddio gweithrediad deddfwriaeth Cymru.

5. Mae nifer o ymchwiliadau ac ymgynghoriadau yn gefndir i'r Bil.

6. Yn ei adroddiad *Deddfu yng Nghymru* (Hydref 2015), gwnaeth Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o argymhellion a oedd yn ymwneud ag ansawdd deddfwriaeth, ei llunio a chraffu arni. Yn benodol, argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn datblygu cynllun hirdymor ar gyfer cydgrynhoi deddfau Cymru, a bod y Cwnsler Cyffredinol yn gweithio tuag at lunio Deddf Dehongli ar wahân i Gymru.

7. Yn ei adroddiad *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* (Comisiwn y Gyfraith Rhif 336, Mehefin 2016), argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn polisi o gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith yng Nghymru. Gwnaeth nifer o argymhellion a oedd yn ymwneud â'r broses o gydgrynhoi a chodeiddio, gan gynnwys y dylai fod yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol gyflwyno rhaglen godeiddio ac adrodd ar gynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

8. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith hefyd fod Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried, ac yn adolygu'n gyson, y manteision ymarferol o gyflwyno Deddf Dehongli i Gymru, a gwnaeth argymhellion pellach a oedd yn ymwneud ag ansawdd deddfwriaeth, ei chyhoeddi a'i hargaeledd.

9. Wedi hynny, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori *Dehongli deddfwriaeth Cymru*: *Ystyried Deddf ddehongli i Gymru (*WG 32209, Mehefin 2017), a oedd yn ceisio barn ar fanteision cael Deddf Dehongli ar wahân i Gymru ac ar ddull gweithredu Deddf o'r fath. Ar ôl hyn, cynhaliwyd ail ymgynghoriad, *Bil Deddfwriaeth (Cymru) Drafft* (WG 34368, Mawrth 2018) a oedd yn cynnwys Bil drafft ac yn ceisio barn ar y dull gweithredu a nodwyd yn y drafft. Ystyriwyd yr ymatebion i'r ddau ymgynghoriad wrth ddatblygu'r Bil i'w gyflwyno.

## SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### *Rhan 1: Hygyrchedd cyfraith Cymru*

### Adran 1 – Dyletswydd i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad

10. Er mwyn llywio'r broses o wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, mae adran 1(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddog y Gyfraith ar gyfer Cymru, y Cwnsler Cyffredinol, gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad. Mae'r Cwnsler Cyffredinol yn aelod o Lywodraeth Cymru, a benodir gan Ei Mawrhydi ar argymhelliad y Prif Weinidog o dan adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[36].

11. Mae'r ddyletswydd yn adran 1(1) yn debyg i'r rhwymedigaeth ar Gomisiwn y Gyfraith i gadw'r gyfraith o dan adolygiad o dan adran 3(1) o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965[37] a bwriedir iddi ategu'r rhwymedigaeth honno (yn hytrach na'i disodli). Mae'n ei gwneud yn ofynnol canolbwyntio ar y gyfraith ar y cyd, boed hynny'n ymwneud â'r gyfraith ar bwnc penodol a'r llyfr statud yn ei gyfanrwydd.

[36] Government of Wales Act 2006.
[37] Law Commissions Act 1965.

Mae hefyd yn golygu y bydd rhwymedigaeth y Cwnsler Cyffredinol i gadw hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adolygiad yn berthnasol pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried pa un ai i gynnig deddfwriaeth newydd. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, dylid ystyried sut y gallai'r dull o fynd ati i ddeddfu effeithio ar hygyrchedd y gyfraith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y byddai rhaid i Weinidogion Cymru ddeddfu mewn ffordd benodol mewn unrhyw achos unigol.

12. Diffinnir "cyfraith Cymru" yn adran 1(2) i olygu:

   a. Deddfau a Mesurau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth a wneir odanynt (mewn geiriau eraill, yr holl ddeddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu o dan ei awdurdod),

   b. is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru neu'r hen Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru (mewn geiriau eraill, unrhyw ddeddfwriaeth arall a wneir gan y llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru), ac

   c. unrhyw ddeddfiad arall neu unrhyw reol gyfreithiol arall i'r graddau y mae'n gymwys o ran Cymru ac y mae'n ymwneud â phwnc y gallai Deddf Cynulliad (hynny yw, Deddf a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 4 o ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) wneud darpariaeth ar ei gyfer (mewn geiriau eraill, deddfwriaeth arall neu reolau eraill y gyfraith gyffredin a allai gael eu diwygio neu eu hailddeddfu gan y Cynulliad Cenedlaethol).

13. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys diffiniadau o amrywiol dermau a ddefnyddir yn adran 1(2), gan gynnwys "Cymru", "deddfiad" ac "is-ddeddfwriaeth".

**Adran 2 – Rhaglen i wella hygyrchedd cyfraith Cymru**

14. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddatblygu rhaglen weithredu sydd wedi ei chynllunio i wella hygyrchedd cyfraith Cymru ar gyfer pob un o dymhorau'r Cynulliad sy'n dechrau ar ôl i'r adran ddod i rym. Ystyr un o dymhorau'r Cynulliad yw'r cyfnod o ffurfio Cynulliad ar ôl etholiad cyffredinol yng Nghymru hyd at ei ddiddymu cyn yr etholiad cyffredinol dilynol.

15. Er mai mater i Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol fydd penderfynu ar gynnwys penodol rhaglen, mae adran 2(3) yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen wneud darpariaeth ar gyfer mesurau y bwriedir iddynt gydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, cynnal cyfraith wedi ei chodeiddio, hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

16. Mae cydgrynhoi'r gyfraith yn gyffredinol yn golygu dod â'r holl ddeddfwriaeth ar bwnc penodol ynghyd, ymgorffori'n well ddiwygiadau sydd wedi eu gwneud i ddeddfwriaeth ar ôl iddi gael ei deddfu a moderneiddio'r iaith, yr arddull ddrafftio a'r strwythur. Dim ond mân ddiwygiadau, os oes unrhyw ddiwygiadau o gwbl, y mae hyn yn eu golygu i sylwedd y gyfraith a gydgrynhoir. Yng Nghymru, bydd cydgrynhoi'r gyfraith yn golygu gan amlaf ailddeddfu cyfreithiau a wnaed gan Senedd y Deyrnas Unedig yn flaenorol, a gwneud hyn yn ddwyieithog.

17. Bwriedir i godeiddio'r gyfraith ddod â threfn i'r llyfr statud. Mae hyn yn golygu trefnu a chyhoeddi'r gyfraith drwy gyfeirio at ei chynnwys (yn hytrach na dim ond pryd y'i gwnaed), a chynnal system y mae'r gyfraith honno yn cadw ei strwythur odani, yn hytrach nag amlhau. Yn gyffredinol, byddai "Cod" o gyfraith Cymru yn cael ei gyhoeddi unwaith bod peth o'r ddeddfwriaeth sylfaenol neu'r holl ddeddfwriaeth sylfaenol ar bwnc penodol (gan ystyried cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol) wedi ei chydgrynhoi, neu wedi ei chreu o'r newydd ar ôl ei diwygio'n helaeth. Fel arfer, dylai proses o resymoli is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y ddeddfwriaeth sylfaenol ddigwydd ar y cyd â hyn. Byddai'r hierarchaeth bresennol o fewn offerynnau deddfwriaethol (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, a chanllawiau neu ddogfennau tebyg eraill a wneir o dan y Deddfau neu'r is-ddeddfwriaeth), a'r ffiniau rhyngddynt, yn parhau. Bydd yr holl ddeddfwriaeth o fewn Cod yn cael ei gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

18. Felly, nid un offeryn deddfwriaethol fyddai Cod (yn gyffredinol) ond yn hytrach gasgliad o ddeddfiadau o dan un enw cyffredinol sy'n eu dwyn ynghyd. Byddai'r deddfiadau hynny sy'n rhan o'r Cod ar unrhyw bwnc penodol yn cael eu rhoi ar gael gyda'i gilydd. Yn yr un modd, bydd y deddfiadau hyn yn parhau i fod yn gyfrwng i'r gyfraith gael ei mynegi'n ffurfiol drwyddo. Ni fwriedir i'r Cod fod yn offeryn cyfreithiol ynddo'i hun ond yn hytrach yn ddull o goladu a chyhoeddi'r gyfraith yn fwy effeithiol.

19. Ystyr cyfeiriadau yn adran 2(3) at "codeiddio" y gyfraith, yn gyffredinol, yw codeiddio cyfraith statud (deddfwriaeth). Er y gallai Bil sy'n codeiddio cyfraith statud ymgorffori effaith cyfraith achosion ar ystyr y ddeddfwriaeth sy'n cael ei chydgrynhoi a'i chodeiddio, neu reolau'r gyfraith gyffredin sy'n gysylltiedig yn agos â'r ddeddfwriaeth honno, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu codeiddio'r gyfraith gyffredin yn helaeth.

20. Mae adran 2(3) yn darparu bod rhaid i bob rhaglen hefyd gynnwys cynigion i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gyfraith Cymru. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys codi ymwybyddiaeth o newidiadau sylweddol yn y gyfraith neu o fodolaeth cyfraith Cymru yn fwy cyffredinol.

21. Mae adran 2(3) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob rhaglen gynnwys gweithgareddau y bwriedir iddynt hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bwriedir i hyn gynnwys hwyluso'r iaith yn y gyfraith, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac yn fwy cyffredinol. Agwedd allweddol ar hyn fydd cydgrynhoi'r gyfraith yn ddwyieithog fel bod llawer mwy o'r gyfraith y mae'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdani yn cael ei gwneud yn Gymraeg. Yn yr un modd, bydd gwella trefniadau cyhoeddi a darparu mwy o sylwebaeth ar y gyfraith yn y ddwy iaith yn ei gwneud yn haws defnyddio'r Gymraeg yn y gyfraith ac mewn gweinyddiaeth gyhoeddus yn fwy cyffredinol yng Nghymru. Gallai prosiectau eraill mewn rhaglen yn y dyfodol gynnwys rhoi mwy o eirfâu ar gyfer deddfwriaeth ar gael a mentrau eraill i ddatblygu terminoleg y cytunwyd arni pan fo hyn yn ddefnyddiol.

22. Mae adran 2(5) yn ei gwneud yn ofynnol i raglen gael ei gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o fewn chwe mis i benodi'r Prif Weinidog ar ôl etholiad cyffredinol. Bwriedir i hyn sicrhau y gall pob llywodraeth gael ei dal yn atebol am yr hyn y mae ei rhaglen yn ei gyflawni yn ystod un o dymhorau'r Cynulliad.

23. Er nad yw'n ofynnol i lywodraeth newydd etifeddu rhaglen y llywodraeth flaenorol ar ddechrau un o dymhorau'r Cynulliad, yn ymarferol mae bron yn sicr y bydd prosiectau sy'n rhan o un rhaglen yn parhau hyd nes y bydd y rhaglen nesaf wedi ei llunio a'i gosod, ac nid oes dim byd yn atal prosiectau sy'n rhan o raglen gynharach rhag ymddangos mewn rhaglen ddilynol pan fo'r amserlen ar gyfer cwblhau prosiect o'r fath yn gwneud hynny'n ofynnol. Bydd rhai o'r prosiectau unigol i gydgrynhoi a chodeiddio'r gyfraith ar bwnc yn rhai hirdymor, a gallai gymryd mwy nag un tymor yn y Cynulliad i'w cwblhau.

24. Mae adran 2(7) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cwnsler Cyffredinol lunio adroddiadau blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gynnydd yn erbyn y rhaglen. Gallai adroddiadau o'r fath gael eu gwneud drwy ddatganiad i'r Cynulliad, a fyddai'n galluogi Aelodau'r Cynulliad i ofyn cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol am yr adroddiad.

25. Mae'n bosibl y bydd angen amrywio rhaglen a nodir ar ddechrau tymor yn y Cynulliad yn ystod y tymor hwnnw. Gellid ychwanegu prosiectau newydd, neu efallai ddileu prosiectau presennol pe gwelid nad oeddent yn addas i'w cydgrynhoi yn sgil diwygio deddfwriaethol cysylltiedig. Mae adran 2(6) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ddiwygio rhaglen yn ystod tymor y Cynulliad, ond bod rhaid gosod y rhaglen ddiwygiedig honno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac adrodd arni unwaith eto.

*Rhan 2: Dehongli a gweithredu deddfwriaeth Cymru*

26. Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu deddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu o dan bwerau y mae wedi eu rhoi, ac is-ddeddfwriaeth arall a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill.

27. Y sefyllfa cyn i Ran 2 ddod i rym yw bod Deddf Dehongli 1978[38] ("Deddf 1978") yn llywodraethu'r broses o ddehongli a gweithredu'r mathau hyn o ddeddfwriaeth. Bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i ddeddfwriaeth sydd wedi ei gwneud cyn i Ran 2 ddod i rym. Dim ond i ddeddfwriaeth a wneir ar ôl i Ran 2 ddod i rym (ac i'r Bil ei hun) y bydd Rhan 2 yn gymwys.

28. Bydd Deddf 1978 hefyd yn parhau i fod yn gymwys i rai categorïau cyfyngedig iawn o offeryn a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau Cymreig datganoledig eraill o dan bwerau penodol ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, os yw'r offerynnau hynny hefyd yn cynnwys darpariaethau a wneir gan gyrff nad ydynt yn awdurdodau Cymreig datganoledig neu ddarpariaethau sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

29. Mae Rhan 2 o'r Bil yn dechrau drwy nodi'r ddeddfwriaeth y mae'n gymwys iddi. Mae Rhan 4 o'r Bil yn diwygio Deddf 1978 er mwyn sicrhau nad yw'n gymwys i ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi, ac er mwyn ymdrin â rhywfaint o'r rhyngweithio rhwng deddfwriaeth y mae Deddf 1978 yn gymwys iddi a deddfwriaeth y mae Rhan 2 yn gymwys iddi.

---

[38] Interpretation Act 1978.

30. Bwriedir i'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil gael yr un effaith â'r darpariaethau yn Neddf 1978, hyd yn oed os y'u mynegir mewn termau gwahanol. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau sy'n cael eu nodi a'u disgrifio yn y Nodiadau Esboniadol hyn.

**Adran 3 – Deddfwriaeth y mae'r Rhan hon yn gymwys iddi**

31. Mae adran 3(1) yn nodi'r ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Mae Rhan 2 yn gymwys i'r Bil ei hun, i Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol ar ôl i Ran 2 ddod i rym yn llawn, ac i is-offerynnau Cymreig a wneir ar ôl i Ran 2 ddod i rym yn llawn. Bydd Rhan 2 yn cael ei dwyn i rym yn llawn drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 43(2).

32. Diffinnir "is-offeryn Cymreig" yn adran 3(2) fel offeryn nad yw ond yn cynnwys un neu'r ddau o'r mathau o is-ddeddfwriaeth a ddisgrifir ym mharagraffau (a) a (b). Ni fydd offeryn sy'n cynnwys unrhyw is-ddeddfwriaeth nad yw'n dod o fewn y naill na'r llall o'r paragraffau hynny yn "is-offeryn Cymreig" (ac yn hytrach bydd yn ddarostyngedig i Ddeddf 1978).

33. Yr is-ddeddfwriaeth o fewn paragraff (a) yw unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad (hynny yw, Mesur a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ran 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), ni waeth pwy sy'n ei gwneud. Mae'r paragraff hwn yn cwmpasu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau a roddir gan ddeddfwriaeth sylfaenol a gaiff ei phasio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid yw'n bwysig pryd y deddfwyd y ddeddfwriaeth sylfaenol.

34. Pan fo is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan Ddeddf Cynulliad a ddeddfir ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, bydd Rhan 2 yn gymwys i'r rhiant-Ddeddf ac i'r is-ddeddfwriaeth. Ond pan fo is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan Fesur Cynulliad neu Ddeddf Cynulliad a ddeddfir cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i'r Mesur hwnnw neu'r Ddeddf honno, tra bydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys i'r is-ddeddfwriaeth. Ni fydd dim yn Rhan 2 yn newid ystyr nac effaith y Mesur neu'r Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odano neu odani.

35. Yr is-ddeddfwriaeth o fewn paragraff (b) o'r diffiniad o "is-offeryn Cymreig" yw is-ddeddfwriaeth:

   a. a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrcholUE a ddargedwir,

   b. nas wneir ond gan Weinidogion Cymru neu unrhyw awdurdod Cymreig datganoledig arall, ac

   c. nad yw ond yn gymwys o ran Cymru.

36. Pan fo'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gwneud o dan Ddeddf gan Senedd y DU, bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i'r rhiant-Ddeddf, ond bydd Rhan 2 o'r Bil

yn gymwys i'r is-ddeddfwriaeth. Ni fydd dim yn Rhan 2 yn newid ystyr nac effaith y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odani.

37. Yn yr un modd, bydd Rhan 2 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth benodol a wneir o dan "deddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir" ond ni fydd yn gymwys i'r "deddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir" ei hun. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn diffinio "deddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir" drwy gyfeirio at Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018[39], sy'n darparu i rai mathau o ddeddfwriaeth yr UE (gan gynnwys rheoliadau a phenderfyniadau) gael ei dargadw mewn cyfraith ddomestig ar y "diwrnod ymadael". Mae hefyd yn rhoi pwerau i ddiwygio'r ddeddfwriaeth honno fel ei bod yn cynnwys pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth.

38. Diffinnir y "devolved Welsh authorities" y mae paragraff (b) yn cyfeirio atynt yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n cynnwys yr holl gyrff sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 9A i'r Ddeddf honno. Maent yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyrff datganoledig eraill a chanddynt bwerau i wneud gorchmynion, rheolau, cynlluniau neu is-ddeddfau.

39. Ni fydd offeryn yn "is-offeryn Cymreig" os yw'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir gan berson neu gorff nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig. Felly, nid yw "is-offerynnau Cymreig" yn cynnwys offerynnau a wneir ar y cyd gan Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol, neu offerynnau "cyfansawdd" y mae Gweinidogion Cymru yn deddfu dros Gymru ac y mae Ysgrifennydd Gwladol yn deddfu dros Loegr ynddynt.

40. Ni fydd offeryn yn "is-offeryn Cymreig" os yw'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir ac yn gymwys ac eithrio o ran Cymru. Mae'n bosibl y caiff Deddf gan Senedd y DU roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardal sy'n ymestyn y tu hwnt i ffiniau Cymru, megis y rhan o barth Cymru sydd y tu hwnt i'r môr tiriogaethol. Yn ogystal, mae Rhan 1 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu y caniateir i swyddogaethau gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardaloedd ffin Lloegr a dyfroedd sydd y tu hwnt i ffin atfor y môr tiriogaethol.

### Adran 4 – Effaith darpariaethau'r Rhan hon

41. Mae'r darpariaethau yn Rhan 2 o'r Bil yn darparu cyfres o ragdybiaethau ynghylch yr ystyron a'r effeithiau y bwriedir i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig eu cael. Mae adran 4 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch gweithrediad y rheolau yn Rhan 2 o'r Bil mewn perthynas â Deddf benodol gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig penodol.

42. Hyd yn oed pan fo Rhan 2 yn gymwys i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (h.y. fe'i deddfir ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym), caniateir addasu neu eithrio rhai o'r rheolau yn Rhan 2 mewn perthynas â'r Ddeddf neu'r offeryn. Mae adran 4(1) yn darparu y caiff y rhan fwyaf o'r rheolau yn Rhan 2 effaith mewn perthynas â Deddf neu offeryn ac eithrio i'r graddau "(a) y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei

[39] European Union (Withdrawal) Act 2018.

gwneud i'r gwrthwyneb, neu (b) y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall". Mae hyn yn cyfateb i'r amrywiol ddarpariaethau yn Neddf 1978 sy'n datgan bod y rheolau yn y Ddeddf honno yn gymwys oni bai bod "the contrary intention appears".

43. Mae paragraff (a) yn ymwneud â'r sefyllfa pan geir darpariaeth ddatganedig nad yw unrhyw un neu ragor o'r rheolau yn Rhan 2 o'r Bil yn gymwys i Ddeddf neu offeryn, neu pan fo darpariaeth ddatganedig arall sy'n anghyson ag unrhyw un neu ragor o'r rheolau yn Rhan 2. Er enghraifft, gallai Deddf neu offeryn ddefnyddio term sydd wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i'r Bil, ond rhoi diffiniad gwahanol i'r term. Yn yr achos hwnnw, mae paragraff (a) yn ei gwneud yn glir na fyddai'r diffiniad yn Atodlen 1 i'r Bil yn gymwys.

44. Bydd y ddarpariaeth ddatganedig i'r gwrthwyneb wedi ei chynnwys yn gyffredin yn y Ddeddf benodol gan y Cynulliad sy'n cael ei hystyried neu'r is-offeryn Cymreig penodol sy'n cael ei ystyried, ond gall fod mewn darn arall o ddeddfwriaeth weithiau. Er enghraifft, mae'n bosibl y gallai gweithredu un o'r darpariaethau diofyn yn Rhan 2 mewn perthynas â Deddf benodol neu offeryn penodol gael ei eithrio drwy ddarpariaeth ddatganedig mewn Deddf neu Fesur arall gan y Cynulliad neu mewn Deddf gan Senedd y DU.

45. Mae paragraff (b) yn ymwneud â'r sefyllfa pan fo'r cyd-destun yn ei gwneud yn ofynnol i Ddeddf gael ei dehongli neu i offeryn gael ei ddehongli, neu i effaith gael ei rhoi i Ddeddf neu i offeryn, mewn ffordd wahanol i'r hyn a nodir yn Rhan 2 o'r Bil. Er enghraifft, gall fod achosion pan fo Deddf neu offeryn yn defnyddio term sydd wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i'r Bil heb roi diffiniad arall, ond bod y ffordd y caiff y term ei ddefnyddio, neu ryw agwedd arall ar gyd-destun y Ddeddf neu'r offeryn, yn dangos bod rhaid mai'r bwriad oedd bod i'r term ystyr gwahanol.

46. Mae adran 4(2) yn darparu nad yw'r eithriadau yn adran 4(1) yn gymwys mewn perthynas ag adrannau 5 (statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog), 10 (amser o'r dydd), 27 (cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron) a 32 (adfer cyfraith a ddiddymwyd neu a ddilëwyd eisoes). Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod y sefyllfa yn wahanol ar gyfer pob un o'r adrannau hynny. Yn benodol, mae adrannau 10, 27 a 32 yn darparu mai dim ond gyda geiriau datganedig (ac nid drwy ymhlygu hynny) y gellir eithrio'r rheol o dan sylw.

### Adran 5 – Statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg

47. Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig wedi ei deddfu neu wedi ei ddeddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae adran 5 yn darparu bod i destunau'r ddwy iaith statws cyfartal at bob diben. Ystyr hyn yw mai cynnwys y ddau destun sy'n mynegi'r gyfraith yn llawn ac nid un testun yn unig.

48. Mae'r arfer o ddeddfu'n ddwyieithog i Gymru wedi ei hen sefydlu. Yn benodol, rhaid i Ddeddfau'r Cynulliad gael eu deddfu yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael ei deddfu, bron yn ddieithriad, yn y ddwy iaith[40].

[40] Rhaid i Fil Cynulliad fod yn y ddwy iaith ar adeg ei gyflwyno ac ar adeg ei basio: gweler Rheolau Sefydlog 26.5 a 26.50 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac adran 111(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar gyfer offerynnau statudol a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, mae methu â

49. Ar hyn o bryd, mae adran 156(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu ar gyfer statws cyfartal testunau Cymraeg a Saesneg deddfwriaeth ddwyieithog. Mae adran 5 o'r Bil yn ailddatgan y ddarpariaeth honno, i'r graddau y mae'n gymwys i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt.

50. Yn debyg i adran 156(1) o Ddeddf 2006, mae adran 5 o'r Bil yn gymwys at bob diben ac nid at ddiben dehongli yn unig. Fodd bynnag, mae i statws cyfartal y testunau nifer o oblygiadau ar gyfer dehongli deddfwriaeth ddwyieithog. Ystyriwyd y rhain gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei bapur ymgynghori a'i adroddiad terfynol ar *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru*[41]. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch ystyr mewn darn o ddeddfwriaeth Cymru, mae'n arbennig o bwysig sylweddoli y bydd angen ystyried fersiynau'r ddwy iaith er mwyn penderfynu ar ystyr y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn rhywbeth sy'n effeithio ar bawb sy'n ymwneud â gwneud, gweithredu, gweinyddu a dehongli deddfwriaeth Cymru.

51. Nid yw effaith adran 5 yn ddarostyngedig i'r eithriad yn adran 4(1) o'r Bil. Mewn geiriau eraill, nid yw'r Bil yn darparu bod y rheol yn adran 5 i'w heithrio mewn achosion pan fo darpariaeth wedi ei gwneud i'r gwrthwyneb neu pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae hyn er mwyn sicrhau bod adran 5 yn cael yr un effaith ag adran 156(1) o Ddeddf 2006.

52. Nid yw adran 5 yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf 2006 ond ar gyfer deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Bydd adran 156(1) yn parhau i fod yn gymwys i Fesurau'r Cynulliad, ac i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig nad yw Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt (yn bennaf y rheini sydd wedi eu deddfu cyn i Ran 2 ddod i rym yn llawn). Mae Rhan 4 o'r Bil yn diwygio adran 156(1) o Ddeddf 2006 i osgoi unrhyw orgyffwrdd ag adran 5 o'r Bil.

### Adran 6 ac Atodlen 1 – Diffiniadau o eiriau ac ymadroddion

53. Mae adran 6 yn darparu bod i'r geiriau a'r ymadroddion a nodir yn Atodlen 1 (y mae'n ei chyflwyno) yr ystyr a roddir yn yr Atodlen honno pan gânt eu defnyddio yn Neddfau'r Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt. Y termau sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 1 yw'r rhai y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn neddfwriaeth Cymru ac iddynt fod ag ystyr cyson.

54. Mae Atodlen 1 yn cynnwys diffiniadau o:

a. termau sy'n ymwneud â deddfwriaeth (e.e. "Deddf Cynulliad", "deddfiad" ac "is-ddeddfwriaeth");

b. termau sy'n ymwneud â llywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus (e.e. "Gweinidogion Cymru", "Cyfoeth Naturiol Cymru" a "Gweinidog y Goron");

---

chyflwyno offeryn yn y ddwy iaith yn sail dros ei ddwyn i sylw'r Cynulliad Cenedlaethol: gweler Rheol Sefydlog 21.2(ix).

[41] Gweler Pennod 12 o Bapur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 223 (Gorffennaf 2015), a Phennod 12 o Adroddiad Comisiwn y Gyfraith Rhif 336 (Hydref 2016).

c. termau sy'n ymwneud â throseddau a'r llysoedd (e.e. "trosedd ddiannod", "llys sirol" ac "Uchel Lys");

d. termau sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd a Brexit (e.e. "offeryn UE", "deddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir" ac "Aelod-wladwriaeth");

e. termau cyfreithiol sylfaenol eraill (e.e. "Cymru", "diwrnod gwaith", "person", "tir" ac "ysgrifennu").

55. Mae Atodlen 1 i'r Bil yn debyg i Atodlen 1 i Ddeddf 1978, ond nid yw'n cynnwys y termau sydd wedi eu rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 nad ydynt yn berthnasol i ddeddfwriaeth Cymru, megis "Bank of Ireland". Ar y llaw arall, mae'n cynnwys rhai termau nad ydynt yn ymddangos yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978 ond sy'n debygol o fod yn berthnasol i ddeddfwriaeth Cymru, megis "Gweinidogion Cymru".

56. Pan fo Atodlen 1 i'r Bil yn diffinio gair neu ymadrodd sydd hefyd wedi ei ddiffinio yn Atodlen 1 i Ddeddf 1978, bwriedir fel arfer i'r diffiniad sydd wedi ei roi yn y Bil gael yr un effaith â'r effaith yn Neddf 1978 hyd yn oed os yw'n ymddangos yn wahanol i'r diffiniad cyfatebol yn Neddf 1978.

57. Fodd bynnag, mae rhai diffiniadau sy'n ymddangos yn Atodlen 1 i'r Bil ac Atodlen 1 i Ddeddf 1978 sy'n wahanol yn y Bil:

a. Nid yw'r diffiniadau o amrywiol lysoedd yn y Bil ond yn cynnwys y llysoedd sy'n gweithredu o fewn awdurdodaeth Cymru a Lloegr, ond mae'r diffiniadau yn Neddf 1978 hefyd yn cynnwys y llysoedd cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

b. Er bod y diffiniad o "financial year" yn Neddf 1978 yn gyfyngedig i gyfeiriadau penodol sy'n ymwneud ag arian cyhoeddus, bydd y diffiniad yn y Bil yn gymwys at bob diben. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae cyfeiriadau at flynyddoedd ariannol yn neddfwriaeth Cymru bron bob amser yn ymwneud â blynyddoedd ariannol cyrff cyhoeddus.

c. Bwriedir i'r diffiniad o "Cymru" yn y Bil atgynhyrchu effaith y diffiniad o "Wales" yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 (a nodir yn adran 158(1) o'r Ddeddf honno). Mae'r diffiniad o "Wales" yn Neddf 1978 yn gyfyngedig i'r ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru, ond mae Deddf 2006 yn ehangu'r diffiniad hwnnw i gynnwys "the sea adjacent to Wales out as far as the seaward boundary of the territorial sea". Gan fod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ymdrin â phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud deddfwriaeth, mae'r Bil yn darparu i'r diffiniad safonol o "Wales" gyd-fynd â'r diffiniad sydd yn Neddf 2006 (ond gan ddefnyddio iaith ychydig yn wahanol er mwyn bod yn fwy cyson â deddfwriaeth arall sy'n cyfeirio at y môr).

58. Mae rhai diffiniadau yn Atodlen 1 yn cyfeirio at ddarpariaethau yn Neddfau gan Senedd y DU, sydd wedi eu deddfu yn Saesneg yn unig. Mae testun Cymraeg Atodlen 1 yn cyfeirio at y Deddfau hynny gan ddefnyddio cyfieithiadau Cymraeg o'u henwau (neu "enwau cwrteisi") yn hytrach na'r enwau gwreiddiol yn Saesneg.

Mae'r enwau cwrteisi Cymraeg a ddefnyddir ar gyfer Deddfau yn Atodlen 1, ac enwau'r Deddfau hynny yn Saesneg, fel a ganlyn:

| *Enw cwrteisi Cymraeg* | *Enw Saesneg* |
|---|---|
| • Deddf Achosion Priodasol a Theuluol 1984 | Matrimonial and Family Proceedings Act 1984 |
| • Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 | Banking and Financial Dealings Act 1971 |
| • Deddf y Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005 | Commissioners for Revenue and Customs Act 2005 |
| • Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982 | Criminal Justice Act 1982 |
| • Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 | Criminal Justice Act 1988 |
| • Deddf Cymru 2017 | Wales Act 2017 |
| • Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 | European Communities Act 1972 |
| • Deddf Datganiadau Statudol 1835 | Statutory Declarations Act 1835 |
| • Deddf Dehongli 1978 | Interpretation Act 1978 |
| • Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 | Constitutional Reform Act 2005 |
| • Deddf Elusennau 2011 | Charities Act 2011 |
| • Deddf Ffiniau, Dinasyddiaeth a Mewnfudo 2009 | Borders, Citizenship and Immigration Act 2009 |
| • Deddf Galluedd Meddyliol 2005 | Mental Capacity Act 2005 |
| • Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 | National Health Service (Wales) Act 2006 |
| • Deddf y Llysoedd 1971 | Courts Act 1971 |
| • Deddf Llysoedd Sirol 1984 | County Courts Act 1984 |
| • Deddf Llysoedd Ynadon 1980 | Magistrates' Courts Act 1980 |
| • Deddf Llywodraeth Cymru 2006 | Government of Wales Act 2006 |
| • Deddf Llywodraeth Leol 1972 | Local Government Act 1972 |
| • Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 | European Union (Withdrawal) Act 2018 |
| • Deddf Uwchlysoedd 1981 | Senior Courts Act 1981 |

59. Yn rhinwedd adran 4(1) o'r Bil, mae adran 6(1) ac Atodlen 1 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Felly, caiff Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig roi i derm sydd wedi ei restru yn Atodlen 1 i'r Bil ystyr gwahanol i'r hyn a geir yn Atodlen 1.

60. Mae adran 6(2) yn darparu ar gyfer pŵer i ddiwygio'r Atodlen. Byddai hyn yn caniatáu i ddiffiniadau gael eu hychwanegu at yr Atodlen pan fyddai o gymorth gwneud hynny, neu er mwyn adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar ystyr termau sydd wedi eu rhestru yn yr Atodlen. O dan adran 42 o'r Bil, byddai'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

**Adran 7 – Mae geiriau yn y ffurf unigol yn cynnwys y ffurf luosog ac fel arall**

61. Mae adran 7 yn golygu, pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at enw yn naill ai'r unigol neu'r lluosog, y bydd y cyfeiriad fel arfer yn cwmpasu dwy ffurf yr enw. Mae hyn felly yn dileu'r angen i ddeddfwriaeth ddefnyddio ymadroddion megis "person neu bersonau" yn y rhan fwyaf o gyd-destunau. Dibynnir ar y ddarpariaeth hon yn y rhan fwyaf o ddeddfwriaeth, os nad pob darn o ddeddfwriaeth, ac mae'n helpu i hwyluso drafftio byrrach a mwy hygyrch.

62. Mae'r adran hon yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 6(c) o Ddeddf 1978.

**Adran 8 – Nid yw geiriau sy'n dynodi rhywedd yn gyfyngedig i'r rhywedd hwnnw**

63. Mae adran 8 yn golygu nad yw geiriau yn Neddfau'r Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig y gellid eu darllen fel pe baent yn gyfyngedig i bersonau o rywedd penodol i'w darllen fel pe baent yn gyfyngedig yn y ffordd honno. Diben yr adran yw sicrhau nad yw cymhwysiad deddfwriaeth yn rhy gul, ac nad yw hyd yn oed geiriau ac ymadroddion a allai fod wedi cael eu hystyried yn niwtral o ran rhywedd yn y gorffennol (megis "ef neu hi") yn hepgor unrhyw un, ni waeth beth fo'i hunaniaeth o ran rhywedd.

64. Mae adran 8 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, ac felly ni fydd yn berthnasol pan fo'n amlwg bod Deddf neu offeryn yn bwriadu cyfeirio at bersonau o rywedd penodol.

65. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 6(a) a (b) o Ddeddf 1978, ond nid yw'n cyfeirio'n ddatganedig at y rhywedd gwrywaidd na'r rhywedd benywaidd ac felly mae iddi gwmpas ehangach.

**Adran 9 – Amrywio geiriau ac ymadroddion oherwydd gramadeg etc.**

66. Mae adran 9 yn ei gwneud yn glir, pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diffinio gair neu ymadrodd, fod i'r rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â'r gair neu'r ymadrodd y diffiniad hwnnw hefyd. Er enghraifft, os yw'r gair "*cerdded*" yn cael ei ddiffinio, wedyn mae'r rhannau ymadrodd sy'n ymwneud â "*cerdded*", megis "*cerdda*" a "*cerddwr*", i'w dehongli yng ngoleuni'r diffiniad hwnnw.

67. Afraid dweud yn aml fod diffiniad yn gymwys o dan yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae angen dileu pob amheuaeth ynghylch hyn. Gweler er enghraifft y diffiniad o "*addysg*" yn adran 99(1) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r diffiniad hwnnw mewn perthynas ag "*addysgol*" ac "*addysgu*". Mae adran 9 o'r Bil yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch cymhwyso

diffiniadau, er mwyn osgoi amwysedd a dileu'r angen i wneud darpariaeth ar wahân mewn Deddfau ac offerynnau unigol.

68. Bydd adran 9 hefyd yn pennu y tu hwnt i amheuaeth fod diffiniad o air neu ymadrodd yn gymwys er gwaethaf unrhyw amrywiad ar y gair hwnnw neu'r ymadrodd hwnnw sy'n codi oherwydd gweithredu rheolau gramadeg. Mewn perthynas â thestun Cymraeg deddfwriaeth, bydd yr adran hon yn ei gwneud yn glir bod diffiniad neu ystyr yn gymwys er gwaethaf unrhyw oleddfiadau ar air neu amrywiadau ar ymadrodd sy'n codi oherwydd rheolau ynghylch trefn geiriau a strwythur brawddegau.

69. Mae adran 9 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Nid oes ganddi adran gyfatebol yn Neddf 1978.

### Adran 10 – Cyfeiriadau at amser o'r dydd

70. Mae adran 10 yn darparu bod cyfeiriad at amser penodol o'r dydd (megis 2pm neu 2am) yn gyfeiriad at amser safonol Greenwich, ac eithrio yn ystod y cyfnod pan fo amser haf Prydain yn gymwys, pan fydd y cyfeiriad at amser haf Prydain (hynny yw, yr amser a bennir at ddibenion cyffredinol yn ystod amser haf gan adran 1 o Ddeddf Amser Haf 1972[42]).

71. Nid yw effaith yr adran hon yn ddarostyngedig i'r eithriad yn adran 4(1) o'r Bil. Yn lle hynny, bydd adran 10 yn gymwys i gyfeiriad at yr amser o'r dydd oni bai bod y ddeddfwriaeth yn gwneud darpariaeth ddatganedig nad at amser safonol Greenwich neu (yn yr haf) at amser haf Prydain y cyfeirir. Gallai hyn godi mewn darpariaeth y mae angen iddi gyfeirio at yr amser y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 9 o Ddeddf 1978.

### Adran 11 – Cyfeiriadau at y Sofren

72. Bwriedir i adran 11 sicrhau bod cyfeiriadau at y Sofren yn Neddfau'r Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig yn parhau'n gyfredol. Pan fo deddfwriaeth yn cyfeirio at y teyrn, mae'n gwneud hynny fel arfer drwy gyfeirio at yr unigolyn sy'n teyrnasu ar adeg deddfu'r ddeddfwriaeth. Caiff felly gyfeirio at "y Frenhines" neu "y Brenin" neu at "Ei Fawrhydi" neu "Ei Mawrhydi". Os bydd y Sofren yn newid, bydd yr adran hon yn gweithredu mewn perthynas â chyfeiriadau o'r fath fel eu bod yn parhau i fod yn gymwys i'r teyrn presennol.

73. Mae adran 11 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 10 o Ddeddf 1978.

### Adran 12 – Mesur pellter

74. Mae'r adran hon yn darparu bod pellteroedd y cyfeirir atynt yn Neddfau'r Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig i'w mesur yn llorweddol ac mewn llinell syth. Mae'n cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 8 o Ddeddf 1978.

---

[42] Summer Time Act 1972.

**Adran 13 – Cyflwyno dogfennau drwy'r post neu'n electronig**

75. Mae adran 13 yn cynnwys darpariaethau sylfaenol ynghylch cyflwyno dogfennau drwy'r post ac yn electronig. Nid yw'r adran ynddi'i hun yn awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw fath o ddogfen gael ei gyflwyno gan ddefnyddio gwasanaethau post neu gyfathrebiadau electronig. Nid yw'n gymwys ond pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu ar gyfer cyflwyno drwy'r naill neu'r llall neu'r ddau o'r dulliau hynny. Mater i Ddeddfau ac offerynnau unigol yw penderfynu a ganiateir y dulliau cyflwyno hynny, neu unrhyw ddulliau eraill, mewn cyd-destunau penodol.

76. Bydd adran 13(1) yn gymwys pryd bynnag y mae Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu y caniateir cyflwyno dogfen (neu ei rhoi neu ei hanfon etc.) neu fod rhaid ei chyflwyno (neu ei rhoi neu ei hanfon etc.) drwy'r post. Mae'n golygu, os yw'r person sydd i gyflwyno'r ddogfen yn cymryd camau penodol, yr ystyrir bod y person wedi cyflwyno'r ddogfen.

77. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r anfonwr "cyfeirio'n briodol" y llythyr sy'n cynnwys y ddogfen. Bwriedir i hyn olygu bod cyfeiriad post y derbynnydd bwriadedig yn ymddangos yn gywir ar y llythyr. Os yw'n angenrheidiol pennu pa un o gyfeiriadau derbynnydd y gellir ei ddefnyddio, er enghraifft mewn perthynas â chwmni â sawl swyddfa, mater i'r Ddeddf berthnasol neu'r offeryn perthnasol fydd gwneud darpariaeth ynghylch y mater hwnnw.

78. Mae is-adran (2) yn dilyn patrwm tebyg i is-adran (1), ond mewn perthynas â chyflwyno dogfennau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu electronig. Ni fydd yn gymwys ond pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn darparu y caniateir anfon dogfen yn electronig neu fod rhaid anfon dogfen yn electronig. Bydd hyn yn cynnwys anfon dogfennau drwy e-bost, drwy ffacs neu drwy unrhyw ddull cyfathrebu electronig arall.

79. Bwriedir i'r cysyniad o "cyfeirio'n briodol" gyfathrebiad electronig yn is-adran (2)(a) ei gwneud yn ofynnol i'r anfonwr sicrhau bod yr e-bost, y ffacs neu'r cyfathrebiad arall yn cael ei anfon i gyfeiriad e-bost, rhif ffacs neu gyfeiriad electronig arall sy'n ddilys ac y gellir disgwyl yn rhesymol i'r derbynnydd gael gafael arno, a bod y cyfeiriad wedi ei nodi'n gywir. Os bydd angen gofynion ychwanegol mewn achosion penodol, megis cydsyniad ymlaen llaw i gyflwyno dogfen drwy gyfathrebiadau electronig, bydd angen eu nodi yn y Ddeddf berthnasol neu'r offeryn perthnasol.

80. Mae is-adran (2)(a) yn caniatáu i ddogfennau gael eu hatodi i gyfathrebiad electronig, yn ogystal â chaniatáu mai'r cyfathrebiad electronig ei hun yw'r ddogfen sy'n cael ei chyflwyno. Ni fwriedir iddi ganiatáu i ddogfen gael ei hanfon yn electronig drwy anfon dolen i ddogfen a ddelir ar y rhyngrwyd at rywun, y mae rhaid i'r derbynnydd wedyn gymryd camau pellach i gael gafael arni.

81. Mae adran 13 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'r adran hon (ynghyd ag adran 14) yn cyfateb i adran 7 o Ddeddf 1978.

**Adran 14 – Y diwrnod pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno**

82. Mae'r adran hon yn darparu ar gyfer y diwrnod y bernir bod dogfen a gyflwynir yn electronig neu drwy'r post wedi ei chyflwyno. Mae'n creu rhagdybiaeth i'r ddogfen gael ei chyflwyno ar y diwrnod hwnnw, ond mae hyn yn amodol ar brofi'r gwrthwyneb.

83. Mae adran 14 yn dibynnu ar y cysyniad o "yn nhrefn arferol y post" at ddibenion barnu pryd y cyflwynir dogfen drwy'r post. Bwriedir i'r cysyniad hwn weithredu gydag unrhyw wasanaeth post y caniateir ei ddefnyddio, gan gynnwys cyflwyno drwy ddefnyddio post dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth, neu ryw ddull arall o bost wedi ei hwyluso. Ym mhob achos, pan ddefnyddir post, gall yr anfonwr bennu'r diwrnod y bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno drwy gyfeirio at amseroedd danfon arferol ar gyfer y gwasanaeth a ddewisir.

84. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin â'r diwrnod pan fernir bod dogfennau wedi eu chyflwyno gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig. Er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o gyfathrebiadau electronig yn digwydd bron ar unwaith, bernir bod y ddogfen wedi ei chyflwyno ar y diwrnod y'i hanfonir.

85. Mae adran 14 yn darparu ar gyfer y "diwrnod" pan fernir bod dogfen wedi ei chyflwyno, am mai cyfnodau o ddiwrnodau cyfan yw'r cyfnodau o amser a bennir yn neddfwriaeth Cymru fel arfer. Pe bai achos pan oedd angen nodi union amser y dydd pan gyflwynid dogfen, byddai angen i'r Ddeddf Cynulliad berthnasol neu'r is-offeryn Cymreig perthnasol wneud darpariaeth ynghylch y mater hwnnw.

**Adran 15 – Parhad pwerau a dyletswyddau**

86. Mae adran 15 yn pennu y tu hwnt i amheuaeth fod pwerau a roddir i berson a dyletswyddau a osodir ar berson yn barhaus, ac y caniateir eu harfer o bryd i'w gilydd ac yn ôl yr angen. Mae'n gymwys i'r holl bwerau a roddir a'r holl ddyletswyddau a osodir gan Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, gan gynnwys pwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth.

87. Mae adran 15 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 12 o Ddeddf 1978, a fydd yn parhau i fod yn gymwys i bwerau a roddir ac i ddyletswyddau a osodir gan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, neu gan is-ddeddfwriaeth a wneir cyn hynny.

**Adran 16 – Arfer pŵer neu ddyletswydd nad yw mewn grym**

88. Mae is-adrannau (1) a (2) o adran 16 yn darparu y caniateir arfer pwerau a dyletswyddau o dan ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig cyn i'r darpariaethau hynny ddod i rym. Yn rhinwedd is-adran (1)(a), mae'r adran yn gymwys i ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad os deuant i rym ar adeg a bennir yn y Ddeddf ac sy'n fwy nag un diwrnod ar ôl diwrnod y Cydsyniad Brenhinol (ond nid yw'n gymwys i ddarpariaethau a ddaw i rym yn gynt neu a ddygir i rym drwy orchymyn neu reoliadau).

89. Mae adran 16(3) yn nodi'r dibenion y caniateir arfer y pŵer neu'r ddyletswydd atynt cyn i'r ddarpariaeth berthnasol ddod i rym.

90. Mae adran 16(4) yn caniatáu ar gyfer dibynnu ar ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf neu'r is-offeryn Cymreig nad ydynt mewn grym ond sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd neu'n atodol i'r ddarpariaeth honno.

91. Mae adran 16(5) yn ei gwneud yn glir bod unrhyw gyfyngiadau neu amodau a fyddai'n gymwys i arfer y pŵer neu gyflawni'r ddyletswydd pe bai'r Ddeddf neu'r offeryn mewn grym yn llawn hefyd yn gymwys pan gaiff y pŵer neu'r ddyletswydd ei arfer neu ei harfer gan ddibynnu ar adran 16.

92. Mae adran 16 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

93. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 13 o Ddeddf 1978, ond mae'n cynnwys nifer o wahaniaethau y bwriedir iddynt egluro ei chwmpas. Yn benodol, nid yw adran 16 yn gymwys pan fo pŵer neu ddyletswydd i'w ddwyn neu ei dwyn i rym drwy orchymyn neu reoliadau; mae'n ei gwneud yn glir yn union pryd y mae'n galluogi i'r pŵer neu'r ddyletswydd gael ei arfer neu ei harfer; ac mae'n darparu bod y pŵer neu'r ddyletswydd i'w arfer neu i'w harfer yn yr un ffordd â phe bai'r darpariaethau sy'n rhoi'r pŵer neu'n gosod y ddyletswydd mewn grym.

94. Bydd adran 13 o Ddeddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i bwerau a roddir ac i ddyletswyddau a osodir gan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, a chan is-ddeddfwriaeth a wneir cyn hynny.

### Adran 17 – Cynnwys darpariaethau machlud a darpariaethau adolygu mewn is-ddeddfwriaeth

95. Mae adran 17 yn pennu y tu hwnt i bob amheuaeth y caiff Gweinidogion Cymru, neu unrhyw berson arall sy'n gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Cynulliad, ddarparu yn yr is-ddeddfwriaeth:

a. i'r ddeddfwriaeth beidio â chael effaith ar amser penodedig neu ar ddiwedd cyfnod penodedig ("darpariaeth fachlud");

b. i'w gwneud yn ofynnol i'r person a wnaeth y ddeddfwriaeth adolygu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth ("darpariaeth adolygu").

96. Mae adran 17 yn gymwys i bwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym. Mae'n cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

97. Mae'r adran hon yn cyfateb i adran 14A o Ddeddf 1978, a fydd yn parhau i fod yn gymwys i bwerau ac i ddyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth a roddir neu a osodir gan Fesurau'r Cynulliad, gan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol cyn i Ran 2 ddod i rym, a chan Ddeddfau Senedd y DU.

**Adran 18 – Dirymu, diwygio ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth**

98. Mae adran 18 yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad yn rhoi pŵer neu'n gosod dyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'n darparu pwerau cyffredinol i ddiwygio, dirymu ac ailddeddfu is-ddeddfwriaeth.

99. Mae adran 18 yn gymwys i bwerau a dyletswyddau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym. Mae'n cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

100. Mae adran 18 yn cyfateb i adran 14 o Ddeddf 1978, ond mae nifer o wahaniaethau. Nid yw adran 14 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth ac eithrio rheolau, rheoliadau ac is-ddeddfau ond os yw'r is-ddeddfwriaeth honno wedi ei gwneud drwy offeryn statudol, ond nid yw'r cyfyngiad hwnnw wedi ei gynnwys yn adran 18 o'r Bil. Mae adran 18(2) yn cyfeirio'n ddatganedig hefyd at is-ddeddfwriaeth a wneir wrth gyflawni dyletswydd, ac yn cyfyngu ar y pŵer i ddirymu ac i ddiwygio i'r graddau y mae'n angenrheidiol i sicrhau nad oes modd tanseilio'r ddyletswydd i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

101. Yn debyg i adran 17, ni fydd adran 18 yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru neu awdurdodau Cymreig datganoledig eraill yn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Fesurau'r Cynulliad, o dan Ddeddfau'r Cynulliad a gaiff y Cydsyniad Brenhinol cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym, neu o dan Ddeddfau Senedd y DU. Yn yr achosion hynny, bydd adran 14 o Ddeddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â'r pŵer neu'r ddyletswydd i wneud yr is-ddeddfwriaeth.

**Adran 19 – Diwygio is-ddeddfwriaeth gan Ddeddf Cynulliad**

102. Mae adran 19 yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad yn diwygio neu'n dirymu is-ddeddfwriaeth. Pan fo hyn yn digwydd, gall godi cwestiynau ynghylch a fwriedir mewn rhyw ffordd i'r diwygiad neu'r dirymiad gyfyngu ar arfer y pŵer y gwneir yr is-ddeddfwriaeth odano yn y dyfodol. Weithiau mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud yn y Ddeddf i ddileu unrhyw amheuaeth am hyn, ond bydd y rheol gyffredinol yn adran 19 yn gwneud hyn yn ddiangen.

103. Mae adran 19 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Nid oes ganddi adran gyfatebol yn Neddf 1978.

**Adran 20 – Amrywio cyfarwyddydau a'u tynnu'n ôl**

104. Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth sy'n rhoi pŵer neu'n gosod dyletswydd i roi cyfarwyddydau yn cynnwys darpariaeth ynghylch amrywio'r cyfarwyddydau hynny a'u tynnu'n ôl. Hyd yn oed mewn achosion pan na fo unrhyw ddarpariaeth ddatganedig ynghylch amrywio cyfarwyddydau neu eu tynnu'n ôl wedi ei gwneud, efallai y bydd modd dehongli bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu amrywio cyfarwyddydau a roddir odani neu eu tynnu'n ôl.

105. Mae adran 20 yn dileu unrhyw amheuaeth ynghylch a ellir amrywio cyfarwyddydau neu eu tynnu'n ôl, ac yn osgoi'r angen i gael darpariaeth ddatganedig am hyn bob tro y crëir pŵer neu ddyletswydd i roi cyfarwyddydau. Bwriedir i hyn wella cysondeb yn yr holl ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi.

106. Mae'r adran hon yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Nid oes ganddi adran gyfatebol yn Neddf 1978.

**Adran 21 – Cyfeiriadau at raniadau o ddeddfiadau, offerynnau a dogfennau**

107. Mae adran 21 yn gymwys pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at raniad o destun mewn unrhyw ddeddfiad, offeryn neu ddogfen. At y diben hwn, mae ystyr estynedig i "deddfiad" ac mae'n cynnwys unrhyw un o'r mathau o ddeddfwriaeth y caniateir iddynt fod yn gymwys yn y Deyrnas Unedig. Bydd "offeryn" yn cynnwys unrhyw fath o offeryn cyfreithiol, pa un a yw'n ddeddfwriaethol neu fel arall, megis offeryn UE, Siarter Frenhinol neu weithred.

108. Bwriedir i adran 21 ddileu unrhyw amheuaeth ynghylch yr union raniad o destun y cyfeirir ato yn y deddfiad, yr offeryn neu'r ddogfen. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn perthynas â darpariaethau mewn deddfwriaeth sy'n gwneud diwygiadau. Er enghraifft, yn achos darpariaeth sy'n datgan "*Yn adran 1, yn lle'r geiriau "yr awdurdod lleol" hyd at "swyddog" rhodder "y cyngor sir benodi dau neu ragor o swyddogion*""; mae adran 21 yn pennu y tu hwnt i amheuaeth fod y testun sydd wedi ei amnewid yn dechrau â "*yr awdurdod lleol*", ac yn cynnwys y geiriau hynny, ac yn gorffen â "*swyddog*", ac yn cynnwys y gair hwnnw.

109. Mae adran 21 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 20(1) o Ddeddf 1978, ond mae'n gymwys i gyfeiriadau at ystod ehangach o offerynnau a dogfennau.

**Adran 22 – Argraffiadau o Ddeddfau'r Cynulliad neu o Fesurau'r Cynulliad y cyfeirir atynt**

110. Mae adran 22 yn gymwys i unrhyw gyfeiriad at Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad mewn Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi neu iddo. Mae'n galluogi darllenwyr y Ddeddf Cynulliad neu'r is-offeryn Cymreig i wybod pa "argraffiad" o'r Ddeddf neu'r Mesur y cyfeirir ato.

111. Mae adran 22 yn cyfateb i adran 19(1) o Ddeddf 1978 (o'i darllen gydag adran 23B o'r Ddeddf honno). Yn wahanol i'r darpariaethau yn Neddf 1978, mae adran 22 yn cyfeirio at y Ddeddf neu'r Mesur "a gyhoeddir", yn hytrach nag "a argreffir". Bwriedir i hyn adlewyrchu newidiadau mewn trefniadau. Yn y gorffennol, byddai Argraffydd y Frenhines (neu berson a oedd yn gweithredu o dan oruchwyliaeth neu awdurdod Llyfrfa Ei Mawrhydi) wedi argraffu fersiwn o Ddeddf fel yr oedd ar adeg cael y Cydsyniad Brenhinol. Hon, i bob pwrpas, fuasai'r fersiwn ddiffiniol o'r Ddeddf, a gellid cael gafael arni o'r Llyfrfa. Er bod hynny'n dal i fod yn wir heddiw, mae Deddfau hefyd yn cael eu rhoi ar gael ar wefan legislation.gov.uk, ar ffurf sy'n adlewyrchu yn union y fersiwn o'r Ddeddf sydd wedi ei hargraffu. Fel hyn y mae'r rhan fwyaf o bobl bellach yn cael mynediad at Ddeddf ac yn ei darllen.

112. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae gwefan legislation.gov.uk yn diweddaru Deddfau er mwyn ymgorffori diwygiadau a wneir i'r Deddfau hynny (gan gadw'r fersiwn wreiddiol o'r Ddeddf "*fel y'i deddfwyd*" ar gael fel rheol). Mae'r diweddariadau hyn yn golygu y bydd y fersiwn argraffedig o'r Ddeddf a'r fersiwn ar-lein o'r Ddeddf yn

wahanol i'w gilydd. Er mwyn osgoi dryswch, ac i osgoi cael effaith wahanol i adran 19(1) o Ddeddf 1978 (sy'n dal i gyfeirio at y fersiynau argraffedig o Ddeddfau), mae adran 22 yn cyfeirio at:

a. y copi ardystiedig o Ddeddf Cynulliad sy'n cael ei gwneud a'i anfon at Argraffydd y Frenhines o dan adran 115(5D) a (5E) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 unwaith y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol, a

b. Mesur Cynulliad fel yr oedd pan y'i cymeradwywyd gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor (gweler adran 102 yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sydd bellach wedi ei diddymu; ond mae adran 106 o'r Ddeddf honno yn gwneud darpariaeth arbed mewn perthynas â diddymu Rhan 3 o'r Ddeddf honno, a barheir bellach gan baragraff 5 o Atodlen 7 i Ddeddf Cymru 2017[43]).

113. Mewn geiriau eraill, mae adran 22 yn darparu bod cyfeiriadau at Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad yn gyfeiriadau at y fersiwn o'r Ddeddf neu'r Mesur a gyhoeddwyd gan Argraffydd y Frenhines etc. sy'n adlewyrchu'r Ddeddf neu'r Mesur fel yr oedd ar yr adeg y peidiodd â bod yn Fil neu'n Fesur arfaethedig a phan y'i deddfwyd yn Ddeddf neu'n Fesur.

114. Pan fo Deddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad wedi cael ei diwygio neu ei ddiwygio, rhaid i'r adran hon gael ei darllen gydag adran 24, fel bod cyfeiriad at y Ddeddf neu'r Mesur yn gyfeiriad at y fersiwn a gyhoeddwyd gan Argraffydd y Frenhines etc., fel y'i diwygiwyd wedyn.

### Adran 23 – Argraffiadau o Ddeddfau gan Senedd y Deyrnas Unedig y cyfeirir atynt

115. Mae adran 23 yn gwneud darpariaeth debyg i adran 22, ond ar gyfer cyfeiriadau mewn Deddfau Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig at Ddeddfau gan Senedd y DU. Mae'n galluogi darllenwyr deddfwriaeth Cymru i benderfynu, pan fo'r ddeddfwriaeth honno yn cyfeirio at Ddeddf, at ba 'argraffiad' o'r Ddeddf honno y cyfeirir. Yn debyg i adran 22, dibynnir ar y cysyniad o gyhoeddi yn hytrach nag argraffu.

116. Mae adran 23 yn cyfateb i adran 19(1) o Ddeddf 1978, ond mae'r cyfeiriadau y mae'n gymwys iddynt yn cael eu disgrifio mewn termau mwy cyffredinol. Mae adran 19(1) yn cyfeirio at gyfeiriadau at Ddeddfau gan Senedd y DU "by year, statute, session or chapter". Roedd hyn o werth arbennig mewn cyd-destun hanesyddol; weithiau roedd gwahanol argraffiadau o Ddeddfau a statudau, ac yn y Deddfau a'r statudau hynny roedd y rhifo a threfn y darpariaethau weithiau'n amrywio rhwng yr argraffiadau. Fodd bynnag, deellir bod adran 19(1) yn gymwys yn gyffredinol i bob cyfeiriad at Ddeddf gan Senedd y DU. Felly, nid yw adran 23 yn dweud ei bod yn gyfyngedig i achosion pan gyfeirir at Ddeddfau mewn ffyrdd penodol.

[43] Wales Act 2017.

**Adran 24 – Mae cyfeiriadau at ddeddfiadau yn gyfeiriadau at ddeddfiadau fel y'u diwygiwyd**

117. Mae adran 24 yn ymdrin â'r sefyllfa pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn cyfeirio at ddeddfwriaeth arall, a phan fo'r ddeddfwriaeth arall honno yn cael ei diwygio, pa un ai cyn neu ar ôl i'r Ddeddf gael ei deddfu neu i'r offeryn gael ei ddeddfu.

118. Mae adran 24 yn cyfateb i adran 20(2) o Ddeddf 1978, ond mae'n ceisio egluro i ba raddau y mae ei heffaith yn 'newidiadwy' (h.y. i ba raddau y mae'n gymwys i gyfeiriad at ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio wedyn).

119. Yn debyg i adran 20(2) o Ddeddf 1978, mae adran 24 o'r Bil yn ymdrin â'r sefyllfa a ganlyn:

a. mae Deddf 1 yn cael ei phasio
b. mae Deddf 2 wedyn yn diwygio Deddf 1;
c. mae Deddf 3 yn cael ei phasio ar ôl Deddf 2, ac yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf 1.

Yn yr achos hwn, mae'r cyfeiriad yn Neddf 3 yn gyfeiriad at Ddeddf 1 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2.

120. Mae adran 24 hefyd yn ei gwneud yn glir ei bod yn gymwys yn yr achos a ganlyn:

a. mae Deddf 1 yn cael ei phasio
b. mae Deddf 2 wedyn yn diwygio Deddf 1;
c. mae Deddf 3 yn cael ei phasio ar ôl Deddf 2, ac yn cynnwys cyfeiriadau at Ddeddf 1;
d. mae Deddf 1 yn cael ei diwygio eto, gan Ddeddf 4.

O dan adran 24, mae'r cyfeiriad yn Neddf 3 at Ddeddf 1 yn dod yn gyfeiriad at Ddeddf 1 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 4.

121. Yn debyg i adran 21 o'r Bil, mae'r adran hon yn estyn y diffiniad o "deddfiad" a roddir yn Atodlen 1, sy'n golygu y bydd yn gymwys i gyfeiriadau yn Neddfau'r Cynulliad ac mewn is-offerynnau Cymreig at ystod o fathau eraill o ddeddfwriaeth ar draws y Deyrnas Unedig.

122. Mae adran 24 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Adran 25 – Cyfeiriadau at offerynnau'r UE**

123. Mae adran 25 yn darparu pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi neu iddo yn cyfeirio at offeryn UE, a diwygiwyd yr offeryn hwnnw gan offeryn arall gan yr UE cyn i'r Ddeddf gael y Cydsyniad Brenhinol neu cyn i'r is-offeryn Cymreig gael ei wneud, fod y cyfeiriad at yr offeryn UE yn gyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd. Yn wahanol i adran 24, nid yw ei heffaith yn 'newidiadwy'. Mewn geiriau eraill, os yw'r offeryn UE yn cael ei ddiwygio ar ôl i'r Ddeddf Cynulliad gael y Cydsyniad Brenhinol neu ar ôl i'r is-

offeryn Cymreig gael ei wneud, nid yw'r cyfeiriad at yr offeryn UE i'w drin wedyn fel pe bai'n gyfeiriad at yr offeryn UE fel y'i diwygiwyd.

124. Diffinnir 'offeryn UE' yn Atodlen 1, a'i ystyr yw unrhyw offeryn a ddyroddir gan unrhyw sefydliad o'r UE, ac eithrio unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir. Mae offerynnau'r UE a ddaw'n ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn cael eu trin yn lle hynny fel "deddfiadau" (ac mae cyfeiriadau atynt i'w dehongli felly yn unol ag adran 24 yn hytrach nag adran 25).

125. Mae adran 25 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 20A o Ddeddf 1978.

**Adran 26 – Troseddau dyblyg**

126. Mae adran 26 yn gymwys pan fo ymddygiad yn drosedd o dan ddwy neu ragor o wahanol Ddeddfau neu offerynnau y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, neu'n drosedd o dan un neu ragor o Ddeddfau neu offerynnau y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt yn ogystal â'r gyfraith gyffredin. Effaith yr adran yw y caniateir i berson y mae ei ymddygiad yn drosedd gael ei erlyn a'i gosbi o dan unrhyw un o'r mathau o gyfraith o dan sylw (mewn geiriau eraill, nid yw'r gwahanol droseddau sy'n cwmpasu'r ymddygiad o dan sylw yn eu rhagfarnu ei gilydd). Fodd bynnag, mae adran 26 yn ei gwneud yn glir mai dim ond unwaith y caniateir cosbi'r person am y drosedd.

127. Mae adran 26 yn cyfateb i adran 18 o Ddeddf 1978. Mae'r adran honno yn gymwys ar hyn o bryd pan fo gweithred person neu fethiant person i weithredu yn gyfystyr â throsedd o dan unrhyw gyfuniad o ddau neu ragor o'r canlynol:

a. Deddfau Senedd y DU,
b. Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad,
c. Deddfau Senedd yr Alban,
d. is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un o'r Deddfau neu'r Mesurau uchod,

neu o dan unrhyw un o'r uchod, ac yn ôl y gyfraith gyffredin.

128. Bydd adran 18 o Ddeddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys pan fo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad nad yw Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi neu iddo neu o dan unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau neu'r Mesurau hynny, ac sydd hefyd yn drosedd o dan unrhyw un neu ragor o'r mathau eraill o ddeddfwriaeth y mae adran 18 yn gymwys iddynt neu yn ôl y gyfraith gyffredin.

129. Mae adran 26(2) o'r Bil yn ei gwneud yn glir y bydd adran 18 o Ddeddf 1978 hefyd yn gymwys pan fo gweithred neu anweithred yn drosedd o dan Ddeddf neu offeryn y bydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi neu iddo, ac o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae adran 18 yn gymwys iddi (gan gynnwys Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig na fydd Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt). Mae Atodlen 2 i'r Bil yn rhoi adrannau newydd 23B a 23C yn lle adran 23B o Ddeddf 1978 (sy'n llywodraethu sut y mae'r Ddeddf honno yn gymwys mewn

perthynas â Deddfau'r Cynulliad a Mesurau'r Cynulliad). Yn adran 23C, bwriedir i is-adran (3) gyflawni'r canlyniad hwn.

130. Mae adran 26 o'r Bil yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

### Adran 27 – Cymhwyso deddfwriaeth Cymru i'r Goron

131. Gall y cwestiwn ynghylch a yw Deddf neu is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron[44] (hynny yw, pa un a yw'r Goron yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd neu faich a osodir gan y Ddeddf ai peidio) beri problemau yn ymarferol. Y rheol yn y gyfraith gyffredin[45] yw nad yw Deddfau nac is-ddeddfwriaeth yn rhwymo'r Goron oni bai:

a. bod y Ddeddf yn gwneud darpariaeth ddatganedig ei bod yn rhwymo'r Goron,

b. bod y Goron yn cael ei rhwymo drwy oblygiad angenrheidiol (er nad yw'n hollol sicr beth yw "goblygiad angenrheidiol" at ddibenion y rheol), neu

c. bod eithriadau eraill i'r rheol yn gymwys (er enghraifft, pan fo'r Goron yn ymgyfreithiwr mewn achos sifil, mae'n dilyn o Ddeddf Achosion yn erbyn y Goron 1947[46] y caiff y Goron ei rhwymo gan yr holl statudau perthnasol sy'n ymwneud ag achosion sifil).

132. Yn niffyg darpariaeth ddatganedig sy'n rhwymo'r Goron, mae hyn yn golygu bod angen ystyried a yw Deddf yn rhwymo'r Goron drwy edrych ar y rheol a'i therfynau, a phenderfynu wedyn a yw natur, cyd-destun a chynnwys y Ddeddf o dan sylw yn golygu bod rhaid bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi bwriadu i'r Goron gael ei rhwymo.

133. Mae adran 27(1) yn rhoi rheol statudol yn lle rheol y gyfraith gyffredin. Mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, mae'n gwrthdroi'r sefyllfa yn y gyfraith gyffredin fel bod y rheol yw nad yw Deddf Cynulliad yn rhwymo'r Goron. Nid yw'r rheol statudol hon yn ddarostyngedig i'r eithriad yn adran 4(1); yn hytrach, mae adran 27(4) yn darparu bod y rheol yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae'r Ddeddf Cynulliad yn gwneud darpariaeth ddatganedig fel arall.

134. Mae'r sefyllfa yn fwy cymhleth mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth, a byddai mater penodol yn codi pe bai is-offeryn Cymreig yn ddarostyngedig i'r rheol yn

---

[44] At y dibenion hyn, ystyr y Goron fel rheol yw naill ai: y Sofren yn bersonol; ei gweision a'i hasiantau; a phersonau nad ydynt yn weision neu'n asiantau i'r Goron ond yr ystyrir eu bod, at ddiben penodol, mewn sefyllfa gyffelyb. Gall hefyd gynnwys eiddo'r Goron, megis tir a cherbydau'r Goron. Ond nid yw'r cwestiwn o'r hyn sy'n gyfystyr â'r Goron at ddibenion cymhwyso'r gyfraith bob amser yn glir.

[45] Gweler yn benodol *Province of Bombay v Municipal Corporation of the City of Bombay* [1947] AC 58, *Lord Advocate v Dumbarton District Council* [1990] 2 AC 50; [1989] 3 WLR 136, ac yn fwy diweddar *R (on the application of Black) v Secretary of State for Justice* [2017] UKSC 81 (sydd, ym mharagraff 36 a 37, yn cynnwys "clarification" o'r prawf y tu ôl i'r rheol).

[46] Crown Proceedings Act 1947.

adran 27, ond pe na bai'r Ddeddf y'i gwneid odani yn ddarostyngedig i'r rheol honno. Mae adran 27(2) yn ymdrin â'r mater hwnnw drwy ddarparu bod is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 yn gymwys iddo yn rhwymo'r Goron os yw wedi ei wneud o dan ddeddfiad sy'n rhwymo'r Goron neu sy'n rhoi pŵer i rwymo'r Goron. Y rheol felly ar gyfer is-offerynnau Cymreig yw eu bod yn rhwymo'r Goron ble bynnag y mae'n bosibl iddynt wneud hynny. Mae adran 27(4) yn golygu bod y rheol hon yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae'r is-offeryn Cymreig yn gwneud darpariaeth ddatganedig fel arall.

135. Pan fo deddfwriaeth yn darparu ei bod yn rhwymo'r Goron, fel arfer mae hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn glir nad yw'n gwneud y Goron yn droseddol atebol, ond nad yw hyn yn atal personau sy'n gwasanaethu'r Goron rhag bod yn droseddol atebol. Mae adran 27(3) yn gwneud darpariaeth gyffredinol i'r perwyl hwn mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig.

**Adran 28 – Yr amser pan ddaw deddfwriaeth Cymru i rym**

136. Mae adran 28 yn darparu pan fo darpariaeth mewn deddfwriaeth ar gyfer y diwrnod y daw Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig, neu ddarpariaeth mewn Deddf neu offeryn o'r fath, i rym fod y Ddeddf neu'r offeryn yn dod i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw.

137. Yn ymarferol, darperir fel arfer ar gyfer y diwrnod y daw Deddf Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf i rym yn y Ddeddf ei hun[47], neu rhoddir pŵer i Weinidogion Cymru i'w dwyn i rym ar ddiwrnod penodol drwy wneud gorchymyn (a elwir yn orchymyn cychwyn fel arfer). Trafodir yr holl sefyllfaoedd hyn yn adran 28.

138. Mae adran 28 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 4(a) o Ddeddf 1978.

**Adran 29 – Y diwrnod y daw Deddf Cynulliad i rym**

139. Bydd adran 29 yn gweithredu pan na fo Deddf Cynulliad yn mynd i'r afael â dyfodiad y Ddeddf neu ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym (mewn geiriau eraill, mae'n ddistaw o ran sut neu pryd y daw'r Ddeddf neu'r ddarpariaeth i rym, neu sut neu pryd y caiff ei dwyn i rym). Y disgwyliad yw na ddibynnid ar y ddarpariaeth hon yn ymarferol; ond y byddai'n gweithredu fel trefniant defnyddiol wrth gefn.

140. Mae adran 29 yn cyfateb i adran 4(b) o Ddeddf 1978. Fodd bynnag, o dan adran 4(b) daw Deddf i rym ar y diwrnod y caiff y Cydsyniad Brenhinol, ond o dan adran 29 o'r Bil daw Deddf Cynulliad neu ddarpariaeth mewn Deddf Cynulliad i rym ar ddechrau'r diwrnod *ar ôl* y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r newid hwn yn dileu'r elfen ôl-weithredol yn adran 4(b) o Ddeddf 1978, a allai achosi problemau yn ymarferol, er enghraifft pe bai Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol yn y prynhawn a oedd yn gymwys yn ôl-weithredol i bethau a wnaed y bore hwnnw.

---

[47] Fel arfer, darperir y daw'r Ddeddf i rym ar ddiwedd cyfnod penodol sy'n dechrau â rhoi'r Cydsyniad Brenhinol, neu y daw i rym ar ddiwrnod penodol. Yn achlysurol, bydd Deddf yn darparu i'r Ddeddf ddod i rym pan fydd digwyddiad penodol neu achlysur arall yn digwydd.

141. Yn debyg i adran 4(b) o Ddeddf 1978, nid yw adran 29 o'r Bil yn gymwys i is-ddeddfwriaeth. Nid ystyrir bod trefniant cyffredinol wrth gefn yn briodol ar gyfer deddfwriaeth o'r fath, o gofio'r ystod eang o fathau gwahanol o offeryn a'r amrywiaeth o amgylchiadau y gallant gael eu gwneud odanynt.

**Adran 30 – Gorchmynion a rheoliadau sy'n dwyn Deddfau'r Cynulliad i rym**

142. Pan fo Deddf Cynulliad yn darparu i unrhyw un neu ragor o'i darpariaethau ddod i rym ar ddiwrnod a benodir drwy orchymyn, mae bron bob amser yn darparu y caiff gorchymyn benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Mae adran 30 yn nodi'r gosodiad hwn yn gyffredinol, sy'n golygu na fydd angen cynnwys y ddarpariaeth hon fesul Deddf. Bydd hyn yn helpu i gwtogi Deddfau'r Cynulliad yn y dyfodol.

143. Mae adran 30 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Nid oes ganddi adran gyfatebol yn Neddf 1978.

**Adran 31 – Diwygiadau a wneir i ddeddfwriaeth Cymru neu gan ddeddfwriaeth Cymru**

144. Pan fo un darn o ddeddfwriaeth yn diwygio un arall drwy fewnosod neu amnewid deunydd, gall cwestiynau godi ynghylch a yw'r deunydd hwnnw i'w ddehongli ac a yw effaith i gael ei rhoi iddo fel rhan o'r ddeddfwriaeth a wnaeth y diwygiad, neu fel rhan o'r ddeddfwriaeth y mae'r deunydd wedi ei fewnosod ynddi. Gall y cwestiwn hwn fod yn fwy arwyddocaol os yw rheolau dehongli gwahanol yn gymwys i bob darn o ddeddfwriaeth (er enghraifft, os yw Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig y mae Rhan 2 yn gymwys iddi neu iddo yn diwygio Deddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth arall nad yw'r Rhan honno yn gymwys iddi).

145. Y sefyllfa gyffredinol yn ôl y gyfraith gyffredin yw bod effaith diwygiad i'w phenderfynu drwy ddehongli'r ddeddfwriaeth sydd wedi ei diwygio, yn hytrach na'r ddeddfwriaeth ddiwygio[48]. Mae adran 31 yn gwneud darpariaeth ddatganedig y bwriedir iddi adlewyrchu'r sefyllfa hon yn y gyfraith gyffredin ar gyfer achosion pan fo diwygiad yn cael ei wneud gan neu i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig (neu gan ac i Ddeddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig).

146. Mae'r gyfraith gyffredin yn cydnabod o dan rai amgylchiadau y gall fod yn angenrheidiol cyfeirio at y ddeddfwriaeth ddiwygio er mwyn dehongli'r ddeddfwriaeth y mae'n ei diwygio, er mwyn rhoi effaith i fwriad y deddfwr wrth ddeddfu'r ddeddfwriaeth ddiwygio. Yn y Bil, adlewyrchir hyn yn y ffaith bod effaith adran 31 yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaeth ddatganedig i'r gwrthwyneb neu i'r cyd-destun fynnu fel arall, yn rhinwedd adran 4(1).

147. Nid oes gan adran 31 adran gyfatebol yn Neddf 1978. Fodd bynnag, mae adran 23ZA o Ddeddf 1978 (sydd wedi ei mewnosod gan baragraff 20 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018) yn darparu bod y rhan fwyaf o'r Ddeddf honno yn gymwys i ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir (ac eithrio is-ddeddfwriaeth) i'r graddau y mae'n cael ei diwygio gan ddeddfwriaeth ddomestig gan gynnwys Deddfau'r Cynulliad ac is-ddeddfwriaeth.

---

[48] Gweler, er enghraifft, *Inco Europe Ltd v First Choice Distribution* [1999] 1 WLR 270, yn 272-273.

**Adran 32 – Nid yw diddymiadau na dirymiadau yn adfer cyfraith a diddymwyd, a ddirymwyd neu a ddilëwyd eisoes**

148. Mae adran 32 yn drech na rheol y gyfraith gyffredin bod Deddf, pan gaiff ei diddymu, yn cael ei thrin fel pe na bai erioed wedi cael ei deddfu ac eithrio mewn perthynas â phethau sydd eisoes wedi eu gwneud a'u cwblhau o dan y Ddeddf.

149. Mae'r adran hon yn ymdrin â'r sefyllfa a ganlyn:

a. mae Deddf 1 yn cael ei phasio.
b. mae Deddf 2 wedyn yn diddymu Deddf 1.
c. mae Deddf 3 wedyn yn diddymu Deddf 2.

150. Yn ôl y gyfraith gyffredin, effaith Deddf 3 fyddai adfer Deddf 1. Gan mai anaml y dymunir y canlyniad hwn yn ymarferol, mae adran 32 yn darparu nad yw Deddf 3 yn adfer Deddf 1 o dan yr amgylchiadau uchod.

151. Mae adran 32 hefyd yn ymdrin â'r sefyllfa pan fo Deddf A yn dileu rheol yn y gyfraith gyffredin, ac wedyn mae Deddf 2 yn diddymu Deddf 1. Unwaith eto, y sefyllfa yn y gyfraith gyffredin fyddai i Ddeddf 2 adfer y rheol a oedd wedi ei dileu. Mae adran 32 yn atal adfer y rheol a ddilëwyd eisoes.

152. Mae adran 32 yn gweithredu mewn perthynas â diddymiadau a dirymiadau a wneir gan Ddeddfau'r Cynulliad a chan is-offerynnau Cymreig. Ac o gofio'r diffiniad o "deddfiad" yn Atodlen 1, mae'n gweithredu pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu unrhyw Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, unrhyw Ddeddf gan Senedd y DU, unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r mathau hynny o ddeddfwriaeth.

153. Nid yw adran 32 yn ddarostyngedig i adran 4(1) o'r Bil; felly os mai'r bwriad yw na ddylai'r rheol yn adran 32 fod yn gymwys mewn perthynas â diddymiad neu ddirymiad penodol, bydd angen cynnwys geiriau datganedig yn y Ddeddf neu'r offeryn sy'n gwneud y diddymiad er mwyn adfer y deddfiad cynharach neu'r rheol gynharach.

154. Mae adran 32 yn cyfateb i adran 15 o Ddeddf 1978. Fodd bynnag, nid yw adran 15 yn gymwys ond i ddiddymu deddfwriaeth a oedd wedi diddymu deddfiad arall yn flaenorol, ac nid yw'n gymwys i ddiddymu deddfwriaeth a oedd wedi dileu rheol yn y gyfraith gyffredin. Yn Neddf 1978, mae'r sefyllfa olaf o'r ddwy yn cael ei thrin yn lle hynny fel pe bai'n dod o fewn adran 16(1)(a), sydd ag effaith debyg ond yn ddarostyngedig i'r rheol "contrary intention" gyffredinol yn Neddf 1978.

**Adran 33 – Arbedion cyffredinol mewn cysylltiad â diddymiadau a dirymiadau**

155. Mae adran 33 yn gweithredu mewn perthynas â'r un rheol yn y gyfraith gyffredin ag adran 32. Ei diben yw sicrhau nad yw diddymu cyfraith yn golygu bod pethau a ddigwyddodd neu faterion a gododd cyn y diddymiad i'w trin fel pe na baent erioed yn ddarostyngedig i'r gyfraith honno.

156. Pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu deddfiad arall, mae adran 33(2):

a. ym mharagraff (a), yn darparu ar gyfer rheol sy'n fath o ehangiad ar y rheol yn adran 32, fel nad yw diddymiad neu ddirymiad yn adfer unrhyw beth nad oedd mewn grym yn flaenorol (megis contract a wneud yn anghyfreithlon neu'n annilys gan y ddeddfwriaeth a ddiddymwyd);

b. ym mharagraff (b), yn darparu yn fwy cyffredinol nad yw'r diddymiad neu'r dirymiad ond yn gweithredu mewn perthynas â'r dyfodol, ac nad yw'n effeithio ar unrhyw beth a wnaed o dan y ddeddfwriaeth a ddiddymwyd tra oedd mewn grym.

157. Mae adran 33(3) yn cadw hawliau ac atebolrwyddau a gododd tra oedd y ddeddfwriaeth mewn grym, ac yn galluogi i gamau gael eu cymryd i orfodi'r hawliau a'r atebolrwyddau hynny ar ôl i'r ddeddfwriaeth gael ei diddymu. Er enghraifft, pe bai person yn cyflawni trosedd o dan gyfraith a ddiddymwyd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni ond cyn i'r mater gael ei ddwyn i brawf, mae adran 33(3) yn golygu bod modd o hyd roi'r person ar brawf a'i gosbi o dan y gyfraith honno.

158. Yn debyg i adran 32, bydd adran 33 yn gweithredu pan fo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu unrhyw Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, unrhyw Ddeddf gan Senedd y DU, unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r mathau hynny o ddeddfwriaeth. Yn wahanol i adran 32, bydd hefyd yn gymwys pan ddaw Deddf dros dro gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig dros dro i ben, yn rhinwedd adran 36(2).

159. Bwriedir i adran 33 gael yr un effaith ag adran 16 o Ddeddf 1978. Yr unig newid yw yr ymdrinnir â diddymu deddfiad a oedd gynt yn dileu rheol yn y gyfraith gyffredin yn adran 32, yn hytrach nag yn yr adran hon.

160. Mae adran 33 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

**Adran 34 – Effaith ailddeddfu**

161. Mae adran 34 yn gweithredu pan:

a. bo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn diddymu neu'n dirymu darpariaeth mewn unrhyw Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, unrhyw Ddeddf gan Senedd y DU, unrhyw ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir, neu unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan unrhyw un neu ragor o'r mathau hynny o ddeddfwriaeth; a

b. bo Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig yn ailddeddfu'r ddarpariaeth a ddiddymwyd neu a ddirymwyd.

162. Yn rhinwedd adran 36(2), bydd yr adran hon hefyd yn gymwys pan fo Deddf dros dro gan y Cynulliad neu is-offeryn Cymreig dros dro yn dod i ben ac yn cael ei

hailddeddfu neu ei ailddeddfu gan Ddeddf arall gan y Cynulliad neu gan is-offeryn Cymreig arall.

163. Yn yr achosion hynny, mae adran 34(2) yn golygu bod cyfeiriad at y ddarpariaeth sydd wedi ei diddymu neu wedi ei dirymu (neu sydd wedi dod i ben) i'w ddarllen fel pe bai'n cyfeiriad at y ddarpariaeth fel y'i hailddeddfir. Mae adran 34(2) yn gymwys i gyfeiriadau yn unrhyw un neu ragor o'r mathau o ddeddfwriaeth a grybwyllir uchod, a hefyd i gyfeiriadau mewn unrhyw offeryn cyfreithiol arall (megis gweithred, ewyllys, contract neu les) neu unrhyw ddogfen arall.

164. Yn ymarferol, lle bynnag y bo modd, byddai'r deddfiad diddymu neu ddirymu (neu ddeddfiad arall) yn gwneud yr holl ddiwygiadau angenrheidiol i bob cyfeiriad at y darpariaethau a ddiddymwyd. Ond rhag ofn nad yw hynny'n digwydd, bydd adran 34(2) yn darparu trefniant defnyddiol wrth gefn, ac yn sicrhau bod deddfiadau sy'n cyfeirio at y darpariaethau hynny yn parhau i weithredu.

165. Mae adran 34(3) a (4) yn darparu bod unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd wedi ei gwneud, ac unrhyw bethau eraill sydd wedi eu gwneud, o dan ddarpariaeth a ddiddymwyd sydd wedi ei hailddeddfu i'w trin fel pe baent wedi eu gwneud o dan yr ailddeddfiad.

166. Mae adran 34 yn cyfateb i adran 17(2) o Ddeddf 1978, ond mae rhai gwahaniaethau rhyngddynt. Nid yw adran 17(2) ond yn gweithredu pan ddarperir ar gyfer y diddymiad a'r ailddeddfiad yn yr un Ddeddf. Bydd adran 34 yn gweithredu pan fo un Ddeddf Cynulliad neu un is-offeryn Cymreig yn darparu ar gyfer y diddymiad, a phan fo Deddf Cynulliad wahanol neu is-offeryn Cymreig gwahanol yn darparu ar gyfer yr ailddeddfiad. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws dibynnu ar adran 34 pan fo angen. Er enghraifft, mewn ymarfer cydgrynhoi, efallai y bydd yn ddymunol cael un Ddeddf sy'n nodi'r gyfraith wedi ei chydgrynhoi, a Deddf arall sy'n ymdrin â phob un o'r diddymiadau a'r diwygiadau canlyniadol.

167. Yn ychwanegol, er bod adran 17(2)(a) yn darparu bod cyfeiriad at y deddfiad a ddiddymir i'w ddehongli fel pe bai'n gyfeiriad at y ddarpariaeth a ailddeddfir, mae adran 34(2) yn darparu bod y cyfeiriad i'w ddarllen fel "(neu fel pe bai'n cynnwys)" cyfeiriad at yr ailddeddfiad. Bwriedir i hyn egluro y gall fod angen i'r cyfeiriad barhau i weithredu fel cyfeiriad at y deddfiad a ddiddymwyd *ac* at yr ailddeddfiad *fel ei gilydd*. Er enghraifft, os bydd Deddf Cynulliad yn diwygio Deddf gan Senedd y DU fel nad yw'n gymwys i Gymru mwyach, ac yn ailddatgan darpariaethau'r Ddeddf honno a oedd yn gymwys i Gymru, efallai y bydd cyfeiriadau at y Ddeddf gan Senedd y DU y mae angen iddynt gael eu trin fel pe baent yn gyfeiriadau at y Ddeddf honno a'r Ddeddf Cynulliad newydd.

168. Mae'r cyfeiriad yn adran 34(2) at unrhyw "offeryn neu ddogfen" yn cyfateb i'r ddarpariaeth a wneir gan adran 23(3) o Ddeddf 1978 i adran 17(2)(a) fod yn gymwys i "any deed or other instrument or document". Nid yw adran 34(2) yn cyfeirio'n benodol at weithredoedd gan nad oes amheuaeth bod gweithredoedd yn "offerynnau". Nid yw darpariaethau sy'n addasu cyfeiriadau o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol fel arfer yn neilltuo gweithredoedd ar gyfer eu crybwyll ar wahân.

169. Mae adran 34 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall.

### Adran 35 – Cyfeirio at Ddeddf Cynulliad yn ôl ei henw byr ar ôl iddi gael ei diddymu

170. Darperir ar gyfer enw byr Deddf Cynulliad fel rheol mewn darpariaeth yn y Ddeddf ei hunan, ac fel y mae'r enw yn awgrymu, mae'n darparu enw byr a chyfleus y gellir ei ddefnyddio mewn deddfwriaeth arall i gyfeirio at y Ddeddf. Effaith adran 35 yw cadw dilysrwydd cyfeiriadau at Ddeddf yn ôl ei henw byr hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf, a'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â'i henw byr, gael eu diddymu. Yn rhinwedd adran 36(2), mae adran 35 hefyd yn gymwys i enw byr Deddf dros dro gan y Cynulliad sy'n dod i ben.

171. Mae adran 35 yn cael effaith ac eithrio i'r graddau y mae darpariaeth ddatganedig yn cael ei gwneud i'r gwrthwyneb neu y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall. Mae'n cyfateb i adran 19(2) o Ddeddf 1978.

### Adran 36 – Ystyr diddymu a dirymu yn y Rhan hon

172. Mae adran 36 yn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr cyfeiriadau at ddiddymu a dirymu deddfwriaeth yn Rhan 2.

173. Yn ôl y gyfraith gyffredin, mae 'diddymu' a 'dirymu' yn cynnwys nid yn unig ddiddymiadau a dirymiadau datganedig, ond unrhyw gyfyngu ar effaith deddfiad. Mae hyn yn cynnwys Deddf sy'n darparu bod deddfiad arall yn "*peidio â chael effaith*" neu nad yw'n gymwys mwyach mewn perthynas â lle, person neu beth; ac achosion pan fo diwygiad i ddeddfiad (neu roi unrhyw beth yn lle'r deddfiad) yn cyfyngu ar weithrediad neu effaith y deddfiad mewn unrhyw ffordd[49].

174. Bwriedir i adran 36(1) adlewyrchu'r ystyr a fyddai gan ddiddymu a dirymu eisoes yn ôl y gyfraith gyffredin. Mae hefyd yn gymwys i'r cyfeiriad at ddileu rheol gyfreithiol yn adran 32.

175. Trafodir effeithiau adran 36(2) mewn perthynas â deddfwriaeth dros dro uchod, mewn perthynas ag adrannau 33 i 35. Mae ddeddfwriaeth dros dro yn fath o ddeddfwriaeth sydd yn cael effaith dim ond am gyfnod cyfyngedig a lle nad oes angen cymryd camau deddfwriaethol ychwanegol er mwyn eu diddymu neu eu dirymu (h.y. mae'n diddymu neu ddirymu ei hun ar ôl i'r cyfnod penodedig ddod i ben).

176. Nid yw'r diffiniadau yn yr adran hon yn gymwys y tu allan i Ran 2 (yn wahanol i'r diffiniadau yn Atodlen 1, a fydd yn gymwys i holl Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y bydd Rhan 2 yn gymwys iddynt).

### *Rhan 3: Amrywiol*

[49] Gweler Adroddiad Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn Cyfraith yr Alban, *Interpretation Bill* (Rhif 90, Gorchmn. 7235, Mehefin 1978), yr Atodiad, paragraff 5. Yn *Moakes v Blackwell Colliery Co* [1926] 2 KB 64, 70, y farn oedd bod rhoi, mewn Deddf, gyfeiriad at swm uwch o arian yn lle cyfeiriad at swm o arian yn ddiddymiad.

## Adran 37 – Pŵer i ddisodli disgrifiadau o ddyddiadau ac amseroedd yn neddfwriaeth Cymru

177. Mae adran 37(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio deddfwriaeth Cymru sy'n cynnwys disgrifiad o ddyddiad neu amser, drwy fewnosod cyfeiriad at y gwir ddyddiad neu amser unwaith y mae'n hysbys. Mae'r pŵer ar gael pan fo dyddiad neu amser yn cael ei ddisgrifio drwy gyfeirio at ddyfodiad deddfiad i rym neu unrhyw ddiwygiad arall. Er enghraifft, os yw Deddf Cynulliad yn cyfeirio at bethau a wneir ar neu ar ôl 'y diwrnod y daw adran 10 i rym', ac mae adran 10 yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ionawr 2018, gellid diwygio'r Ddeddf i gyfeirio at bethau a wneir ar neu ar ôl '1 Ionawr 2018'.

178. Ni chaniateir i'r pŵer yn adran 37(1) gael ei ddefnyddio i newid effaith y ddeddfwriaeth o dan sylw, ond dim ond er mwyn newid y ffordd y mae'r effaith honno yn cael ei mynegi. Diben y pŵer yw gwneud deddfwriaeth yn symlach ac yn fwy hygyrch. Bydd rheoliadau o dan adran 37(1) yn golygu y bydd pobl sy'n darllen testun cyfredol y ddeddfwriaeth yn gallu deall cyfeiriadau at ddyddiadau neu amseroedd heb yr angen i gyfeirio at ddeddfwriaeth arall neu ddogfennau eraill (megis gorchmynion cychwyn).

179. Pan fo dyddiad yn cael ei fewnosod, gall fod yn ddefnyddiol i ddarllenwyr wybod arwyddocâd y dyddiad hwnnw. Felly, mae adran 37(2) yn galluogi i reoliadau o dan adran 37(1) ychwanegu esboniad o'r dyddiad y maent yn ei fewnosod. Er enghraifft, gallai fod yn ddefnyddiol weithiau roi '1 Ionawr 2018 (y diwrnod y daeth adran 10 i rym)' yn lle 'y diwrnod y daw adran 10 i rym'.

180. Mae is-adran (2) hefyd yn rhoi pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol, diddymiadau a dirymiadau. Er enghraifft, pe bai deddfwriaeth Cymru yn cynnwys cyfeiriadau at 'diwrnod penodedig' a ddisodlwyd gan gyfeiriadau at y gwir ddiwrnod a benodwyd, gallai diwygiad gael ei wneud i ddileu'r diffiniad o'r 'diwrnod penodedig'.

181. Mae is-adran (3) yn nodi deddfwriaeth Cymru y caniateir iddi gael ei diwygio o dan yr adran hon, i gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Gweinidogion Cymru, a deddfiadau eraill i'r graddau y maent wedi eu diwygio gan y mathau hynny o ddeddfwriaeth. Caniateir i'r pŵer hwn gael ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth bresennol a deddfwriaeth a ddeddfir ar ôl i'r adran hon ddod i rym.

## Adran 38 – Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurfiau gwahanol

182. Ers 2014, mae Deddfau Cynulliad a Deddfau gan Senedd y DU fel arfer wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau yn hytrach na gorchmynion neu reolau. Fodd bynnag, mae gan Weinidogion Cymru lawer o bwerau o hyd i wneud gorchmynion a rheolau o dan ddeddfwriaeth gynharach. Mae'r adran hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i arfer pwerau i wneud rheoliadau, rheolau neu orchmynion drwy wneud unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny ar is-ddeddfwriaeth. Er enghraifft, gallai pŵer i wneud gorchmynion gael ei arfer i wneud rheoliadau yn lle hynny.

183. Bwriedir i adran 38 unioni'r sefyllfa pan fo'n angenrheidiol gwneud nifer o wahanol reoliadau, rheolau neu orchmynion er mwyn rhoi effaith i un polisi. Mae'n gymwys i

is-ddeddfwriaeth a wneir drwy offeryn statudol, a'i diben yw galluogi i wahanol ffurfiau ar is-ddeddfwriaeth gael eu cyfuno yn yr un offeryn. Mae gwneud un offeryn statudol yn gallu bod yn gyfleus, nid yn unig yn weinyddol ond hefyd er mwyn galluogi'r ddeddfwriaeth i ddweud ei stori mewn ffordd fwy cydlynol.

184. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn glir nad yw gwneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf wahanol o dan yr adran hon yn effeithio ar y weithdrefn ar gyfer gwneud offeryn. Er enghraifft, os defnyddir pŵer i wneud gorchymyn mewn Deddf i wneud rheoliadau gan ddibynnu ar yr adran hon, mae'r weithdrefn a fyddai'n gymwys i orchmynion o dan y Ddeddf yn gymwys o hyd.

185. Pan fo deddfwriaeth arall, offerynnau cyfreithiol neu ddogfennau cyfreithiol yn cynnwys cyfeiriadau at reoliadau, rheolau neu orchmynion a wneir o dan bwerau penodol, mae is-adran (3) yn addasu'r cyfeiriadau hynny i ystyried y posibilrwydd y caniateir i is-ddeddfwriaeth o dan y pwerau hynny gael ei gwneud ar ffurf wahanol o ganlyniad i'r adran hon.

186. Mae adran 38 yn gymwys ni waeth beth fo ffynhonnell pŵer neu ddyletswydd Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth, ac ni waeth pryd y rhoddwyd y pŵer neu y gosodwyd y ddyletswydd. Fodd bynnag, mae is-adran (4) yn darparu na chaniateir i'r pŵer yn yr adran hon gael ei ddefnyddio pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir. Mewn geiriau eraill, caniateir i'r pŵer gael ei ddefnyddio pan fo Gweinidogion Cymru yn gwneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf Cynulliad neu Fesur Cynulliad, a phan fônt yn gwneud darpariaeth nad yw'n gymwys ond o ran Cymru o dan Ddeddf gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir.

### Adran 39 – Cyfuno is-ddeddfwriaeth sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad

187. Mae adran 39 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfuno, mewn un offeryn statudol, is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy ddefnyddio pwerau gwahanol y mae gweithdrefnau gwahanol yn y Cynulliad yn gymwys iddynt. Mae'n sicrhau bod yr offeryn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn lymaf o'r gweithdrefnau a fyddai fel arall yn gymwys. Er enghraifft, os yw offeryn statudol yn cynnwys rhai darpariaethau a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a rhai darpariaethau a fyddai'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, mae'r adran hon yn golygu bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r offeryn cyfan (ac nid yw'r weithdrefn negyddol yn gymwys).

188. Mae llawer o Ddeddfau eisoes yn ystyried cyfuno, mewn un offeryn, is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau gwahanol o fewn yr un Ddeddf, hyd yn oed pan fyddai'r pwerau hynny fel arfer yn ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol. Er enghraifft, caiff Deddf ddarparu bod unrhyw offeryn sy'n cynnwys rheoliadau o dan bwerau penodol yn y Ddeddf yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (pa un a yw hefyd yn cynnwys rheoliadau o dan bwerau eraill ai peidio), a bod y weithdrefn negyddol yn gymwys i unrhyw offeryn arall sy'n cynnwys rheoliadau o dan y Ddeddf (h.y. unrhyw offeryn nad yw'n cynnwys rheoliadau o dan y pwerau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol).

189. Fodd bynnag, nid yw darpariaethau ynghylch gweithdrefn y Cynulliad ar gyfer offerynnau statudol bob amser yn ymdrin â'r mater hwn, ac fel arfer, nid ydynt yn darparu ar gyfer cyfuno yn yr un offeryn ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol a wneir o dan Ddeddfau gwahanol. Diben adran 39 yw hwyluso cyfuno mewn un offeryn statudol ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i weithdrefnau gwahanol, pa un a ydynt wedi eu gwneud o dan bwerau yn yr un Ddeddf neu mewn Deddfau gwahanol, ac er mwyn osgoi unrhyw drafferthion gweithdrefnol a fyddai'n cael eu hachosi drwy gyfuno darpariaethau yn y ffordd hon.

190. Mae is-adran (1) yn cyflawni hyn drwy ddarparu, pan fyddai mwy nag un weithdrefn yn y Cynulliad yn gymwys, mai dim ond pa un bynnag o'r gweithdrefnau hynny a grybwyllir gyntaf yn is-adran (2) sy'n gymwys. Mae is-adran (2) wedyn yn rhestru'r mathau gwahanol o weithdrefnau'r Cynulliad mewn trefn ddisgynnol gan ddechrau â'r weithdrefn lymaf, sef y weithdrefn gadarnhaol ddrafft ym mharagraff (a) ac yn gorffen â dim gweithdrefn ym mharagraff (e).

191. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn glir nad yw gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offeryn statudol cyfun y mae'r adran hon yn gymwys iddo yn atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud is-ddeddfwriaeth mewn offerynnau ar wahân yn y dyfodol, nac yn effeithio ar y weithdrefn sy'n gymwys i unrhyw offerynnau ar wahân y maent yn eu gwneud. Er enghraifft, os yw rheoliadau o dan bŵer a fyddai fel arfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol wedi cael eu cynnwys mewn offeryn statudol sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau pellach o dan y pŵer hwnnw mewn offeryn statudol ar wahân sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

### *Rhan 4: Cyffredinol*

### Adran 40 ac Atodlen 2 – Diwygiadau canlyniadol a diddymiadau

192. Mae'r adran hon ac Atodlen 2 yn darparu ar gyfer diwygio Deddf 1978, Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

193. Mae paragraff 1 o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1978 sy'n ganlyniadol i Ran 2 o'r Bil. Mae adran 23B newydd o Ddeddf 1978 yn sicrhau nad yw Deddf 1978 yn gymwys mwyach i Ddeddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 yn gymwys iddynt, ond bod Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i Ddeddfau Cynulliad eraill, Mesurau Cynulliad eraill ac is-offerynnau Cymreig eraill.

194. Mae adran 23B(4) yn ei gwneud yn glir bod adrannau 12 i 14A o Ddeddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i bwerau a dyletswyddau presennol (ac i bwerau a dyletswyddau o dan Ddeddfau gan Senedd y DU yn y dyfodol) sy'n cael eu harfer i wneud is-offerynnau Cymreig ar ôl i Ran 2 o'r Bil ddod i rym. Fodd bynnag, ni fydd adran 11 o Ddeddf 1978, sy'n darparu bod yr un ystyr i eiriau mewn is-ddeddfwriaeth ag sydd iddynt yn y rhiant-Ddeddf, yn gymwys i offerynnau sy'n ddarostyngedig i Ran 2.

195. Bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys i Ddeddfau, Mesurau ac offerynnau sydd wedi ei deddfu cyn i Ran 2 o'r Bil ddod i rym. O dan adran 23B(3)(b) ac (c), bydd Deddf 1978 yn parhau i fod yn gymwys hefyd i ddau gategori o offeryn a

wneir gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau Cymreig datganoledig o dan Ddeddfau gan Senedd y DU neu ddeddfwriaeth uniongyrchol UE a ddargedwir ar ôl i Ran 2 ddod i rym. Bydd yn gymwys i'r offerynnau hynny os ydynt yn cael eu gwneud gydag unrhyw berson nad yw'n awdurdod Cymreig datganoledig (e.e. cyd-offerynnau neu offerynnau cyfansawdd sy'n cynnwys is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol) neu os ydynt yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau sy'n gymwys ac eithrio o ran Cymru.

196. Mae adran newydd 23C yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y bydd cyfeiriadau yn Neddf 1978 at ddeddfiadau a mathau eraill o ddeddfwriaeth yn gweithredu mewn perthynas â deddfwriaeth Cymru, gan gynnwys Deddfau'r Cynulliad ac is-offerynnau Cymreig y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddynt. Bwriedir i'r darpariaethau hyn sicrhau bod Deddf 1978 yn parhau i weithredu'n gywir mewn perthynas â'r rhyngweithio rhwng deddfwriaeth y mae'r Ddeddf honno yn gymwys iddi a deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi.

197. Mae paragraff 2 o Atodlen 2 yn gwneud sawl diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

198. Mae'r diwygiad cyntaf yn ganlyniadol i adran 5 o'r Bil, sy'n darparu ar gyfer statws cyfartal testunau deddfwriaeth ddwyieithog Cymru. Mae adran 5 yn ailddatgan adran 156(1) o Ddeddf 2006 mewn perthynas â deddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Felly, mae paragraff 2(2)(a) o Atodlen 2 yn diwygio adran 156 o Ddeddf 2006 fel nad yw is-adran (1) yn gymwys i ddeddfwriaeth y mae Rhan 2 o'r Bil yn gymwys iddi. Bydd adran 156(1) yn parhau i fod yn gymwys i ddeddfwriaeth ddwyieithog arall Cymru (yn bennaf deddfwriaeth sydd wedi ei deddfu cyn i Ran 2 ddod i rym yn llawn).

199. Mae paragraff 2(2)(b) o Atodlen 2 yn diddymu adran 156(2) i (5) o Ddeddf 2006. Mae'r darpariaethau hynny yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n darparu, pan ddefnyddir geiriau ac ymadroddion Cymraeg penodol mewn darn o ddeddfwriaeth Cymru, fod iddynt yr un ystyr â'r geiriau a'r ymadroddion Saesneg a bennir yn y gorchymyn. Ni ddefnyddiwyd y pŵer hwn erioed, ac nid oes cynlluniau i'w ddefnyddio. Gellid dweud hefyd fod y darpariaethau hyn yn anghyson â'r gosodiad cyffredinol sy'n eu rhagflaenu – sef bod i'r ddwy iaith statws cyfartal. Mae Atodlen 1 i'r Bil bellach yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch ystyr amryw o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn neddfwriaeth Cymru, y gellir ei diwygio os oes angen diffinio geiriau ac ymadroddion ychwanegol; a gall Deddf Cynulliad neu is-offeryn Cymreig unigol wneud ei darpariaeth neu ei ddarpariaeth ei hun ynghylch ystyr geiriau ac ymadroddion yn y Ddeddf benodol neu'r offeryn penodol.

200. Mae paragraff 2(3) o Atodlen 2 yn diddymu cyfeiriad at adran 156(2) i (5) o Ddeddf 2006 sydd wedi ei ddisbyddu o ganlyniad i ddiddymu adran 156(2) i (5).

201. Mae paragraff 2(4) o Atodlen 2 yn diddymu'r ddarpariaeth yn Neddf 2006 a fewnosododd yn wreiddiol adran 23B yn Neddf 1978, oherwydd bod paragraff 1 o Atodlen 2 yn disodli'r cyfan o adran 23B.

202. Mae paragraff 3 o Atodlen 2 yn diwygio Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 er mwyn dileu darpariaethau a chanddynt yr un effaith ag adran 37 o'r Bil mewn perthynas ag

is-ddeddfwriaeth o dan y Mesur, ac na fyddant yn angenrheidiol mwyach unwaith y daw'r adran honno i rym.

**Adran 43 – Y Ddeddf hon yn dod i rym**

203. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ynghylch sut a phryd y daw'r Bil i rym.

204. Daw Rhan 1 o'r Bil i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni fydd adran 2 yn cael unrhyw effaith ar unwaith, gan nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i raglen gael ei llunio ond ar gyfer pob tymor yn y Cynulliad sy'n dechrau ar ôl i'r adran ddod i rym, a'i bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhaglen gael ei gosod gerbron y Cynulliad o fewn 6 mis ar ôl penodi Prif Weinidog yn dilyn etholiad cyffredinol yn y Cynulliad.

205. Daw Rhan 2 i rym drannoeth y Cydsyniad Brenhinol i'r graddau y mae'n gymwys i ddehongli a gweithredu'r Bil ei hun. Daw'r pŵer yn adran 5(2) a (3) i ddiwygio Atodlen 1 i rym drannoeth y Cydsyniad Brenhinol hefyd, rhag ofn bod angen i'r Atodlen gael ei diwygio cyn iddi ddod i rym yn llawn.

206. Bydd gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn Rhan 2 i rym mewn perthynas â Deddfau Cynulliad eraill ac mewn perthynas ag is-offerynnau Cymreig. Disgwylir y bydd y gorchymyn yn dwyn Rhan 2 i rym yn llawn ar ddechrau blwyddyn galendr, fel bod modd dweud o'r flwyddyn a gynhwysir yn enw'r Ddeddf neu'r offeryn pa un a yw Rhan 2 yn gymwys iddi neu iddo ai peidio.

207. Daw Rhannau 3 a 4 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol.